



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

## **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** **2013/2014**



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

Croeso .....	4
Cyflwyniad .....	5
Adroddiad Strategol .....	7
Sylwadaeth Rheoli .....	22
Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth.....	28
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu .....	32
Datganiad Llywodraethu.....	33
Datganiad Ariannol a Nodiadau i'r Cyfrifon	
Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net .....	42
Datganiad o Sefyllfa Ariannol. ....	43
Datganiad o Lifoedd Arian .....	44
Datganiad o Newid mewn Ecwiti Trethdalwyr .....	45
Nodiadau i'r Cyfrifon.....	46
Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol .....	82
Atodiad 1 - Adroddiad Cynladwyedd ac Amgylcheddol Llawn.....	84
Atodiad 2 - Panel Rheoli Perfformiad .....	90
Atodiad 3 - Presenoldeb y Bwrdd .....	93

1 Nodyn - Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-14, ond mae'r Cyfrifon ar gyfer 19 Gorffennaf 2012 i 31 Mawrth 2014. Y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod 19 Gorffennaf i 31 Mawrth 2013 oedd Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru, Gareth Jones. 1 Nodyn - Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-14, ond mae'r Cyfrifon ar gyfer 19 Gorffennaf 2012 i 31 Mawrth 2014. Y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod 19 Gorffennaf i 31 Mawrth 2013 oedd Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru, Gareth Jones.

# Ein Pwrpas...

yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.



Croeso i Adroddiad Blynyddol dechreuol Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni yw'r mudiad cyntaf yn y byd sy'n dod â llawer o'r offer y mae ei angen ynghyd i sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau Naturiol Cymru'n cael eu cynnal a chadw'n gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Ynghyd ag ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddio, ni yw prif ymgynghorydd Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol.

Sefydlwyd ein mudiad ar 1 Ebrill 2013 pan ddaethpwyd â chyfrifoldebau, asedau a staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ynghyd fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ein blwyddyn gyntaf rydym wedi adeiladu sylfeini pwysig ar gyfer mudiad llwyddiannus. Mae ein Bwrdd wedi darparu ffoecs ar lywodraethu effeithiol tra ein bod ni wedi amlinellu ein diben, gwerthoedd a rôl fel mudiad sy'n 'dysgu'.

Ar yr un pryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sicrhau na effeithiwyd ar ein gwasanaethau pwysig a'n hatebolrwydd gan y trosglwyddiad. Rydym hefyd wedi sicrhau rheolaeth ariannol ofalus mewn hinsawdd economaidd anodd, gan fynd i'r afael yn llwyddiannus â nifer o heriau o fewn y flwyddyn.

Rydym yn deall bod cydbwysu'r defnydd o'n hadnoddau naturiol a'r amgylchedd yng Nghymru'n golygu edrych ar bob rhan o'r darlun mawr. Mae'n rhaid i ni

sicrhau bod pob agwedd yn cael ei rheoli'n effeithiol i ddatgloi potensial a chreu'r canlyniadau cynaliadwy gorau sy'n dda i bobl, da i'r economi ac yn dda i'r amgylchedd. Rydym yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig, gan fabwysiadu ymagwedd ecosystemau at bopeth a wnawn.

Rydym yn gweithio i ddarparu gwasanaethau cydlynol i'n partneriaid, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid, sy'n elwa o ddelio ag un mudiad gydag un llais. Mae gennym raglen uchelgeisiol o newid i ddatblygu ffyrdd o weithio sy'n fwy addas ar gyfer Cymru.

Mae ein blwyddyn gyntaf wedi bod yn un brysur. Mae clefydau coed wedi cael effaith enfawr ar goedwigoedd ar draws Prydain. Yng Nghymru bu'n rhaid i ni dorri dwy filiwn o goed llarwydd i lawr i arafu'r lledaeniad ar draws y genedl, ac rydym wedi ailblannu dros 750,000 o goed yn yr ardaloedd hynny. Cymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru rôl arweiniol wrth ymateb i lawer o ddigwyddiadau yn ystod y tywydd garw a'r llifogydd yn y gaeaf. Rydym yn parhau i weithio gyda chymunedau i gywiro'r difrod, adeiladu amddiffynfeydd a datblygu gwydnwch, ac rydym wedi cwblhau cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer

Llanelli, Abertawe a Llanelwy eleni.

Nid yw'r materion mawr hyn wedi tynnu ein sylw i ffwrdd o gwblhau llawer o brosiectau rhagorol eraill, gan gynnwys y ganolfan ymwelwyr estynedig a'r llwybrau beicio mynydd newydd ym Mharc Coedwig Coed-y-Brenin, sydd ymhlith y gorau yn y byd.

Rydym yn dymuno talu teyrnged hefyd i Morgan Parry, Aelod Bwrdd a fu farw yn drist ym mis Ionawr. Roedd Morgan yn ffynhonnell o nerth, synnwyr cyffredin a doethineb yn ystod o broses o ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd ei angerdd, ei fewnwelediad a'i brofiad yn cael eu colli.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod cynnydd mawr wedi'i wneud - ond rydym yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud ag y bydd yna heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol I ddod.. Rydym yn deall gwerth gweithio gyda staff, partneriaid, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid i gyflwyno'r canlyniadau gorau posib. Hoffem ddiolch i staff a'r Bwrdd am eu hymrwymiad a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn hon o newid enfawr ac edrychwn ymlaen at gyflawni mwy yn 2014/15.



Cadeirydd  
Yr Athro Peter Matthews

Peter Matthews



Prif Weithredwr a  
Swyddog Cyfrifyddu  
Dr Emyr Roberts

Emyr Roberts

# // Cyflwyniad a Chefndir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn weithredol o 1 Ebrill 2013 pan drosglwyddwyd swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau penodol Llywodraeth Cymru

Cawson ein sefydlu'n gyfreithiol ar 18 Gorffennaf 2012 ac o ganlyniad i hynny dechreuodd y cyfnod cyfrifyddu cyntaf ar 19 Gorffennaf 2012 a daeth i

ben ar 31 Mawrth 2014, fodd bynnag trosglwyddwyd asedau'r tri chorff blaenorol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn

Coedwigaeth Cymru i ni ar 1 Ebrill 2013. Bryd hynny dechreuodd Emyr Roberts, Prif Weithredwr, ei gyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifyddu.

## Ein gwerthoedd yw:

**Angerddol** ac **uchelgeisiol** am ein gwaith a'r effaith gadarnhaol y byddwn yn ei chael

**Disgybledig** ac wedi'n **ffocysu** wrth i ni flaenoriaethu a chyflwyno

**Ymddiriedus** a **phroffesiynol** yn ein perthnasoedd gyda budd-ddeiliaid, staff a'u cynrychiolwyr

Meddu ar ymagwedd **synwyr cyffredin** at ein gwaith a bod yn **gyfrifol** ac yn **atebol** am ein gweithredoedd.



## Mae gennym ystod eang o rolau a chyfrifoldebau:

**Ymgynghorydd:** prif ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru, ac ymgynghorydd i'r diwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, a chorff cyfathrebu ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol

**Rheoleiddiwr:** diogelu pobl a'r amgylchedd gan gynnwys diwydiannau morol, coedwig a gwastraff, ac erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt

**Dynodwr:** ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - ardaloedd o werth penodol ar gyfer eu bywyd gwyllt neu ddaeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB), a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â datgan

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

**Ymatebwr:** i tua 9,000 o achosion amgylcheddol yr adroddir amdanynt bob blwyddyn fel ymatebwr brys Categori 1

**Ymgynghorai statudol:** i tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn

**Rheolwr/Gweithredwr:** rheoli saith y cant o dir Cymru gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, a gweithredu ein canolfannau ymwelwyr, cyfleusterau hamdden, deorfeydd a labordy

**Partner, Addysgwr a Galluogwr:** cydweithiwr

allweddol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan ddarparu cymorth grant a helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu; gweithredu fel catalydd ar gyfer gwaith pobl eraill

**Corff cywain tystiolaeth:** monitro ein hamgylchedd, comisiynu a chyflawni ymchwil, datblygu ein gwybodaeth a bod yn gorff cofnodion cyhoeddus

**Cyflogwr:** dros 1,900 o staff, yn ogystal â chefnogi cyflogaeth arall trwy waith contract.



// Helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu



## // Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Risg Llifogydd a Rheoli Digwyddiadau

# // Adroddiad Strategol

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu ystod eang o swyddogaethau cyfreithiol, rydym yn chwarae rôl allweddol yn llywodraethiad ein gwlad, gan helpu Gweinidogion i gyflawni dyheadau pobl Cymru. Ein prif rôl yw cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a chwrdd â'r nodau a sefydlwyd ar ein cyfer gan Weinidogion Cymru, sy'n pennu ein hamcanion trwy ymagwedd hir dymor a Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i bennu'r meysydd o'n gwaith y mae angen ffocws penodol arnynt.

Adeiladwyd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2013/14 a'n Panel Rheoli Perfformiad dilynol o gwmpas chwe phortffolio cyflwyno:

- Ansawdd yr Amgylchedd
- Gwydnwch yr Amgylchedd
- Swyddi a Menter
- Risg Llifogydd a Rheoli Digwyddiadau
- Iechyd, Lles a Chynnwys y Gymuned
- Deall ein Heffaith

Mae'r rhain wedi'u halinio i'r canlyniadau a rannwn gyda Llywodraeth Cymru.

- Gwella ein hamgylchedd
- Diogelu pobl
- Cefnogi menter a swyddi

- Gwell iechyd y genedl
- Lleoedd hyfyw a bywiog
- Cyflwyno cyfiawnder cymdeithasol
- Cefnogi sgiliau a gwybodaeth

I gefnogi'r canlyniadau tymor hir hyn, mae ein Gweinidog ar ran Llywodraeth Cymru wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer ein blwyddyn gyntaf o weithredu yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol:

- Cyflwyno Buddion yr Achos Busnes
- Sicrhau Dilyniant y Busnes
- Ymgymryd â Gorfodi
- Sicrhau Ymateb i Ddigwyddiadau
- Symud yr Ymagwedd

Ecosystemau ymlaen

- Blaenoriaethau penodol rheoli'r risg o lifogydd, cefnogi swyddi a busnesau, mynediad a hamdden a'r amgylchedd trefol
- Datblygu ein Cynllun Corfforaethol cyntaf ar gyfer 2014-17

Sefydlwyd Rhaglen Newid i sicrhau cyflwyniad ein galluoedd newydd ac unigol ar draws ystod eang o brosesau a systemau, isadeiledd a datblygiad sefydliadol y busnes. Pennwyd y targedau ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen yng Nghynllun Busnes 2013/14.

# Cynnydd ar gyflwyno buddion yr Achos Busnes

Erbyn diwedd 2013/14 ein hamcangyfrif yw y byddwn wedi cymryd camau i gyflwyno arbedion gwerth £5.5m y flwyddyn. Bydd yr arbedion hyn yn cronni i £47m erbyn Blwyddyn 10.

Rhagfynegwn y bydd y camau gweithredu sydd ar waith yn cyflwyno cynnydd mewn arbedion o flwyddyn i flwyddyn gan gynyddu hyd at £21m y flwyddyn erbyn 2018/19. Mae hyn yn rhoi hyder i ni y byddwn yn cyflawni buddiannau ein hachos busnes o £158m (anariannol a rhyddhau arian) erbyn Blwyddyn 10.

Trwy fynd yn annibynnol o'n cyrff blaenorol a chyflwyno'r buddion o'r Achos Busnes, cyflawnwyd holl ymadawiadau gwasanaeth y Comisiwn Coedwigaeth a 10 o 16 ymadawiadau gwasanaeth cynlluniedig Asiantaeth yr Amgylchedd. Ni fu modd i ni ymadael â holl


wasanaethau Asiantaeth yr Amgylchedd mor gyflym ag y cynlluniwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd cymhlethdod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi'i hallanoli Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae ymadawiadau gwasanaeth Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n weddill wedi cael eu hestyn i 2014/15.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf, gwnaed cryn dipyn o waith i ddatblygu'r mudiad newydd a chreu sylfaen ar gyfer y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys:

- Sefydlu ein systemau a'n diwylliant ein hunain
- Penodi'r Tîm Gweithredol ac Arweinyddiaeth
- Cynnal "sgyrsiau" mewnol i hyrwyddo diwylliant a rennir a chytuno ar werthoedd a'r gallu i siarad gydag un llais.

2013/14  
camau a  
gymrwyd i  
sicrhau

**£5.5m**  
o arbedion pob  
blwyddyn



Disgwylir arbedion o  
**£21m**  
y flwyddyn erbyn  
2018/2019


- Cynnydd da o ran sefydlu galluoedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu annibynnol, gyda'r nod o gael yr holl staff ar rwydwaith Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn Rhagfyr 2014
- Datblygu a gweithredu ein Strategaeth Llety, gan helpu dod â staff ynghyd

Ar ddechrau'r flwyddyn cytunodd y Bwrdd ar Banel Rheoli Perfformiad Corfforaethol i fesur ein cynnydd. Y perfformiad ar gyfer y flwyddyn lawn ar draws y 46 o fesurau ar ein Panel Rheoli oedd:

**33 Gwyrdd,**

**9 Melyn** (o fewn 10% o'r targed) a

**4 Red** ((gan nodi nad ydym wedi cyrraedd ble yr oeddem ni'n bwriadu bod).



Atodiad 2 -. Mae'r Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu perfformiad y flwyddyn lawn yn erbyn Cynllun Busnes 2013/14.



# // Uchafbwyntiau

## // Ymagwedd Rheoli Adnoddau Naturiol ac Ecosystemau Integredig

Crëwyd Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn i ni fod yn fwy cydlynol wrth i ni reoli adnoddau naturiol a'r amgylchedd. Yn y pen draw mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal a chadw'n gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol er budd pob;, yr amgylchedd a'r economi. Mae llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio i bennu gweledigaeth a rennir ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol, a blaenoriaethu'r camau a gymerwn i gyflwyno buddion lluosog - gan weithio gyda phrosesau natur.

Mae'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar Fesur yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig gofyniad newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu a gweithredu ymagwedd seiliedig ar ardaloedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Pennir hyn o fewn fframwaith polisi Cenedlaethol clir, ac fe'i dylunnir i fwyafu cyfraniad at gyfres o gyrchnodau a rennir. Bydd yr "ymagwedd seiliedig ar ardaloedd" yn broses integredig sy'n ffurfio ac yn cyfeirio mecanweithiau cyflwyno eraill - gan gydlynu'r defnydd o adnoddau i gyflawni'r buddion pennaf. Mae'r ymagwedd ecosystemau yn darparu'r strategaeth ac egwyddorion trosgynnol ar gyfer gwaith mwy cydlynol a defnydd cynaliadwy. Rheoli adnoddau naturiol yw'r broses y byddwn yn ei defnyddio i gyflwyno mewn ffordd fwy integredig.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion mewn ymgynghoriad Papur Gwyn ar Fesur yr Amgylchedd ac rydym wedi drafftio datganiad dros dro o'n

safbwynt ar reolir adnoddau naturiol. Darparwyd tystiolaeth i ymholiad Pwyllgor Cynladwyedd Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn hefyd. Rydym wedi sefydlu ymagwedd ecosystemau a rhaglen rheoli adnoddau naturiol. Crëwyd cysylltiadau â grwpiau allweddol Llywodraeth Cymru a gwyddoniaeth y DU (e.e. Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) a gwaith polisi.

Mae gwaith wedi dechrau ar integreiddio'r ymagwedd ecosystemau i'n polisïau ein hunain (e.e. ymgynghori ar bysgodfeydd mewndirol cynaliadwy yng Nghymru: agenda ar gyfer newid; trydan dŵr) a chynlluniau (e.e. Cynlluniau Adnoddau Coedwig). Hefyd, rydym wedi dechrau adnabod cynlluniau a allai gael eu rhesymoli yn y dyfodol wrth i'r ymagwedd seiliedig ar ardaloedd ddatblygu.

Rydym wedi adnabod a dechrau gwaith ar dair ardal beilot i'n helpu i ddatblygu a phrofi ein ymagwedd at gynllunio seiliedig ar ardaloedd, yn seiliedig ar ddalgylchoedd

rheoli adnoddau naturiol. Mae'r cynlluniau peilot hyn yn canolbwyntio ar ddalgylchoedd y Dyfi, y Rhondda a'r Tawe. Yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, comisiynwyd gwaith i bennu sut y gellir ymgorffori'r ymagwedd ecosystemau yn yr adolygiad statudol o gynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB). Rydym wedi gwella dealltwriaeth staff o'r ymagwedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol trwy drafod y cysyniad mewn digwyddiadau staff ar draws Cymru a chynnal hyfforddiant mwy penodol. Rydym wedi dechrau cysylltu â budd-ddeiliaid allanol mewn cynadleddau a digwyddiadau mwy lleol hefyd.

# // Ymateb i Achosion o Stormydd a Llanw Uchel

Achosodd y stormydd a effeithiodd ar y wlad ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr sawl achos o'r llawn uchaf i daro morlin Cymru ers degawdau. Cafwyd llifogydd yn uniongyrchol mewn 15 o aelwydydd a dioddefodd 575 pellach. Difrododd y storm amddiffynfeydd arfordirol mewn tua 175 o leoliadau ar draws Cymru. Effeithiwyd ar tua 360 hectar o dir fferm gan lifogydd hefyd.



Mae rhagamcaniadau newid yn yr hinsawdd yn nodi y gallwn ddisgwyl stormydd amlach a mwy difrifol, yn ogystal â chynnydd yn lefel y môr, yn y blynyddoedd i ddod. Ni fydd yn ddichonol nac yn fforddiadwy i amddiffyn morlin cyfan Cymru yn y dyfodol a bydd yn gynyddol bwysig bod yr holl bartion cyfrifol ac wedi'u heffeithio'n cydweithio i ymateb i'r heriau hyn a rheoli'r risgiau cynyddol hyn.

Yn ôl casgliadau'r adroddiad, er bod yr effaith ar y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol wedi bod yn ddifrifol ac yn drallodus iawn, a'r costau atgyweirio'n sylweddol, gallai'r effeithiau

wedi bod yn llawer gwaeth. Helpodd buddsoddiad sylweddol mewn amddiffynfeydd arfordirol, gwelliannau i ragfynegiadau a rhybuddion am lifogydd a chydweithio gwell rhwng mudiadau a chyda chymunedau i gyd i leihau effeithiau'r stormydd hyn. Cadwodd amddiffynfeydd llifogydd tua 74,000 o aelwydydd yn ddiogel, gan olygu bod llai nag 1% o eiddo a allai fod wedi wynebu'r posibilrwydd o lifogydd wedi'u heffeithio. Helpodd amddiffynfeydd i atal 34,000 hectar o dir fferm, bron hanner maint Ynys Môn, rhag cael eu bodd.

Ar bwynt uchaf y llawn, gwnaethom gyhoeddi bron i 23,000 o rybuddion a hysbysiadau i eiddo ar draws Cymru. Rhoddodd llawer o gymunedau eu cynlluniau llifogydd, yr oeddent wedi'u datblygu gyda ni, ar waith, gan godi clwydi a rhwystrau llifogydd i geisio amddiffyn eu hunain a'u heiddo.


Mae ein Hadroddiad Cam 1 "Adolygiad o'r Asesiad o Effaith Llifogydd Arfordirol Cymru" yn adnabod mwy nag £8m o ddifrod i amddiffynfeydd arfordirol yng Nghymru yn ystod y stormydd. Y ffigur hwn yw'r difrod a choswyd i amddiffynfeydd arfordirol sy'n eiddo i awdurdodau lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru neu wedi'i gynnal a chadw ganddynt. Nid yw'n cynnwys difrod i strwythurau preifat megis y rhai sy'n eiddo i Network Rail.



Ar bwynt uchaf y llawn, gwnaethom gyhoeddi bron i **23,000 o rybuddio** a hysbysiadau i eiddo ar draws Cymru



Cadwodd amddi ynf eydd llifogydd tua 74,000 o aelwydydd yn ddiogel, gan olygu bod **llai na 1% o eiddo** a allai fod wedi wynebu'r posibilrwydd o lifogydd **wedi'u heffeithio**



Helpodd amddiffynfeydd i atal **34,000 hectar** o dir fferm, bron **hanner maint Ynys Môn**, rhag cael eu bodd.

# // Camu i fyny i'r frwydr yn erbyn clefyd llarwydd

Yn gynnar yn y flwyddyn datgelodd arolygon awyrol gynnydd sylweddol yn lledaeniad *Phytophthora ramorum*, gydag estyniad mawr yn ardal y clefyd yn Ne Cymru ac ardal newydd a sylweddol o'r clefyd yng Ngogledd Cymru. Mae'r mwyafrif o'r ardaloedd hyn ar Ystâd Goetiroedd Llywodraeth Cymru (WGWE).

Cyflawnwyd y rhaglen wyliadwriaeth ar gyfer y clefyd newydd yn haf 2013, gan ymweld â thros 1000 o safleoedd amheus a chyhoeddi 270 Hysbysiad Iechyd Planhigyn Statudol (SPHN) newydd.

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013 o'r Strategaeth Rheoli Clefyd *Phytophthora ramorum*, cyflawnwyd ymarfer sylweddol i adlewyrchu'r sefyllfa newydd ac rydym wrthi nawr yn taclo ymylon allan yr haint i geisio arafu ei ledaeniad.

Mae dros 2100 hectar o larwydd heintiedig wedi'u torri i lawr ers 2010. Yn 2013/14, mae 289 hectar eisoes wedi'i

glirio ac rydym wrthi'n cwblhau cliriad o 391 hectar pellach ar WGWE.

Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i ailblannu ardaloedd mawr o goetir a dorrwyd oherwydd y clefyd. Mae'r rhain yn cynnwys Bwlch Nant yr Arian ger Aberystwyth, Dyffryn Afan ger Castell-nedd, a Choed Gwent yn Nyffryn Gwy. Dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi plannu mwy na 750,000 o goed i ailstocio ardaloedd wedi'u torri yr effeithiwyd arnynt gan y clefyd. Mae hyn wrth ochr y 2.9 miliwn o goed a ailblannwyd mewn coetiroedd eraill i adfywio'r coedwigoedd ar ôl eu torri ar gyfer cynhyrchu pren.

Defnyddiwyd tri deg saith rhywogaeth wahanol o goed fel rhan o'r strategaeth ailblannu, gan gynnwys coed derw, ceirios a leim brodorol yn ogystal â phren mwy addas i'w farchnata megis Ffynidwydd, Sbrîws Serbia a Chedrwydd Cochion. Y nod yw creu coetir sy'n gallu gwrthsefyll clefydau'n well a gwneud coedwig fwy deniadol i bobl ymweld â hi a darparu cynefin ar gyfer mwy o rywogaethau bywyd gwylt.

Ariannwyd y gwaith hwn yn rhannol gan £2.5 miliwn ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.



Rydym wedi plannu **750,000** o goed i ailstocio ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y clefyd

**2.9**

**miliwn  
O GOED**

**a ailblannwyd i  
adfywio coedwigoedd**



# // Gwybodaeth a Thystiolaeth - Ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Thystiolaeth

Cydnabyddwn fod gwybodaeth yn sail i gyflwyno ein holl amcanion strategol yn llwyddiannus. Mae gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn rhannu ein gwybodaeth yn hanfodol ar gyfer gwella cyflwyniad ein canlyniadau a gwasanaethau, ac mae'n helpu cefnogi credadwyedd ac atebolrwydd ein penderfyniadau a chamau gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar ddatblygu strategaeth rheoli gwybodaeth ac ymwybyddiaeth newydd a throsglwyddo asedau gwybodaeth yn llwyddiannus o'r cyrff blaenorol i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn diffinio ein hymagwedd ac yn amlinellu ein hamcanion a blaenoriaethau rheoli gwybodaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. Fe'i dylunnir i alluogi cyflwyno'r buddion a chyfleoedd a adnabuwyd yn


yr achos busnes ar gyfer creu ein mudiad a chynyddu ein potensial i ecsbloetio asedau sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r heriau sylweddol y mae'n rhaid i ni eu goresgyn yn cynnwys yr angen am gynnal gwasanaethau wrth i ni drosglwyddo asedau gwybodaeth o'n cyrff blaenorol, a'r angen am gydbwysu galw a disgwyliadau cynyddol ar gyfer gwasanaethau rheoli gwybodaeth ar adeg o gyfyngiad ar adnoddau a newidiadau digynsail mewn polisïau, deddfwriaeth a

technoleg allanol. Mae cydweithio, creadigrwydd a hyblygrwydd yn hanfodol ar gyfer helpu ni i gwrdd â'r heriau hyn.

Trwy'r strategaeth hon anelwn at greu sylfaen gadarn y gallwn adeiladu ein dyfodol arni. Trwy waith partneriaeth helaeth, anelwn at sicrhau ein bod yn defnyddio'r egwyddor 'casglu unwaith, defnyddio llawer o weithiau'.

**A good example of Knowledge Information Management in practice is the review of storm damage that, drew on existing information, involved collaboration across the organisation and pulled together information of impacts across the whole newly combined Natural Resources Wales remit to gather new facts and information to create a new collaborative product. The report was prepared for the Minister 31 January 2014**



# // Bioamrywiaeth - Ein gwaith parhaus i ymdrin â thuaddiadau Cyflwr Natur hir dymor

Mae llawer o'n gwaith o ddydd i ddydd yn canolbwyntio ar ymdrin â'r materion a adnabuwyd yn yr Adroddiad Cyflwr Natur. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys

- Cynnal a gwella'r gyfres safleoedd gwarchoddedig, darparu cyngor i'r llywodraeth ac eraill, cyfrannu at ddatblygu polisi a deddfwriaeth, gan gynnwys Cytundebau Rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Adran 15, Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, Cyfres Rhywogaethau o Bwys Pennaf yng Nghymru Adran 42 Deddf NERC 2006 etc.
- Adnabod a dynodi ardaloedd gwarchoddedig e.e. rydym wrthi'n ymgynghori ar estyniad i'r Ardaloedd Gwarchoddedig Arbennig.
- Ymdrin â symbylyddion newid yn yr amgylchedd ehangach (e.e. darparu cyngor ar gynlluniau amaethyddol-amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd, pysgodfeydd, rhywogaethau ymwithiol anffrodorol (INNS) a darparu mewnbyn i ymatebion i ymgynghoriadau statudol a rhoi cyngor ar ddatblygiadau morol gan gynnwys prosiectau isadeiledd o bwys cenedlaethol (NSIP).
- Rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar waith e.e. cyngor ar asesiadau amgylcheddol, trwyddedu rhywogaethau, caniatadau etc.
- Gweithio mewn partneriaeth e.e. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) a'r prosiectau Llwybrau Morol INNS.
- Cyflawni a gwella monitro, gwyliadwriaeth ac adrodd am newidiadau amgylcheddo e.e. Rhaglen monitro'r Ardal



Gadwraeth Arbennig (SAC) rynglanw ac islanw.

- Ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym hefyd yn cyflwyno nifer o brosiectau, er enghraifft y prosiect 'Adfer Mawnogydd Eryri a Hiraethog' mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Eryri, RSPB Cymru, Dŵr Cymru Welsh Water a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r prosiectau yn anelu at adfer rheolaeth ffafriol i dros 450ha (cyfwerth â 600 o feysydd pêl-droed) o wlypdiroedd erbyn 2015. Dyfarnwyd arian i'r cynllun gan Gronfa Ecosystemau Gwydn (REF) Llywodraeth Cymru ac ni sy'n gweinyddu'r cyflwyniad. Mae elfennau allweddol o'r prosiect yn cynnwys rhwystro 70km o ddraeniau a gloddiwyd i mewn i'r mawnogydd a chlirio mieri o leoliadau corslyd o fewn neu ar ymylon ffiniau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys Mynydd y Berwyn, Rhosydd Dinbych, y Migneint a Chors Arthog ger Dolgellau.

Mae rheoli'r ucheldiroedd mewn ffordd wahanol yn golygu y gallant helpu llyfnu patrymau dŵr ffo trwy ryddhau dŵr yn arafach i ffrydiau ac afonydd sy'n ei dderbyn. Bydd hyn yn gwella ansawdd y dŵr ar gyfer ein cyflenwadau yfed, pysgod a bywyd gwyllt arall hefyd. Bydd rhwystro draeniau hefyd yn helpu cadw'r storfa garbon yn y mawn ac o bosib gall hyd yn oed alluogi ffurfio mawn newydd hefyd.

Eleni, cwblhawyd y prosiect LIFE Ynys Môn a Llŷn - un o brosiectau mwyaf Ewrop i adfer ffeniau. Y nod oedd adfer neu wella 751 hectar o gynefinoedd ffen prin iawn, sy'n dibynnu ar gydbwysedd dŵr bregus a ffynhonnau calchfaen sy'n llifo i'r mawn. Mae creu partneriaethau cryf gyda chymunedau lleol wedi bod wrth wraidd y prosiect - ynghyd ag ymrwymiad i ddatblygu cyfleoedd i fusnesau lleol a'r economi leol ffynnu.

## // Mynediad a Hamdden - Parc Beicio Coed-y-Brenin

Eleni gwelwyd cwblhad prosiectau pedair blynedd a fydd yn estyn ymhellach y cyfleoedd a ddarperir ar gyfer ymwelwyr ac economi'r ardal leol o gwmpas Parc Coedwig Coed-y-Brenin. Mae wedi cael ei gydnabod fel lleoliad o safon fyd-eang ar gyfer beicio mynydd ers blynnyddoedd lawer. Crëwyd y llwybrau beicio mynydd wedi'u teilwra cyntaf ym 1992 ac ers hynny mae wedi mynd yn gynyddol boblogaidd fel cyrchfan ymwelwyr. Mae hyn yn hanfodol i ni gan i ni ddeall y rôl y mae adnoddau naturiol a'r amgylchedd yn ei chwarae mewn iechyd ac ansawdd bywyd - rydym yn gweld potensial am gyfrannu at broblemau sylweddol megis tloedi plant, cyfle cyfartal a gordewdra.

Yn ogystal â llwybr canolradd newydd ac ardal sgiliau newydd, estynnwyd y ganolfan ymwelwyr yn sylweddol, gan ehangu'r apêl ar gyfer beicwyr mynydd a beicwyr eraill. Rydym wedi rhagori ar ein targed o 50,000 o ymwelwyr ychwanegol.

Wrth ochr ein gwaith i uwchraddio a gwella'n cyfleusterau ein hunain, rydym

wedi cefnogi datblygiad preifat arloesol a chyffrous yn Bike Park Wales hefyd. Wedi'i leoli yng Nghoedwig Gethin, mae ar garreg ddrws Merthyr Tudful. Mae Bike Park Wales wedi cyrraedd un o'i dargedau blwyddyn gyntaf allweddol mewn 9 mis yn unig, gyda thros 35,000 o ymwelwyr yn beicio ar ei llwybrau ers agor ym mis Awst 2013. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n

rheoli'r ystâd goetir, wedi gweithio'n helaeth gyda Bike Park Wales i ddarparu 'ardal a brydlesir' er mwyn iddo ddatblygu'r llwybrau beicio mynydd penodedig y mae'n eu darparu i'r cyhoedd. Gan gydweithio'n agos â Bike Park Wales rydym wedi cynnal coedwig weithio gynhyrchiol, ochr yn ochr â chyfleuster hamdden a reolir yn breifat.



# // Ffocws Cwsmeriaid - Canolfan Gofal Cwsmeriaid


Amcan sylweddol ar ein cyfer ni yw sefydlu diwylliant gofal cwsmeriaid cryf trwy gydol ein mudiad. Llwyddiant cynnar oedd ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid newydd a lansiwyd ar 1 Ebrill 2013. Mae'r Ganolfan yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog a dyna'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y cyhoedd. Mae'r Ganolfan wedi trin popeth o ymholiadau cyffredin syml i ystod eang o faterion mwy cymhleth o fusnesau sy'n ceisio cyngor i gefnogi cwsmeriaid gyda chofrestriadau.

Rydym wedi ateb dros 48,000 o alwadau, bron 12,000 o e-byst, prosesu 1700 o geisiadau trwydded a 7000 o gofrestriadau papur. Triniwyd 97% o alwadau o fewn y lefel gwasanaeth gytunedig yn erbyn targed o 80% ac mae'r amser ymateb i alwadau wedi cyrraedd 97% yn erbyn targed o 90%. Mae datblygiadau i'r broses trin trwyddedau

wedi'n galluogi ni i gwrdd â'n hymrwymiad cwblhau mewn 3 diwrnod i'r Ganolfan Cefnogi Trwyddedu.

Er i ni wneud llawer o gynnydd yn ein blwyddyn gyntaf, cydnabyddwn y gallwn wneud mwy ac rydym yn ymrwymedig i greu'r profiad gorau posib ar gyfer ein cwsmeriaid.


Cwblhawyd dau ymarfer Siopwr Dirgel, gan gyflawni 98% ar gyfer ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd a 90% ar gyfer arddull y gwasanaeth i gwsmeriaid.



48,000 o alwadau  
bron i 12,000 o ebyst

PROSESU  
1700  
o geisiadau  
trwydded

7000  
o gofrestriadau papur



## // Adeiladu Gallu a Chapasiti Mewnol – Labordy Llanelli a Phrentisiaethau

Roedd angen gwasanaeth cost-ffeithiol ar Gyfoeth Naturiol Cymru i ddadansoddi samplau amgylcheddol fel rhan o'i ymrwymiadau i raglenni monitro. Er enghraifft, i gefnogi adrodd am Gyfarwyddbau'r UE a'r safonau dyfroedd ymdrochi'r Faner Las a all ymwneud â thua 29,000 o samplau y flwyddyn a phrofion ar gyfer bron hanner miliwn o benderfynynnau.

Rydym wedi trawsnewid ein labordy yn Llanelli'n llwyddiannus i wasanaeth dadansoddi mewnol cost-ffeithiol a redir gan dîm sydd wedi cwblhau'r rhaglen achrediad fwyaf uchelgeisiol yr ymgeisiwyd amdani erioed gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS). Mae'r holl ddulliau a aseswyd gan UKAS wedi'u hachredu ac mae ansawdd y canlyniadau wedi bod yn rhagorol (fel y nodwyd gan gynlluniau sicrhau ansawdd allanol).


Dros y deng mlynedd nesaf bydd ein labordy'n arbed £1m mewn costau gweithredu, gyda buddion pellach yn debygol wrth i ni ddatblygu gwasanaeth

masnachol. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu gwasanaeth masnachol a fydd yn helpu ymhellach wrth osod yn erbyn ein costau.

Lansiwyd cynllun prentisiaethau newydd ym mis Medi ar gyfer myfyrwyr sydd am ddatblygu gyrfa mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Mae'r cynllun 'Cyfoeth' yn darparu dwy flynedd o brofiad gwaith â thâl gyda gweithwyr TGCh proffesiynol yn swyddfa'r mudiad ym Mangor ar gyfer myfyrwyr coleg a chweched dosbarth. Yn ystod y brentisiaeth, a ddatblygwyd ar y cyd gyda Microsoft, bydd pobl ifanc yn

gallu gweithio tuag at gymhwyster a gydnabyddir gan y diwydiant.

Hefyd, rydym ar fin ehangu ein cyfleoedd i israddedigion dreulio peth o'u hamser gyda ni, ynghyd â chyfleoedd tymor byr ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau gradd mewn pwnc sy'n gysylltiedig â gwyddorau amgylcheddol. Rydym ar fin cynnig ystod o gyfleoedd newydd i fyfyrwyr ôl-raddedig mewn pynciau gwyddor amgylcheddol i weithio gyda ni ar feysydd arbenigol sy'n gysylltiedig yn agos â'n gwaith amgylcheddol craidd. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynrychioli ystod eang o gyfleoedd newydd.





## // Cefnogi Swyddi a Busnes

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad ar fuddion Llwybr Arfordirol Cymru ar gyfer busnesau. Mae Effaith Economaidd Gwariant Ymwelwyr â Llwybr Arfordirol Cymru ar Gymru, a gyhoeddwyd gan Uned Ymchwil Economaidd Cymru'n dangos sut mae'r llwybr wedi denu tua 2.89m o ymweliadau rhwng mis Hydref 2011 a mis Medi 2012. Roedd gwariant mewn perthynas â'r teithiau tua £33.2m ac mae tua 730 o flynyddoedd-person o gyflogaeth wedi'u creu.

Rydym wedi bod yn defnyddio nifer o brosesau blaenorol i greu llais unigol wrth ddarparu ein cyngor cynllunio datblygu statudol. Mae dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni i ddatblygu'r gwasanaeth iawn ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnwys ymagwedd fwy strategol a chadarnhaol at y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r system gynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth y mae ei angen ar ein cwsmeriaid. Rydym wedi cytuno y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf trwy fewnbwn clir a pharod i ddatblygiadau arfaethedig gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddarparu tystiolaeth a chyngor ar gynlluniau strategol a gofodol a gweithio gyda'n partneriaid trwy fentrau megis y fenter Ynys Ynni.

Mae Ynys Ynni'n rhaglen o brosiectau cynhyrchu

ynni carbon isel ar Ynys Môn. Gallai'r buddsoddiad amcangyfrifedig o £20 biliwn mewn niwclear, gwynt, môr a haul gynhyrchu hyd at 10% o ofynion ynni'r DU. Ein ffocws ar gyfer y blynyddoedd nesaf fydd darparu cyngor ac arweiniad cyn-ymgeisio cyson i ddatblygwyr i sicrhau bod ceisiadau cynllunio ac am drwyddedau sydd ar y gweill yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd lleol.

Ni wnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau cynllunio ar amser. Ein hamcan oedd 90% a gwnaethom gyflawni 75%. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad i flaenoriaethu ein newid sefydliadol a datblygu ymagweddau newydd wrth ochr ein hangen am gyflwyno cyngor statudol gyda llais sengl. Mae'r ffigurau wedi

cadarnhau unwaith eto ein penderfyniad i roi'r newidiadau a adnabuwyd ar waith yn y flwyddyn i ddod.

Rydym yn fudiad masnachu, yn gweithredu nifer o fusnesau masnachol sy'n cynhyrchu tua £16.5m y flwyddyn. Mae'r flwyddyn ariannol hon wedi bod yn arbennig o newidiol o ran marchnata pren, mae'r canlyniad diwedd blwyddyn ar gyfer pren crwm a gynigir i'r farchnad yn 890km<sup>3</sup>, sy'n cynrychioli +3% o'r cyfanswm cyllideb ac ymhell o fewn yr amrediad derbynol. Er i ni gynnig 890k m<sup>3</sup> i'r farchnad, nid yw'r cyfaint i gyd wedi gwerthu yn ystod y flwyddyn; bydd tua 60km<sup>3</sup> o risgl safadwy'n cael ei ail-becynnu a'i ailgynnig yn ystod 2014/15.

Mae ein strategaeth fenter wedi cael ei datblygu ac yn cynnwys rhaglen o astudiaethau dichonoldeb i adnabod cyfleoedd masnachol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

---

### Llwybr Arfordir Cymru

Rhwng Hydref 2011 - Medi 2012

**2.89m** ymweliad

Gwariant ymwelwyr  
**£33.2m**

gwerth **730** mlynedd  
o waith wedi ei greu

---



# // Gweithio gyda chymunedau - yr amgylchedd Trefol

Rydym wedi datblygu targedau ar gyfer cymunedau trefol o fewn ein Cynllun Corfforaethol newydd sy'n adeiladu ar waith y cyrff blaenorol.

Cyhoeddwyd y prosiect amgylcheddol iTree (arolwg coed trefol), sy'n rhoi gwerth ariannol i fuddion coed trwy edrych ar faint y carbon a llygryddion eraill yn yr awyr sy'n cael eu cipio a'u storio gan goed trefol, yn ogystal u cyfraniad at leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd. Dylid ei fabwysiadu gan Strategaeth Coed Wrecsam yn ystod 2014/15.

Mae cynlluniau peilot plannu coed wedi symud ymlaen yng Nghoed Aber, Treezilla yn Aberystwyth a Choed Talbot ym Mhort Talbot.




Ffurfiwyd rhwydweithiau Come Outside!, yn gweithio gyda chymunedau difreintiedig, yn Nwyrain Casnewydd, Gorllewin Caerdydd, Wrecsam, Y Barri,

Gwynedd, Caerffili, Merthyr Tudful ac Abertawe. Rydym wedi diffinio elfennau gwahanol ein cyflwyniad a gweithdrefnau sefydledig er mwyn i aelodau

rhwydwaith lleol wneud ceisiadau i'n cronfeydd Ymgysylltu Cymunedol ac Adeiladu Gallu.

Rydym wedi gwella amddiffynfeydd llifogydd i 1205 eiddo yn erbyn targed o 500 ac wedi cwblhau'r cynlluniau llifogydd a ganlyn yn ystod 2013/14:



Mae **58.2%** o eiddo mewn perygl wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Uniongyrchol ein Llinell Rhybuddion Llifogydd; **ein targed oedd 58%.**

**Gwella amddiffynfeydd llifogydd i eiddo**

ein targed

**500**  
eiddo

y canlyniad

**1205**

o eiddo gyda gwell amddiffynfeydd llifogydd

# // Cefnogi Datblygiad Polisiâu a Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru



Yn ein blwyddyn gyntaf, rydym wedi ymateb i fwy nag 20 o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a hefyd wedi cefnogi datblygiad rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Mesur Cynllunio, Mesur yr Amgylchedd, Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol (Datblygu Cynaliadwy yn flaenorol), y Mesur Treftadaeth a'r Mesur Teithio Gweithredol.

Cyflawnwyd hyn trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y camau datblygu trwy Grwpiau Budd-ddeiliaid, Cyfeirio ac Ymgynghorol ac yn ein hymatebion i'r camau ymgynghori ffurfiol. Er enghraifft, rydym wedi ymwneud yn weithredol â'r Grŵp Ymgynghorol ar gyfer y Mesur Cenedlaethau'r

Dyfodol, gan gynnwys is-grwpiau, yr oedd un ohonynt wedi darparu Nodyn Cyngor i'r Gweinidog ar Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac un ar gyfyngiadau Amgylcheddol.

Mewn perthynas â Mesur yr Amgylchedd, gwnaethom ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn gyda mewnbwn

sylweddol gan ystod eang o staff ar draws y mudiad, a chan Aelodau Bwrdd. Rydym yn parhau i ymwneud yn weithredol â'r grŵp cyfeirio a chyfrannu i weithdai a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ar elfennau penodol o'r Mesur.



# // Adeiladu ein Strategaeth a Chynlluniau ar gyfer y dyfodol - Datblygu ein cysylltiadau a chyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol cyntaf

Fel corff newydd, mae wedi bod yn hanfodol i ddatblygu ein cysylltiadau â budd-ddeiliaid i sicrhau bod ein partneriaid a'r rhai a wasanaethwn yn glir o ran ein blaenoriaethau a'n rôl. Mae ein Bwrdd a llawer o'n staff wedi cwrdd ag ystod eang o bartneriaid yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae adborth yn awgrymu bod angen i ni wella datblygiad ein cyfathrebu corfforaethol i bwysleisio'r achos dros gael ein sefydlu ymhellach.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf, rydym wedi datblygu a chyhoeddi Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyfnod 2014-17. Mae'n esbonio sut bydd ein mudiad yn newid dros amser a beth fydd ein blaenoriaethau, yn ogystal ag amlygu rhai meysydd gwaith y gallai fod angen i ni eu lleihau.

Rydym wedi datblygu Fframwaith Perfformiad yn seiliedig ar bum Rhaglen 'Dda', a fydd yn rhan bwysig o sut rydym yn monitro ac yn rheoli ein perfformiad.

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi bod yn awyddus i gynnwys budd-ddeiliaid allanol a'n staff, ac ymgynghori eu barn wrth i ni ystyried y Cynllun Corfforaethol a dogfennau crynodeb terfynol:

## **Digwyddiadau a**

**chyfarfodydd:** Rhedwyd deg digwyddiad ar gyfer ein budd-ddeiliaid allanol ar draws Cymru dros yr haf,

gan ofyn i gyfranogwyr sut y gallem gydweithio'n well â nhw cymerodd dros 100 o fudiadau gwahanol ran. Cyflwynodd 31 o fudiadau sylwadau ysgrifenedig hefyd. Helpodd gwybodaeth o'r rhain i ni ddatblygu cynigion ar gyfer ein hymgyngoriad cyhoeddus.

**Cyfranogiad staff:** Cyfarfuom â staff mewn 20 o'r swyddfeydd yn ystod yr hydref, gyda 400 o bobl yn rhoi eu barn i ni. Ystyriwyd y rhain wrth baratoi'r ddogfen ymgynghori gyhoeddus ac ar gyfer y cynllun corfforaethol terfynol.

**Ymgynghoriad cyhoeddus:** rhedodd ein hymgyngoriad cyhoeddus rhwng 4 Tachwedd 2013 a 10 Ionawr 2014. Bu'r ymgynghoriad yn cynnwys set o gynigion gyda 21 o gwestiynau. Derbyniwyd 92 o atebion gan ystod eang o fudd-ddeiliaid a ddadansoddwyd wedyn ac a ddefnyddiwyd i gyfeirio ein Cynllun Corfforaethol.

## **Cynllun Corfforaethol:**

Defnyddiwyd yr holl wybodaeth roeddem wedi'i chasglu i helpu cynhyrchu ein Cynllun Corfforaethol terfynol. Yn ogystal â'r ddogfen lawn, rydym wedi cynhyrchu crynodeb byr sy'n addas ar gyfer cynulleidfa eang hefyd, ynghyd â fersiwn 'darllen hawdd' i sicrhau y galla cynifer o bobl â phosib ddysgu am ein cynlluniau. Datblygwyd a chyhoeddwyd ein strategaeth Ymgysylltu Budd-ddeiliad Strategol yn gynnar yn y flwyddyn. Ein ffocws yw gweithio gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid a chefnogir hyn gan gyhoeddi bwletin rheolaidd, 'Cyfoeth', i fudd-ddeiliaid.

# // Edrych tuag at y Dyfodol

Mae ein Cynllun Corfforaethol cyntaf yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio dros y tair blynedd nesaf i sicrhau bod Cymru'n wlad ble mae ein hawyr, tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Byddwn yn cyflawni hyn gan ddefnyddio **Gwybodaeth Dda**, er mwyn i'r hyn a wnawn fod yn **Dda i'r Amgylchedd, Da i Bobl, Da i Fusnes** ac i ni fod yn **Fudiad Da**.

Mae'r pump 'Da' hwn yn sail i'r pum Rhaglen y byddwn yn eu defnyddio i roi trefn ar ein gwaith. Maent wedi'u hintegreiddio'n agos â'r gwaith a wnawn mewn un rhaglen 'Dda', gan ddarparu buddion lluosog wrth i ni wneud ein gwaith yn y lleill. Maen nhw'n gyd-ddibynnol ac yn drawstoriadol, yn ogystal â bod yn bwys o ran datblygu cynllunio adnoddau naturiol mewn ffordd integredig. Gellir dod o hyd i Gynllun Corfforaethol 2014-2017 ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ystod 2014-15 bwriadwn adeiladu ymhellach ar :

## Gallu fel corff ar ei ben ei hun:

- Isadeiledd TGCh Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i sefydlu ym mhob swyddfa a depo
- Sefydlu ein set lawn ein hunain o becynnau TGCh gweithredol
- Cwblhau symud data
- Cwblhau'r System Gwybodaeth Ddaearyddol
- Rhoi'r System Cyllid ac Adnoddau Dynol ar waith
- Symud telemetreg i'r rhwydwaith Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cwblhau datblygiad y wefan
- Ymadael â'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau rheoleiddio sy'n weddill a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd

## Un Corff:

- IRhoi Pecyn Cyfanswm wobrwon ar Waith
- Cwblhau Ailstrwythuro

## Sefydliadol

- Cwblhau gwaredu llety dros ben, cam 1 y strategaeth
- Rhoi System Iechyd a Diogelwch newydd ar waith
- Cynnydd ar gyflwyno'r brand
- Adolygu a Rhesymoli Cerbydau
- Strategaeth gaffael a threfniadau fframwaith a chontract newydd.

## Ymagweddau Newydd:

- Byrddau Draenio Mewnol wedi'u hymgorffori
- Ymagwedd newydd at drwyddedau Ynni Dŵr
- Ymgorffori'r Ymagwedd Ecosystemau
- Paratoi ar gyfer y ddyletswydd arfaethedig newydd ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Naturiol.

## Gwireddu buddion a rheoli rhaglenni:

- Cwblhau'r cynllun i ymadael â holl wasanaethau pontio Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr
- Cynllunio buddion ac olrhain a chydnabod cyflawniad
- Rheoli Newidiadau Busnes a chynnal cyfathrebu da.

## Adrodd Integredig

Yn ystod 2014-15 byddwn yn dechrau cwmpasu'r hyn y mae ei angen i gyflwyno Adrodd Integredig, gyda'r nod o gyflwyno Adroddiadau Integredig yn y dyfodol. Rydym wedi cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei dyheadau ar gyfer Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys rhoi cyngor yn

uniongyrchol trwy'r Grŵp Ymgynghorol yn ogystal â chyfranogiad gweithredol mewn nifer o weithgoreu a ddylunnir i helpu datblygu cynigion rhoi ar waith y Mesur.

Fel mudiad newydd mae gennym gyfle unigryw i sicrhau bod cymaint â phosib o'n llywodraethu, strategaethau ac adrodd wedi'i alinio'n gyfan gwbl i ofynion y Mesur, gan sefydlu datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor weithredu. Ein nod yw cynhyrchu Adroddiadau Blyneddol Integredig sy'n cyfathrebu i'n budd-ddeiliaid mewn ffordd drefnus a chydlynol sut rydym wedi cyflwyno, neu sut y byddwn yn cyflwyno, gwerth yn y tymor byr, canolig a hir trwy ein strategaethau, llywodraethu, perfformiad a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Bwrdd Draenio Mewnol

Mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol wedi gofyn am ymagwedd fwy integredig at reoli adnoddau naturiol mewn Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru, dileu dyblygu trefniadau sefydliadol a gwella llywodraethu. Gofynnodd fod swyddogion yn symud ymlaen â gwaith i gwblhau'r trosglwyddiad erbyn 1 Ebrill 2015.

Rydym yn gweithio i drosglwyddo staff a swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwynllŵg, Gwy Isaf a Phowysland i Gyfoeth Naturiol Cymru o 1 Ebrill 2015.

# // Sylwadaeth Rheoli


## Crynodeb o Wybodaeth Berfformiad

Dyma oedd blwyddyn heriol i ni - gwnaethom ddechrau ar y flwyddyn ariannol gyda diffyg ariannu o £3.5m. Yn y flwyddyn gwnaethom wynebu pwysau ar faterion megis ymateb i ledaeniad y clefyd coed *Phytophthora ramorum* a sefydlu ein hisadeiledd TGCH a gweithredol annibynnol ein hunain. Trwy arbedion, mesurau effeithlonrwydd a gostyngiadau cyllideb eraill a Chymorth Grant ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, bu'n bosib i ni reoli ein cyllideb o fewn y cyfanswm arian a oedd ar gael.

## Ariannu

Ein cyfanswm incwm ar gyfer y cyfnod adrodd oedd £69m. Yn ogystal â hynny, darparodd Llywodraeth Cymru £139m mewn Cymorth Grant tuag at ystod o ganlyniadau. Dyrannwyd £36m i Reoli'r Risg o Llifogydd Arfordirol a £103m i Reoli'r Risg Arfordirol nad yw'n ymwneud â Llifogydd. Yn y Cyfrifon, trinnir Cymorth Grant fel cyfraniad gan awdurdod rheoli ac nid fel ffynhonnell incwm. Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad ein cyfanswm ariannu:

### Ariannu 2013/14




Mae gennym nifer o ffynonellau ariannu rydym yn cadw ar wahân wrth gynllunio a gwario ein hadnoddau. Rhennir y brif ffynhonnell Cymorth Grant rhwng Rheoli Risgiau Llifogydd ac Arfordirol a Rheoli Risgiau Arfordirol a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â Llifogydd - ar gyfer refeniw a chyfalaf. Mae gennym nifer o Gynlluniau Taliadau (gweler Nodyn 6 y Datganiadau Ariannol) sy'n seiliedig ar yr egwyddor o 'adennill costau'. Yn ogystal â hynny rydym yn cymhwyso ac yn derbyn arian ychwanegol gan nifer o ffynonellau (megis ariannu Ewropeaidd) sy'n cael ei wario ar brosiectau penodol.

## Sut rydym wedi gwario ein harian?


Ein cyfanswm gwariant cynhwysfawr oedd £199m. Gellir dod o hyd i ddadansoddiadau manwl fesul categori gwariant yn Nodiadau 5 a 6 y Cyfrifon ac maent wedi'u dangos yn y tabl isod hefyd:

### Gwariant yn ôl math



\* Gwaith cyfalaf fel treuliau yn y flwyddyn

### Gwariant yn ôl segment



Mae Nodyn 2 y Datganiadau Ariannol yn rhoi manylion ble y gwariwyd yr arian.

## Datblygiadau'r Dyfodol

Mae ariannu yn 2014/15 yn argoeli i fod yr un mor heriol oherwydd y buddsoddiad y mae ei angen i greu ein hisadeiledd TGCh ein hunain ac ymadael â'r gwasanaethau a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Rydym wrthi'n cyflawni rhaglen waith arwyddocaol i sefydlu ein gallu i sefyll ar ein pennau ein hunain fel mudiad. Mae hynny'n cynnwys trawsnewid ac ailstrwythuro ein mudiad yn ogystal â buddsoddi mewn Isadeiledd TGCh. Byddwn yn gwireddu buddion y buddsoddiadau hyn yn y blynyddoedd i ddod wrth i ni leihau ein dibyniaeth ar fudiadau blaenorol ar gyfer gwasanaethau a dderbynnir.

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014 i 2017, lle rydym wedi dosbarthu ein hadnoddau mewn pum Rhaglen. Bydd y rhain yn ffurfio sail i'n prosesau blaenoriaethu adnoddau yn y dyfodol.

Yn 2014/15 byddwn yn symud o'n (tair) system ariannol bresennol i un.

## Asedau Anghyfredol

Roedd gwerth ein hasedau anghyfredol yn £724m. Y gydran fwyaf sylweddol yw gwerth yr ystâd goedwigoedd a'r asedau biolegol sy'n cyfrif am £595m ac 82% o'r gwerth ar 31 Mawrth 2014. Mae'n ofynnol i ni gyflawni ailbrisiad annibynnol o dir ac adeiladau rhydd-ddaliad a'r ystâd goedwigoedd bob pum mlynedd a bydd hynny'n cael ei gyflawni nesaf yn 2015/16. Yn y blynyddoedd yn y canol, mae ein hasedau anghyfredol (ac eithrio) cerbydau wedi'u hailbrizio trwy'r mynegeion priodol.

## Prisio'r ystâd goedwigoedd

Rhwng 2008/09 a 2012/13 roedd prisiad yr ystâd goedwigoedd o fewn cyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Rhwng 2008/09 a 2011/12 cynyddodd prisiad yr ystâd goedwigoedd, yn seiliedig ar fynegeion a ddarparwyd gan Bidwells, mewn gwerth o £380m i £620m (cyfanswm yr ystâd goedwigoedd ac asedau biolegol). Yn bennaf roedd hyn o ganlyniad i gryfhau marchnadoedd pren a chynnydd yn atyniad cymharol coetiroedd i fuddsoddwyr o ystyried perfformiad andwyol buddsoddiadau ariannol a buddsoddiadau eraill. Roedd y cynnydd yn benodol o ddifrifol ar gyfer Cymru, oherwydd natur Ystâd Goedwigoedd Llywodraeth Cymru.

Yn 2012/13 cyfarwyddwyd Smiths Gore gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i gyflawni ailbrisiad o'r ystâd goedwigoedd a'r asedau biolegol bob pum mlynedd. Nododd yr adolygiad hwn fod y mynegeion cronus ar gyfer 2008/9 i 2011/12 wedi cynhyrchu prisiad rhy uchel o'i gymharu â marchnadoedd eraill, o ystyried newidiadau yng nghyfansoddiad yr ystâd o ran proffil oedran y planhigfeydd. O ganlyniad i hyn, gostyngodd gwerth yr ystâd goedwigoedd a'r asedau biolegol o £620m i £520m.

Yn 2013/14, cyfarwyddwyd Smiths Gore gan CNC i ailbrizio'r ystâd goedwigoedd a'r asedau biolegol ar sail mynegeion ac o ganlyniad i hynny cododd y gwerth o £520m i £595m. Mae Smiths Gore wedi cadarnhau eu bod yn ystyried hyn yn rhesymol oherwydd oedran cymharol ifanc coetiroedd CNC o'i gymharu â choetiroedd cyffelyb eraill a brynwyd a werthwyd yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Taliadau Masnachol a Thaliadau eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i dalu 95% o gredydwyr o fewn 30 niwrnod ac rydym ni'n anelu at gwrdd â'r targed hwn pryd bynnag y bo'n bosib. Yn ystod 2013/14 bodlonodd 98% o'n taliadau i gyflenwyr y meini prawf hynny. Mae hyn yn helpu i liniaru llif arian busnesau yn yr hinsawdd economaidd heriol gyfredol.

## Busnes Gweithredol

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2014 yn dangos ecwiti trethdalwyr positif o £650m. Bydd cyllidebu ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael ei fodloni ar ffurf Cymorth Grant Llywodraeth Cymru a chymhwysio incwm y dyfodol. Rydym eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer ariannu yn 2014/15 ac mae gennym arwydd yn barod o'r ariannu y byddwn yn ei dderbyn yn 2015-16. Gan hynny, mae'n briodol mabwysiadu ymagwedd busnes gweithredol at baratoi'r Cyfrifon Blynyddol.

## Rheoli Ystadau

Rydym yn rheoli ystâd goedwigoedd gyhoeddus Cymru ar ran gweinidogion Cymru yn unol â Strategaeth Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Gan hynny, nid oes gennym ein "strategaeth rheoli coetiroedd" ar wahân ar gyfer y coedwigoedd eto ond mae gennym Gynlluniau Coedwigoedd ar gyfer yr holl goedwigoedd, sy'n amlinellu sut y caiff pob coedwig ei rheoli i gyflwyno amcanion strategol dros y 25 mlynedd nesaf.



Rydym wrthi'n datblygu Cynlluniau Adnoddau Naturiol ar hyn o bryd a fydd, i bob pwrpas, yn darparu cyfres o gynlluniau/strategaethau lleol i arwain rheolaeth yr ystâd a'r asedau ar draws Cymru.

Mae'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yr ydym yn berchen arnyn nhw neu'n eu lesio, yn cael eu rheoli'n unol â chynllun rheoli cymeradwy, sy'n cynnwys amcanion cadwraeth o'r holl nodweddion o ddi-ddordeb cydnabyddedig ac yn adnabod prosiectau a rhaglenni gwaith angenrheidiol. Mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac yng ngweithrediad angenrheidiol y gwaith a adnabyddir mewn cynlluniau sy'n cael eu gwirio gan ein Tîm Rheoli Cadwraeth, trwy raglen dreigl o adolygiadau/archwiliadau amgylcheddol.

## Archwilwyr

Archwilir cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2013/14 oedd £159k a chodwyd £23k pellach ar gyfer gwaith ardystio grantiau. Ni chodwyd taliadau ar gyfer unrhyw wasanaethau eraill yn 2013/14

## Ein Staff

Rydym yn cydnabod ein staff fel ein hadnodd mwyaf gwerthfawr ac mae ein Strategaeth Pobl yn disgrifio sut rydym yn bwriadu gwella'n gallu a'n perfformiad, gweithio'n fwy hyblyg a datblygu ein mudiad yn unol â'n hanghenion busnes.

## Rheoli Pobl

Gwnaethom ddechrau'r flwyddyn gyda Throsglwyddiad o Ymgymeriadau (TUPE) llwyddiannus mewn perthynas â staff y cyrff blaenorol a sefydlu'r timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth. Yn chwarter cyntaf y flwyddyn buddsoddwyd cryn dipyn o amser gyda'r Undebau Llafur yn cytuno ar Gytundeb Partneriaeth Gymdeithasol newydd. Mae hyn yn adeiladu ar egwyddorion y Cyngor Partneriaeth Gweithlu ac wedi cipio ysbryd ac egwyddorion gwaith Partneriaeth. Rydym yn cydnabod pum undeb llafur: Unison, Public & Commercial Services, Prospect, Unite a GMB.

Roedd yr amser hwn yn fuddsoddiad gwerthfawr gyda'r gwaith sydd wedi digwydd ers hynny.

Mae'r Gwaith Partneriaeth wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol yn ystod datblygiad y Pecyn Cyfanswm Gwobrwyon. Dyma ddarn sylweddol o waith sy'n cwmpasu meysydd megis graddfeydd cyflog newydd, lwfansau, gwerthuso swyddi, gwyliau blynyddol, absenoldeb salwch, gwyliau arbennig, yr wythnos waith a lles, tra'n adnabod mesurau diogelu TUPE ar gyfer y staff sydd wedi trosglwyddo i mewn.

Rydym wedi cyhoeddi polisiau newydd ar gyfer llenwi swyddi, dillad corfforaethol, cronfa adnoddau hyblyg, rheoli newid, trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Yn chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf rydym am roi gweithdrefn disgyblu ac achwynion newydd ar waith ynghyd â chôd ymddygiad wedi'i gysoni.

Ym mis Hydref cytunodd aelodau'r Undebau Llafur ar gyflogau newydd dros 2 flynedd sydd, yn fras, yn 1.6% am y flwyddyn gyntaf ac 0.5% ar gyfer yr ail flwyddyn. Roeddem yn gallu sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r isafswm cyflog byw ar gyfer yr holl aelodau staff hefyd.

Anelwn at sicrhau lles, iechyd a diogelwch (WHS) ein cyflogeion pan fyddant yn y gwaith a, mor bell â phosib, darparu'r cymorth y mae ei angen arnynt i ddelio â phwysau y tu allan i'r gwaith. Mae ein polisi WHS yn darparu datganiad o sut y byddwn yn rheoli hyn a'n hymrwymadau. Mae'n rhoi manylion rolau a chyfrifoldebau rheolwyr a chyflogeion.

Dangosodd ein cyfraddau absenoldeb salwch ar 31 Mawrth gyfartaledd o 5.45 diwrnod wedi'u colli fesul cyflogai, sy'n cyfateb i 2.3%. Roedd hyn yn erbyn targed cyfartalog o 7 niwrnod wedi'u colli, sy'n cyfateb i 3.1% o'r diwrnodau gwaith sydd ar gael.

## Cynllun Ymadael yn Gynnar Gwirfoddol

Fel corff newydd, ac er mwyn gwireddu ein hamcanion busnes, gwnaethom gydnabod od angen i ni ostwng ein costau o ran cyflogeion. Gwnaethom gais llwyddiannus am ariannu 'Buddsoddi i Arbed' Llywodraeth Cymru, y gwnaethom ei ddefnyddio i ddylunio a lansio Cynllun Ymadael yn Wirfoddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer staff ar draws y mudiad newydd. Derbyniwyd y cynllun yn dda gan i lawer o staff weld y cyfle i ymgeisio am ymadael yn wirfoddol fel cyfle i adael ac ymgymryd â heriau a diddordebau eraill - at ei gilydd gadawodd 126 o staff, gyda'r mwyafrif yn gadael cyn neu ar ddiwedd mis Rhagfyr 2013.

Ein prif amcan oedd gostwng nifer y staff mewn swyddogaethau corfforaethol o ganlyniad i ddyblygu anochel yn y meysydd hyn o ganlyniad i'r cyfuniad rhwng y tri mudiad blaenorol. Rydym yn credu y gadwyd i'r staff iawn adael, tra yr oedd modd i ni gadw sgiliau allweddol a rolau a oedd yn hanfodol ar gyfer y busnes y mae eu hangen er mwyn i ni symud ymlaen.

Roedd cyfanswm cost yr ymadawiadau'n £5.1m, sef £3.75m gan y Gronfa ac £1.35m mewn Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Yr arbedion a gynhyrchir gan y cynllun yw £0.9m erbyn diwedd y flwyddyn a £4.3m y flwyddyn ar ôl hynny.

Bwriadwn wneud gostyngiadau pellach mewn costau staff yn ystod 2014-15, gyda'r nod o ryddhau tua 100 o staff. Rydym wrthi'n adolygu dyluniad y cynllun cyn ei roi ar waith yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Datblygu Sgiliau a Galluoedd ein Gweithlu

Rydym yn fudiad sydd â lefel uchel o gymwysterau proffesiynol gyda thros hanner y staff yn meddu ar radd gyntaf neu'n uwch. Mae traean o'r staff hyn yn aelodau o gymdeithasau proffesiynol hefyd. Fel arbenigwyr arweiniol ym maes yr amgylchedd, mae'r lefel hon o arbenigedd yn bwysig ac yn angenrheidiol.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymroddedig i ddatblygiad parhaus ein staff ac yn gweld buddsoddi mewn dysgu fel strategaeth allweddol ar gyfer llwyddiant y mudiad. Mae datblygiad sgiliau wedi bod yn rhan annatod o'n Cynllun Gweithlu, lle rydym yn rhoi trefniadau ar waith ar hyn o bryd i gyflwyno gweithlu o'r maint iawn gyda'r sgiliau iawn, er mwyn cwrdd â'r heriau a fydd yn wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol.

Cam gweithredu cynnar oedd cyflawni archwiliad sgiliau llawn o'n holl staff i ddeall y sgiliau y maent yn meddu arnynt ar gyfer eu rolau cyfredol ac, ar sail hynny, adnabod meysydd sydd â bylchau mewn sgiliau allweddol y mae angen eu datblygu yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos i adnabod y setiau sgiliau allweddol y mae eu hangen arnom fel sefydliad ar gyfer y dyfodol - mae'r rhain yn cynnwys y sgiliau y mae eu hangen i gyflwyno'r newidiadau busnes yr ydym wedi'u hadnabod yn syth, ynghyd â'r sgiliau tymor hwy y mae eu hangen wrth i lawer o'n swyddi esblygu i ffwrdd o swyddi blaenorol i gael eu halinio â'n gofynion ar gyfer y dyfodol. Canlyniad net hyn i gyd oedd datblygu Rhaglen Ddysgu, a roddwyd ar waith yn weithredol yn ystod y flwyddyn.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cydnabyddwn bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth i'n llwyddiant fel mudiad, o ran cael y gorau allan o'n staff ac o ran cynnal perthynas gref a chadarnhaol gyda'n cwsmeriaid a chymunedau ar draws Cymru.

Cam gweithredu cynnar allweddol yw cyflawni arolwg llawn o'n staff i ddeall mwy amdanynt i gyd, o ran oedran, rhyw a nodweddion gwarchoddedig etc. Helpodd hyn i gyfeirio ein Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2013/14.

Rydym wrthi'n rhoi offeryn Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar waith a gaiff ei ddefnyddio wrth i ni ddatblygu ein holl bolisiau, prosiectau, cynlluniau a rhaglenni newydd sy'n effeithio ar brofiadau pobl o Gyfoeth Naturiol Cymru fel darparwr gwasanaethau ac/neu fel cyflogwr.

## Iaith Gymraeg

Anelwn at fod yn fudiad cwbl ddwyieithog, lle gall cwsmeriaid a staff gynnal busnes yn yr iaith o'u dewis. I gyflawni hyn, un ffocws cynnar allweddol oedd rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith.

Mae nifer o drefniadau ymarferol wedi'u rhoi ar waith hefyd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Pencampwyr Iaith Gymraeg sydd â chynrychiolaeth ym mhob rhan o'r busnes ac a sefydlwyd i:

- Oruchwylio a monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg ym mhob Cyfarwyddiaeth.
- Gweithredu fel cydlynnydd rhwng staff swyddogaethau/maes a'r Grŵp Pencampwyr
- Helpu wrth fonitro gweithrediad y Cynllun
- Gwirio bod staff newydd yn ymwybodol o'r cynllun iaith ac o rôl y Grŵp Pencampwyr.
- Helpu wrth annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn Cyfarwyddiaethau

## Adrodd Amgylcheddol Corfforaethol

Diben ein mudiad yw sicrhau bod adnoddau Naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Dros y tair blynedd nesaf, rydym am osod enghraifft yng Nghymru mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys ein rheolaeth a defnydd o garbon, gwastraff, dŵr a thir (fel yr amlinellwyd yn ein cynlluniau Corfforaethol a Busnes). Mae adrodd corfforaethol, ar effaith amgylcheddol ein mudiad ni, wedi'i gynnwys yn Atodiad 1: Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

## Mae ein huchafbwyntiau yn ein blwyddyn gyntaf yn cynnwys y canlynol:

- Enillwyd ardystiad ISO14001 yn dilyn archwiliadau a gwiriadau allanol annibynnol - Mae meddu ar EMS cydnabyddedig yn caniatáu i ni ddangos ein hymrwymiad ein hunain i gyflawni'r safonau amgylcheddol uchaf posib fel mudiad
- Sefydlwyd gwaelodlin ar gyfer adrodd am garbon yn y dyfodol eleni = gan bennu targed i leihau ein hól troed carbon mewn perthynas â'r defnydd o ynni yn ein hadeiladau a theithio 5% yn y flwyddyn nesaf.
- Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio tuag at wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol trwy weithio tuag at adrodd Integredig.

# Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth

## Polisi Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ystyried materion mewn perthynas â thâl ac amodau cyflogaeth y staff mwyaf uwch a'r strategaeth tâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cynnwys 5 Aelod Bwrdd anweithredol. Mae'r cadeirydd yn aelod ex officio o'r Pwyllgor.

Pennir tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau Bwrdd gan Lywodraeth Cymru. Mae tâl cydnabyddiaeth gweithwyr uwch (aelodau'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar amodau a thelerau CNC. Nid yw tâl cydnabyddiaeth y staff mwyaf uwch yn destun bargeinio ar y cyd a phennwyd y pecyn tâl cydnabyddiaeth trwy gyfeirio at set o rolau meincnod mewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac mewn mudiadau cyffelyb yn y DU. Symleiddiwyd y pecyn o'i gymharu â'r cyrff blaenorol heb unrhyw fuddion ychwanegol, a chynnydd ar y raddfa trwy gyfeirio at berfformiad boddhaol yn unol â'r meincnod (cyfradd ar gyfer y swydd), ac ar sail perfformiad eithriadol ar gyfer y ddau bwynt uchaf.

Ar hyn o bryd mae gan CNC bedair set wahanol o amodau a thelerau, y mae tair ohonynt wedi'u trosglwyddo o'r cyrff blaenorol. Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith, a phennir amodau a thelerau'r holl staff eraill trwy gytundeb ar y cyd gyda'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo unrhyw newidiadau i dâl, amodau a thelerau ac yn rhoi cylch gwaith tâl i CNC y mae'n rhaid iddo gyflwyno oddi mewn iddo. Cyddrafodwyd pecyn tâl i gynnwys y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 1 Gorffennaf 2015 yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2013.

Yn y flwyddyn gyntaf hon o CNC cafwyd ffocws ar ddatblygu pecyn cyfanswm gwobrwyon sy'n bodloni'r gofynion busnes ac yn sefydlu CNC fel y cyflogwr o ddewis.

## Cytundebau Gwasanaeth

Gwneir yr holl benodiadau i'r Bwrdd ar ran y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol a Bwyd. Gwneir penodiadau ar gyfer naill ai ddwy neu dair blynedd fel arfer.

Cyflogir y Prif Weithredwr ac Aelodau'r Tîm Gweithredol o dan gontractau parhaol fel arfer. Gwneir penodiadau yn unol â pholisi recriwtio sy'n mynnu penodi ar sail teilyngdod fel arfer, ar sail cystadleuaeth agored, ond mae hefyd yn cynnwys amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau mewn ffordd arall. Yn ei flwyddyn gyntaf roedd gan CNC un aelod o'r Tîm Gweithredol ar secondiad gan Lywodraeth Cymru.

Oni nodir fel arall isod, mae Aelodau'r Tîm Gweithredol sydd wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau penagored. Mae'n ofynnol i'r swyddogion hyn roi tri mis o rybudd.

## Cyflog a Hawliau Pensiwn

Mae'r adrannau a ganlyn yn darparu manylion buddiannau tâl cydnabyddiaeth a phensiwn aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan Aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Byddai terfyniadau cynnar, heblaw ar gyfer camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn derbyn digollediad fel y amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ar gyfer Aelodau'r Tîm Gweithredol yn unig.

## Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd

Aelod Bwrdd	Contract Cyflogaeth	Cyflog 1 1/8/12 i 31/3/13 (Amrediad £5000)	Cyflog 1/4/13 i 31/3/14 (Amrediad £5000)	Buddiannau mewn Da £
Dr Michael Brooker	01/11/12 i 31-10-14	5-10	20-25	0
Y Parch. Hywel Davies	01/11/12 i 31-10-15	5-10	20-25	0
Dr Madeleine Havard	01/11/12 i 31-10-15	5-10	20-25	0
Dr Ruth Hall	01/11/12 i 31-10-14	5-10	20-25	0
Mr Harry Legge-Bourke	01/11/12 i 31-10-14	5-10	20-25	0
Mr Andy Middleton	01/11/12 i 31-10-14	5-10	20-25	0
Yr Athro Peter Matthews	01/08/12 i 30-08-15	30-35	50-55	0
Mr Nigel Reader	01/11/12 i 31-10-15	5-10	25-303	0
Mr Morgan Parry <sup>2</sup>	01/11/12 i 31-10-14	5-10	15-20	0
Yr Athro Lynda Warren	01/11/12 i 31-10-14	5-10	20-25	0
Syr Paul Williams	01/11/12 i 31-10-15	5-10	25-304	0

1 Penodwyd Peter Matthews o 1 Awst 2012. Roedd yr holl Aelodau Bwrdd eraill yn eu swyddi o 1 Tachwedd 2012.

2 Yn drist bu farw Morgan Parry ar 4 Ionawr 2014.

3 Nigel Reader yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

4 Paul Williams yw Cadeirydd y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, a'r Grŵp Ymgynghorol ar Bontio.

## Tâl Cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol

### Cyfanswm gur tâl cydnabyddiaeth sengl

Aelod Tîm Gweithredol	Cyflog <sup>1</sup> 1/11/12 i 31/3/13 (Amrediad £5000) £000	Cyflog 1/4/13 i 31/3/14 (Amrediad £5000) £000	Taliadau ar sail Perfformiad <sup>4</sup> (Amrediad £5000) £000	Buddiannau mewn da <sup>5</sup> (£1000 agosaf) £	Pension Benefits <sup>6</sup> (£1000 agosaf) £	Cyfanswm 2013/14 £000
Dr Emyr Roberts <sup>1</sup> (Prf Weithredwr)	60-65	140-145	0	0	41,000	185-190
Martin Britton <sup>2</sup>	0	105-110	0	0	0	105-110
Ceri Davies	0	90-95	5-10	1,700	67,000	170-175
Elizabeth Davis <sup>3</sup>	0	105-110	0	0	80,000	185-190
Graham Hillier	0	90-95	5-10	3,300	43,000	145-150
Kevin Ingram	0	85-90	0	2,400	54,000	140-145
Tim Jones	0	85-90 <sup>7</sup>	0	2,300	194,000	285-285
Trefor Owen	0	90-95	0	0	139,000	230-235
Niall Reynolds	0	75-80 <sup>8</sup>	5-10	0	9,000	95-100
Clive Thomas	0	70-75	0	3,600	72,000	145-150
Band y Cyfarwyddwr â'r cyfanswm tâl mwyaf 140-145						
Tâl Cydnabyddiaeth (£000)						
Tâl cydnabyddiaeth canolrif yr holl staff (£) 27,370						
Cymhareb Tâl Cydnabyddiaeth 5.3						

1 Penodwyd Emyr Roberts o 1 Tachwedd 2012. Roedd holl aelodau eraill y tîm gweithredol yn eu swyddi o 1 Ebrill 2013.

2 Mae Martin Britton yn cyflawni rôl Prif Swyddog Gwybodaeth ar y Tîm Gweithredol o dan gontract gyda'i asiantaeth gyflogaeth tan 31 Rhagfyr 2014. Mae'r weithred hon wedi'i chymeradwyo a'i chefnogi gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, yn seiliedig ar yr amgylchiadau eithriadol sy'n ymwneud â phontio mewn perthynas â TGCh a datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ffigur a adroddwyd ar gyfer i gyflog uchod y cynrychioli costau'r asiantaeth (ac eithrio treuliau) o 1 Gorffennaf 2013.

3 Roedd Elizabeth Davis yn gweithio fel rhan o raglen Cymru Fyw Llywodraeth Cymru yn cefnogi Emyr Roberts ar ôl ei benodiad fel Prif Weithredwr o 1 Tachwedd 2012 ac ar secondiad ffurfiol o LIC rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Gorffennaf 2014.

4 Dyfarnwyd taliadau ar sail perfformiad cytundebol yn ystod y flwyddyn i 3 aelod o staff corff blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â'u perfformiad yn 2012/13.

5 Yn ymwneud â darparu car a ddyrannwyd.

6 Cyfrifir gwerth y buddiannau pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd go iawn mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd go iawn mewn unrhyw gyfandaliad) llai (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Mae'r cynnydd go iawn yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

7 Yn cynnwys £1k a aberthwyd mewn perthynas â thocynnau gofal plant a chynllun beicio i'r gwaith

8 Yn cynnwys £1k a aberthwyd mewn perthynas â chynllun beicio i'r gwaith.

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys symiau pensiynadwy a'r rhai nad ydynt yn bensiynadwy ac yn cynnwys cyflog crynswth, goramser ac unrhyw lwfansau a thaliadau sy'n destun treth y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n gyfystyr ag ad-daliad o dreuliau a gafwyd yn uniongyrchol wrth i unigolyn berfformio ei ddyletswyddau.

## Tâl ar Sail Perfformiad

Nid oes cynllun tâl ar sail perfformiad mewn lle ar gyfer y Tîm Gweithredol.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol y buddiannau mewn da'n cynnwys unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr ac yn cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

Nid oes unrhyw un o'r Aelodau Bwrdd neu staff uwch wedi derbyn unrhyw dâl cydnabyddiaeth ar wahân i'r hyn a ddangosir uchod.

## Lluosrifau Tâl

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr â'r tâl uchaf yn eu mudiad a thâl cydnabyddiaeth canolrif gweithlu'r mudiad.

Roedd tâl cydnabyddiaeth fesul band y Cyfarwyddwr â'r tâl uchaf yn y flwyddyn ariannol 2013/14 rhwng £140,000 a £145,000.

Roedd hyn 5.3 gwaith tâl cydnabyddiaeth canolrif y gweithlu, sef£27,370.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunedig, buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiwnau.

## Buddiannau Pensiwn

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Pensiwn Cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/14	Cyfundaliad Cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/14	Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfundaliad Cronedig ar oedran pensiwn	CETV ar 31/03/14	CETV ar 31/03/13	Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	55-60	170-175	0-2.5	5-7.5	1140	1037	34
Ceri Davies	30-35	60-65	2.5-5	2.5-5	497	415	47
Elizabeth Davis	35-40	110-115	2.5-5	10-12.5	805	677	75
Graham Hillier	45-50	15-20	2.5-5	0-2.5	667	600	26
Kevin Ingram	20-25	35-40	2.5-5	2.5-5	259	213	26
Tim Jones	30-35	90-95	7.5-10	25-27.5	557	378	148
Trefor Owen	40-45	0	5-7.5	0	591	460	98
Niall Reynolds	25-30	65-70	0-2.5	(0-2.5)	512	477	2
Clive Thomas	15-20	55-60	2.5-5	7.5-10	296	233	45

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r buddion a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn CNC. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau pensiwn galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



Dr Emyr Roberts  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2014

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Paragraff 23 (1) yr Atodlen i'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu Datganiad o Gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) ac yn benodol:

- glynu wrth Gyfarwyddiadau'r Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn FReM wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, Gareth Jones ar ran Llywodraeth Cymru, wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru fel y Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yw priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano; cadw cofnodion priodol; gweinyddiaeth ochelgar a darbodus; osgoi gwastraff ac afradlonrwydd; a defnyddio'r holl adnoddau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol fel yr amlinellir yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru.



Dr Emyr Roberts,  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2014



# Datganiad Llywodraethu

## Cwmpas y cyfrifoldeb a Chyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yr wyf yn gyfrifol yn bersonol am y datganiad llywodraethu. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad ein polisiau, nodau ac amcanion, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol, a rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion a hwyluso gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol; mae hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae cwmpas llawn fy nghyfrifoldebau wedi'i ddisgrifio yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r model llywodraethu y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu oddi tano wedi'i amlinellu mewn Dogfen Fframwaith. Mae'r Ddogfen Fframwaith wedi'i lunio gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n pennu'r fframwaith bras yr ydym yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn rhoi manylion amodau a thelerau'r Cymorth Grant a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Ddogfen Fframwaith wedi bodoli ers y diwrnod breinio ar 1 Ebrill 2013, ac mae wedi'i chefnogi gan y Bwrdd a Llawlyfr yr Aelodau Bwrdd, Cynlluniau Dirprwyo Ariannol ac Anariannol, arweiniad a ddarparwyd o fewn Rheoli Arian Cyhoeddus ac arweiniad arall a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dyma fy natganiad cyntaf ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n fudiad newydd a ffurfiwyd o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau a gyflwynwyd yn flaenorol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Yn ogystal â hyn gwnaethom ymgymryd â rhai swyddogaethau a gyflwynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r flwyddyn adrodd hon wedi bod yn un heriol, gan gydnabod y newidiadau mawr a'r gwaith a wnaed ar gyfer y diwrnod breinio a'r Rhaglen Newid sy'n mynd yn ei blaen er mwyn gwireddu'r buddion a amlinellwyd yn yr Achos Busnes dros ein creu. Y prif ffocws ar fy nghyfer i a fy Nghîm Gweithredol oedd gosod sylfeini ein mudiad. Roedd yn bwysig i ni roi set o'n polisiau, prosesau ac amodau ein hunain mewn lle ac i ddatblygu diwylliant "un mudiad". Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi gwneud cynnydd ar waith i sefydlu ein gwasanaethau a systemau ein hunain er mwyn i ni weithio fel mudiad sy'n sefyll ar ein traed ein hunain. Dyma ddarn sylweddol o waith, ond gwnaed cynnydd mawr ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen o hyd

## Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd ar gyfer cyfarwyddo a rheoli'r mudiad wrth gyflwyno ei weithgareddau. Mae'r system rheolaeth fewnol wrth wraidd y fframwaith llywodraethu ac fe'i dylunnir i reoli risg at lefel resymol yn hytrach na chael gwared yn gyfan gwbl ar yr holl risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion y mudiad. Gall rheolaeth fewnol ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd, nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddylunnir i:

- Adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisiau, nodau ac amcanion;
- Gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu; a
- Rheoli nhw'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bodoli ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac mae'n gweddu i'r arweiniad.



## Y Bwrdd

Rôl a chyfrifoldeb y Bwrdd yw:

- Darparu cyfarwyddyd ac arweinyddiaeth strategol, gan symbylu perfformiad a dal y Corff yn atebol yn erbyn ei gynlluniau strategol a chorfforaethol
- Sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yng ngweithrediad y corff a glynu wrth y 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan)
- Sicrhau bod y Corff yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol a rheoleiddio, yng ngoleuni'r cyfryw arweiniad a chyfarwyddyd y gall Gweinidogion eu rhoi iddo.
- Bod yn eiriolwr dros y mudiad a'i nodau ac amcanion. Bod yn fodel rôl ar gyfer staff a buddiolwyr.
- Gweithio ar y cyd i adeiladu perthnasoedd gyda'r holl fudd-ddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, busnesau, cymunedau a phobl leol, staff a'u cynrychiolwyr.
- Dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol trwy'r amser, gan gynnwys defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARAC) i helpu'r bwrdd i ymdrin â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill.

## Llywodraethiad y Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi'i arwain gan y Cadeirydd, Yr Athro Peter Matthews, sy'n atebol i'r Gweinidog. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn aelod Gweithredol o'r Bwrdd. Mae gweddill y Bwrdd wedi'i gyfansoddi o naw aelod anweithredol. Cynhaliwyd penodiad y Cadeirydd a naw aelod anweithredol gan Lywodraeth Cymru ac mewn cydymffurfriad â'r Côt Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogaethol mewn Cyrff Cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Côt Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Roedd ei ffocws ar sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, pontio'n llwyddiannus ac yn llyfn o'i ragflaenwyr, cyfeiriad strategol, monitro perfformiad a llywodraethu. Mae'r Bwrdd wedi cwrdd yn gyhoeddus chwe gwaith yn ystod y flwyddyn mewn lleoliadau gwahanol ar draws Cymru gan i ni greu ei fod yn hanfodol i'n llywodraethu fod yn dryloyw, yn agored ac yn hygyrch i bawb. Cefnogwn y nod hwn ymhellach trwy gyhoeddi ystod eang o wybodaeth am eich gwaith yn rhagweithiol, gan gynnwys y papurau y mae ein Bwrdd yn eu hystyried cyn y cyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.

Mae'r eitemau safonol ar yr agenda ar gyfer y Bwrdd yn cynnwys diweddariadau gan y Cadeirydd, Prif Weithredwr, Pwyllgorau, Grwpiau'r Bwrdd, cyllid a chyflwyno perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes.

Cyfarfu'r Bwrdd yn gyntaf ym mis Tachwedd 2012 a bu'n ymwneud yn weithredol ar y cyd gyda'r Rhaglen Cymru Fyw a'r tri chorff blaenorol er mwyn sicrhau bod sylfeini cadarn mewn lle ar gyfer y diwrnod breinio gyda'r holl drefniadau llywodraethu a pholisi allweddol wedi'u cytuno. Roedd y rhain yn cynnwys Cynllun Busnes 2013-14, y Cynllun Iaith Gymraeg, Polisi Gorfodi ac Erlyn,

Datganiad Polisi Lles, Iechyd a Diogelwch, Cynlluniau Dirprwyo Ariannol ac Anariannol.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2014-17, Polisiâu Cynllunio ac Ynni Dŵr, ein hymagwedd at reoli pysgodfeydd, trefniadau partneriaethau ariannu newydd, Fframwaith Menter, ein Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Strategaeth Pobl a'n Safonau Gofal Cwsmeriaid. Mae'r cofnodion, ynghyd â'r agendâu a phapurau i gyd ar gaelar ein gwefan . Ar gyfer cofnod presenoldeb Aelodau'r Bwrdd, gweler Atodiad 3.

Mae'r Bwrdd yn derbyn briffiau rheolaidd ac wedi mynd ar nifer o ymweliadau safle. Cynhelir yr holl gyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus a chyhoeddir dyddiadau ar gyfer y deuddeg mis nesaf ar ein gwefan.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri Is-bwyllgor ac wedi adolygu a chytuno i gylch gorchwyl ar gyfer pob un. Mae'r tri phwyllgor wedi'u cadeirio gan Aelod Bwrdd ac yn cynnwys o leiaf dau Aelod Bwrdd arall. Maen nhw fel a ganlyn:

### **Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg (ARAC)**

Mae ARAC yn bwyllgor sefydlog y Bwrdd. Ei brif rôl yw cynghori'r Bwrdd a chefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu. Yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu mae wedi perfformio rôl hollbwysig wrth fonitro, craffu a herio'r trefniadau sy'n bodoli ar gyfer llywodraethu, mesurau rheoli mewnol, rheoli archwilio a risg.

Ymdriniodd y pwyllgor ag amrediad o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14
- Rheoli Risg, gan gynnwys diweddariad ar ddatblygu Dilyniant Busnes a Chynlluniau ar gyfer Trychinebau
- Cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol a mewnol

Nigel Reader yw Cadeirydd ARAC ac mae Dr Ruth Hall ac Andy Middleton yn aelodau; fel Swyddog Cyfrifyddu, mynychaf bob cyfarfod.

### **Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (REMCOM)**

Mae REMCOM yn bwyllgor sefydlog y Bwrdd. Mae'n ystyried materion mewn perthynas â thâl ac amodau cyflogaeth ein staff mwyaf uwch a strategaeth tâl gyffredinol yr holl staff a gyflogir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel y Grŵp Ymgynghorol ar Bontio (TAG) i fonitro ac adolygu'r holl faterion pontio, gan gynnwys gwireddu buddion yn yr achos busnes.

Ymdriniodd y pwyllgor ag amrediad o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Diweddariadau i'r Rhaglen Newid
- Creu swydd y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu
- Portffolio newydd ar gyfer y Cyfarwyddwr Llywodraethu
- Datblygiadau mewn perthynas â'n Strategaeth Pobl

Syr Paul Williams yw Cadeirydd REMCOM a TAG, ac mae Nigel Reader, y Parch. Hywel Davies, y Dr Mike Brooker a'r Dr Ruth Hall yn aelodau.

### **Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig**

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gwrthwynebiadau i hysbysu a dadhysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig. Bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r Weithrediaeth a'r Bwrdd llawn hefyd trwy ddarparu cyngor ar faterion ardal warchoddedig ehangach a gwaith achos strategol.

Cadarnhaodd y pwyllgor ddynodi safle'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Andy Middleton yw'r cadeirydd, ac mae'r Athro Lynda Warren, y Dr Mike Brooker a Harry Legge-Bourke yn aelodau.

### **Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd ac Arfordirol**

Mae gan y Bwrdd fewnbwn a rôl o fewn Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd ac Arfordirol Cymru. Er nad yw'n bwyllgor sefydlog y prif Fwrdd, mae'r Pwyllgor hwn yn cyflawni nifer o swyddogaethau rheoli risg llifogydd statudol Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol ag Adran 106 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Penodir y Cadeirydd yn annibynnol gan Weinidogion Cymru a delir y swydd hon ar hyn o bryd gan Mr Deep Sagar. Penodir aelodau'r Pwyllgor naill ai gan Weinidogion Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Dr Madeleine Havard yn aelod o'r Pwyllgor hwn.

### **Grwpiau'r Bwrdd**

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo sefydlu Grwpiau'r Bwrdd, sef is-grwpiau anffurfiol y Bwrdd sy'n canolbwyntio ar feysydd technegol penodol. Y grwpiau yw:

- Yr Amgylchedd
- Cymunedau
- Yr Economi a Menter
- Gwybodaeth

Mae Grwpiau'r Bwrdd yn darparu cyfle i Aelodau Bwrdd gyfrannu at ddatblygu gwaith ar gam cynnar. Hefyd, maent yn galluogi'r Weithrediaeth i hysbysu Aelodau Bwrdd am ddatblygiadau mewn meysydd penodol o'r busnes.

Rydym hefyd wedi sefydlu nifer o Grwpiau o aelodau Bwrdd i gynghori'r Weithrediaeth ar nifer o feysydd gwaith ar sail 'tasg a gorffen'.

Yn olaf, mae gan nifer o'n Haelodau Bwrdd rôl 'Eiriolwr' o fewn y Bwrdd.

### **Perfformiad y Bwrdd**

Cynhaliodd y Bwrdd ei asesiad blynyddol cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn hon trwy holiadur hunanasesu. Seilir yr holiadur hwn yn fras ar Holiadur Gwerthuso Bwrdd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol - Datgloi Potensial eich Bwrdd ac mae wedi'i gynhyrchu gydag arweiniad gan Adrannau Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraeth Ganolog Trysorlys EM: Côd Arfer Da.

Bydd sesiwn wedi'i hwyluso'n cael ei chynnal ym mis Medi i adolygu'r canlyniadau, a bydd eu canlyniad yn cyfeirio cynllun gwella sy'n gweddu i'n gwerthoedd fel mudiad sy'n dysgu. Defnyddir y canlyniadau i feincnodi ein hunain yn erbyn gwerthusiadau yn y dyfodol hefyd.

Mae'r Cadeirydd wedi cynnal arfarniadau perfformiad diwedd blwyddyn ar gyfer pob Aelod Bwrdd hefyd, y byddant yn cael eu defnyddio i gyfeirio cynlluniau datblygiadau unigol a phenderfyniadau'r Bwrdd yn y dyfodol.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARAC) adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd hefyd trwy gwblhau holiadur yn seiliedig ar restr wirio a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, y mae'r meini prawf ar ei gyfer yn deillio'n bennaf o Lawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Ffurfiodd y crynodeb o ganlyniadau sail i weithdy a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2014. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod yr ARAC yn effeithiol, gyda'r mwyafrif o drefniadau a phrosesau allweddol mewn lle. Fodd bynnag, cydnabuwyd a chytunwyd y byddai mân welliannau pellach i drefniadau'n cynyddu effeithiolrwydd yn gyffredinol ac mae'r rhain ar y ffordd i gael eu rhoi ar waith.

## Llywodraethu Gweithredol

Cyflwynir rheolaeth o ddydd i ddydd trwy'r Tîm Gweithredol. Mae'r Tîm Gweithredol wedi'i gadeirio gennyf i fel Prif Weithredwr ac yn cynnwys wyth o Gyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr. Rydym yn ymgynnull yn ffurfio ar gylch tair wythnos, ac yn cynnal y mathau canlynol o gyfarfodydd:

- Cyfarfod Busnes Gweithredol - Yn ymdrin â materion cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, adolygu'r gofrestr risgiau corfforaethol a sicrhau y rhoddir camau gweithredu lliniarol digonol ar waith i reoli'r risg at lefel dderbyniol.
- Cyfarfod Strategaeth a Pholisi Gweithredol - Pennu strategaeth ar gyfer y mudiad ac argymhell safbwyntiau polisi newydd i'r Bwrdd
- Cyfarfod Rhaglen Newid Gweithredol - trafod a derbyn diweddariadau ar faterion sy'n dod i'r amlwg a llwyddiannau mewn perthynas â'r Rhaglen Newid, er mwyn adeiladu sylfeini ein mudiad yn llwyddiannus.

Mae pob Cyfarwyddiaeth yn gweithio i'w Chynllun Cyflwyno'r Gyfarwyddiaeth ei hun, sy'n gysylltiedig â thargedau a chanlyniadau corfforaethol o fewn y Cynllun Busnes. Adolygir y rhain yn fisol ac maent yn bwydo i mewn i'r Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol, sy'n cael ei adrodd i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru tair gwaith y flwyddyn.

## Rheoli Risg

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y polisi a phroses rheoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar arweiniad Trysorlys EM ar gyfer rheoli risg, yr amcan allweddol yw sicrhau bod gennym ymagwedd gyson at adnabod, mesur, rheoli, monitro ac adrodd am risgiau.

Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu gwerthuso a'u rheoli ar nifer o lefelau gwahanol.

- Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y polisi a phroses rheoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar arweiniad Trysorlys EM ar gyfer rheoli risg, yr amcan allweddol yw sicrhau bod gennym ymagwedd gyson at adnabod, mesur, rheoli, monitro ac adrodd am risgiau.
- Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu gwerthuso a'u rheoli ar nifer o lefelau gwahanol.
- Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyfarwyddwr yn gyfrifol am reoli risgiau eu Cyfarwyddiaeth, a allai effeithio'n andwyol ar gyflawni eu targedau a chanlyniadau fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Cyflwyno'r Gyfarwyddiaeth. Maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau fel y bo'n briodol.
- Mae Cofrestrî Risgiau'n bodoli ar gyfer prosiectau a rhaglenni mawr ac maent yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd prosiect a rhaglen rheolaidd.

AFel rhan o'r broses rheoli risg sy'n bodoli, y risgiau allweddol a adnabuwyd ac a reolwyd yn ystod y flwyddyn oedd cyflawni a gwireddu buddion yr Achos Busnes dros greu CNC, risgiau pontio mewn perthynas â'r Rhaglen Newid o ystyried cwmpas a graddfa'r gwaith gofynnol, ymateb i ledaeniad y clefyd coed *Phytophthora ramorum*, sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus swyddogaeth y Bwrdd Draenio Mewnol a rheoli ymgysylltu â budd-ddeiliaid a'u disgwyliadau.

Yn ogystal â throsolwg achlysurol o'r gofrestr risgiau corfforaethol, ac adroddiadau rheolaidd ar risg gan ARAC, mae'r Bwrdd yn cyd-drafod agweddau risg yr eitemau strategol a busnes ar agenda ei gyfarfod.

Mae pennu'r awydd am risg yn faes i'r Bwrdd ei ddatblygu yn 2014-15, yn ogystal â datblygu'r strategaeth rheoli risg ymhellach a chynyddu ymwybyddiaeth o reoli risgiau a'i hymgorffori.

## Sicrwydd Gwybodaeth

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda. Cydnabyddwn fod yna waith pellach i'w wneud i sicrhau ein bod wedi mabwysiadu'r cydbwysedd cywir rhwng tryloywder a naws agored a diogelwch gwybodaeth angenrheidiol ar adegau. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi penodi aelod o'r Tîm Gweithredol fel ein Huwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth ac wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar adnabod ein holl asedau gwybodaeth a sicrhau ein bod wedi adnabod Ceidwad data ar gyfer y cyfnod dros dro.

Mae gennym gynigion mewn lle i symud y gwaith hwn ymhellach ymlaen yn ystod 2014-15 fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, maent yn cynnwys:

- Adnabod Perchennog Ased Gwybodaeth.
- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant priodol.
- Ffurfioli cyfrifoldebau a phrosesau trwy gydol y maes gwaith hwn.

Yn ystod y flwyddyn ni adroddwyd am unrhyw achosion o golli data.

## Effeithiolrwydd Rheolaeth Fewnol

As Accounting Officer I have responsibility for reviewing the effectiveness of internal control. TFel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad hwn wedi'i gyfeirio gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, y Cyfarwyddwyr a'r Tîm Arweinyddiaeth, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Fe'i cefnogir gan waith Archwilio Mewnol, sylwadau a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu Llythyr Rheoli, adolygiadau allanol eraill megis yr Adolygiad Porth o'r Rhaglen Newid.

Cymeraf sicrwydd hefyd gan y craffu a'r oruchwyliaeth a weithredir gan ARAC, sy'n adrodd i'r Bwrdd ar fater o drefn, y mae eu barn ar sicrwydd wedi'i hamlinellu yn Adroddiad Blynyddol ARAC.

Bu'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol, a gefnogir gan gymeradwyo Tystysgrif o Sicrwydd. Bu'n ofynnol iddynt wneud asesiad seiliedig ar dystiolaeth o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli sy'n bodoli, gan amlygu meysydd y mae angen eu cryfhau a ble mae angen i ni sicrhau bod cynlluniau gwella'n cael eu cychwyn os nad ydynt eisoes ar waith.

Yn gyffredinol roedd y canlyniadau'n gadarnhaol, gan ddarparu sicrwydd ar fesurau rheoli sy'n gweithio'n effeithiol yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y mwyafrif o feysydd trwy gydol y flwyddyn. Y themâu allweddol oedd y gydnabyddiaeth ein bod yn y broses bontio o hyd i raddau helaeth ac yn ddibynnol ar bolisiâu a phrosesau blaenorol, ond rwyf wedi fy sicrhau bod cynnydd da'n cael ei wneud tuag at gysondeb trwy'r Rhaglen Newid. Fel rhan o sefydlu ein sylfeini, rydym wedi datblygu polisiâu ar gyfer trin cwynion, rheoli gwrthdaro buddiannau, datgelu camarfer a safonau gofal cwsmeriaid.

Yn ogystal â hyn rydym wedi cymeradwyo dylunio a chyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth llywodraethu corfforaethol a llywodraethu da fandadol ar gyfer 2014-15 a fydd yn ymdrin â'r meysydd canlynol: Probity in public life and code of conduct

- Cywirdeb mewn bywyd cyhoeddus a chôd ymddygiad
- Rheoli Gwrthdaro Buddiannau
- Rhoddion a Lletygarwch
- Proses Trin Cwynion
- Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Adrodd am Dwyll ac Ymwybyddiaeth o Ddatgelu Camarfer
- Mynediad i Wybodaeth (FOI, EIR, DPA)
- Diogelwch Gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn roedd y Rhaglen Newid yn destun Adolygiad Porth allanol ac roeddem yn fodlon ar y radd Felyn, o ystyried graddfa a chymhlethdod y rhaglen. Rydym wedi rhoi'r argymhellion a wnaed gan yr adolygiad ar waith ac wedi gweithredu arnynt.

Mae CNC yn darparu arian grant i sawl trydydd parti hefyd. Mae hawliadau grant yn cael eu monitro yn erbyn deilliannau cytunedig a chostau cymwys, y darperir tystiolaeth ohonynt ar ffurf rhestri trafodion o wariant gwirioneddol, adroddiadau cynnydd ac ymweliadau safle pan fo angen.

Mae Archwilio Mewnol wrthi'n cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sydd ar waith mewn perthynas â thalu grantiau. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen o hyd, ond mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi adnabod gwendidau rheoli mewn rhai meysydd ynghyd â diffyg cydlynid ac arweiniad canolog ar daliadau grant a monitro'r cynllun. Yn gyfochrog â'r gwaith archwilio parhaus, mae'r Bwrdd Rhaglenni Ariannu Partneriaeth wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cyflwynwyd ymagwedd strategol CNC at ariannu partneriaeth i'r Bwrdd am gymeradwyaeth ym mis Ebrill 2014, ac mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i sefydlu prosesau llywodraethu ac ariannol grantiau.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sefydlu Tîm Archwilio Mewnol o fewn y mudiad, sy'n cael ei gefnogi gan drefniadau archwilio blaenorol gan y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Sir Dinbych, a ddarparodd gwasanaethau archwilio i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r gwasanaeth archwilio wedi gweithredu yn unol â safonau a ddiffiniwyd yn Safonau Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cymeradwywyd cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i ARAC ar gynnydd wrth roi'r cynlluniau ar waith. Hefyd, mae'n paratoi barn archwilio annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Rwy'n cwrdd ag ef yn rheolaidd i drafod unrhyw waith cyfredol neu unrhyw destun pryder penodol.

Barn y Pennaeth Sicrwydd Archwilio a Risg, fel yr amlinellir yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol yw:

*“Ar sail fy nealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli cyffredinol sy'n gweithredu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gwaith a wneir i asesu hyn, gallaf roi lefel Gymedrol o sicrwydd bod fframwaith rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu'n effeithiol.*

*“Lefel gymedrol o sicrwydd yw'r ail lefel o sicrwydd allan o bedair gradd bosib, ac fe'i diffinnir fel a ganlyn 'mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth'.”*

## Mater Llywodraethu neu Reoli Arwyddocaol

Yn ystod y flwyddyn cyflawnodd Tîm Archwilio a Gwirio Prosiectau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ymweliad gwirio dirybudd i CNC fel noddwr arweiniol y Prosiect Cymunedau a Natur a ariannwyd gan Gyllid Ewropeaidd Cymru. Adnabu'r adolygiad nifer o feysydd o bryder yn y broses o fonitro a rheoli'r prosiect, a arweiniodd at wneud deugain o argymhellion.

Mae CNC wrthi'n rhoi'r argymhellion ar waith, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u cwblhau.



Dr Emyr Roberts,  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad:



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# DATGANIADAU ARIANNOL a NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y cyfnod  
19 Gorffennaf 2012 to 31 Mawrth 2014



# Cynnwys

## Datganiadau ariannol

- Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net (SoCNE)
- Datganiad o Sefyllfa Ariannol (SoFP)
- Datganiad o Lifoedd Arian (SoCF)
- Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr (SoCTE)

## Nodiadau

1. Polisiâu cyfrifyddu
2. Dadansoddiad o wariant net fesul segment
3. Nifer y staff a chostau cysylltiedig
4. Gwaith cyfalaf y gwariwyd arno yn y flwyddyn
5. Gwariant arall
6. Dadansoddiad o incwm
7. Asedau diriaethol anghyfredol
8. Asedau anniriaethol
9. Asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau
10. Asedau a ddelir ar gyfer gwerthu
11. Rhestrï eiddo
12. Masnachu ac arian arall a dderbynnir
13. Arian parod a chyfwerth ag arian parod
14. Masnachu ac arian arall sy'n daladwy
15. Darpariaethau
16. Ymrwymïadau cyfalaf
17. Ymrwymïadau o dan brydlesi
18. Ymrwymïadau ariannol eraill
19. Rhwymedigaethau amodol
20. Digwyddïadau ar Ôl diwedd y cyfnod adrodd
21. Rhwymedigaethau pensiwn
22. Partïon cysylltiedig

## Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net

Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	Nodyn	£'000
<b>Gwariant</b>		
Costau staff	3.1	80,250
Gwaith cyfalaf y gwariwyd arno yn y flwyddyn	4	18,994
Gwariant arall	5	99,705
		<hr/> 198,949
<b>Incwm</b>		
Incwm o weithgareddau	6	(58,938)
Incwm o'r UE	6	(6,200)
Incwm o'r UE ar ran trydydd partïon	6	(3,426)
Incwm Arall	6	(138)
		<hr/> (68,702)
<b>Gwariant net</b>		<hr/> <b>130,247</b>
Ariannu asedau a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn	21.3	1,932
<b>Cost weithredu net</b>		<hr/> <b>132,179</b>
<b>Gwariant cynhwysfawr arall</b>		
Elw net o drosglwyddo swyddogaethau		(570,040)
Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	21.3	3,898
<b>Ailbrisió</b>		
Colled net ar ailbrisió	7.1& 8	344
Elw net ar ailbrisió asedau biolegol	7.3	(22,308)
<b>Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod</b>		<hr/> <b>(455,927)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2014

31 Mawrth 2014

	Nodyn	£'000
<b>Asedau anghyfredol</b>		
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	7.1	610,539
Asedau etifeddadwy	7.2	6,432
Asedau biolegol	7.3	100,051
Asedau anniriaethol	8	6,727
Asedau ariannol	9.1	260
Masnachu ac arian arall a dderbynnir	12	135
<b>Cyfanswm asedau anghyfredol</b>		<b>724,144</b>
<b>Asedau Cyfredol</b>		
Asedau a ddelir ar gyfer gwerthu	10	204
Rhestri eiddo	11	411
Masnachu ac arian arall a dderbynnir	12	19,190
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	13	15,111
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>		<b>34,916</b>
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>759,060</b>
<b>Ymrwymadau cyfredol</b>		
Masnachu ac arian arall sy'n daladwy	14	(14,854)
Darpariaethau	15	(1,683)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(16,537)</b>
<b>Asedau llai ymrwymadau cyfredol</b>		<b>742,523</b>
<b>Ymrwymadau anghyfredol</b>		
Masnachu ac arian arall sy'n daladwy	14	(2,858)
Darpariaethau	15	(411)
Rhwymedigaethau pensiwn	21.3	(49,200)
Rhwymedigaethau ariannol	9.2	(39,942)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>		<b>(92,411)</b>
<b>Asedau llai ymrwymadau</b>		<b>650,112</b>
<b>Ecwiti trethdalwyr</b>		
<b>Arian wrth gefn</b>		
Cronfa ailbriso	SoCTE	511,056
Cronfa bensynau wrth gefn	SoCTE	(49,200)
Cronfa gyffredinol	SoCTE	188,256
<b>Cyfanswm ecwiti trethdalwyr</b>		<b>650,112</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Dr Emyr Roberts  
Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru

## Datganiad o Lifoedd Arian

Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	Nodyn	£'000	£'000	£'000
		1 Ebrill 2013 Trosglwyddia d	Symudiad yn y flwvddvn	Cyfa nsw m
<b>Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu</b>				
Cost weithredu net	SoCNE	0	(132,179)	(132,179)
Addasiad ar gyfer eitemau anariannol sy'n gysylltiedig ag asedau anghyfredol		202	13,881	14,083
Addasiad ar gyfer ariannu cynllun pensiwn anariannol		0	2,470	2,470
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn asedau a ddelir ar gyfer gwerthu	10	(273)	69	(204)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn rhestri eiddo	11	(808)	397	(411)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir	12	(13,288)	(5,902)	(19,190)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnachu ac arian arall sy'n daladwy	14	15,481	(627)	14,854
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau	15	973	710	1,683
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn rhwymedigaethau ariannol	9	39,912	30	39,942
Addasiad ar gyfer Trosglwyddo asedau, biliau i'w derbyn a biliau i'w talu cyfredol		(42,199)	0	(42,199)
<b>Llif arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b>0</b>	<b>(121,151)</b>	<b>(121,151)</b>
<b>Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi</b>				
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	7.1	0	(11,013)	(11,013)
Prynu asedau treftadaeth	7.2	0	(18)	(18)
Prynu asedau anniriaethol	8	0	(1,909)	(1,909)
Enillion yn sgil gwaredu eiddo, peiriannau a chyfarpar		0	201	201
<b>All-lif ariannol net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b>0</b>	<b>(12,739)</b>	<b>(12,739)</b>
<b>Llifoedd arian o weithgareddau cyllido</b>				
Arian a dderbynnir wrth drosglwyddo swyddogaethau	13	10,314	0	10,314
Cymorth Grant Refeniw gan Lywodraeth Cymru	SoCTE	0	114,685	114,685
Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru	SoCTE	0	169	169
Cymorth Grant Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru	SoCTE	0	23,833	23,833
<b>Cyllido Net</b>		<b>10,314</b>	<b>138,687</b>	<b>149,001</b>
<b>Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod</b>		<b>10,314</b>	<b>4,797</b>	<b>15,111</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod</b>		<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod</b>		<b>10,314</b>	<b>4,797</b>	<b>15,111</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	Cronfa Gyffredinol	Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	Cronfa Bensiynau Wrth Gefn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans Agoriadol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net</b>				
Trosglwyddo swyddogaethau	570,040	0	0	<b>570,040</b>
Costau Gweithredu Net	(132,179)	0	0	<b>(132,179)</b>
Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	(3,898)	0	0	<b>(3,898)</b>
Colled net ar ailbrisió	(344)	0	0	<b>(344)</b>
Ailbrisió - Asedau Biolegol	22,308	0	0	<b>22,308</b>
<b>Cyfanswm trosglwyddiad gan SoCNE</b>	<b>455,927</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>455,927</b>
<b>Newidiadau i drosglwyddo swyddogaethau</b>				
Addasiadau i asedau anghyfredol	270	(412)	0	<b>(142)</b>
Rhwymedigaeth bensiyndau	(4,832)	0	0	<b>(4,832)</b>
Addasiad ar gyfer incwm wedi'i ohirio	(1,945)	0	0	<b>(1,945)</b>
<b>Cyfanswm Newidiadau i drosglwyddo swyddogaethau</b>	<b>(6,507)</b>	<b>(412)</b>	<b>0</b>	<b>(6,919)</b>
<b>Cysoni polisïau cyfrifyddu</b>	<b>1,509</b>	<b>(2)</b>	<b>0</b>	<b>1,507</b>
<b>Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn</b>				
Cronfa Bensiynau Wrth Gefn Agoriadol	38,000	0	(38,000)	<b>0</b>
Cronfa Ailbrisió Agoriadol	(452,587)	452,587	0	<b>0</b>
<b>Symudiad yn y Flwyddyn</b>				
Ailbrisió yn y Flwyddyn	1,326	59,584	0	<b>60,910</b>
Ailbrisió wedi'i wireddu	701	(701)	0	<b>0</b>
Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn	11,200	0	(11,200)	<b>0</b>
<b>Ariannu</b>				
Cymorth Grant Refeniw gan Lywodraeth Cymru	114,685	0	0	<b>114,685</b>
Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru	169	0	0	<b>169</b>
Cymorth Grant Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru	23,833	0	0	<b>23,833</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>188,256</b>	<b>511,056</b>	<b>(49,200)</b>	<b>650,112</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau XX i XX yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Cronfa gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronnis gwariant net ac ariannu gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â gwerth net asedau a rhwymedigaethau a drosglwyddir i Gyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013.

Cronfa ailbrisió wrth gefn - yn adlewyrchu'r balans ailbrisió cronnis a mynegeoio asedau anghyfredol. Cronfa bensiyndau wrth gefn - yn adlewyrchu sefyllfa gronnis asedau neu rwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## 1. Polisiâu cyfrifyddu

Y cyfnod yr adroddir amdano yw 19 Gorffennaf 2012 i 31 Mawrth 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau y tri chorff blaenorol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, i Gyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Mae'r asedau a rhwymedigaethau wedi'u dangos fel cael eu trosglwyddo o fewn cyfnod y Cyfrifon. Nid oes unrhyw falansau agoriadol neu gymaryddion gan mai hwn yw cyfnod cyfrifyddu cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru.

### 1.1 Sail y cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM), yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu a'u dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo FReM yn caniatáu dewis o bolisiâu cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir mai dyna'r un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Cyfoeth Naturiol Cymru at ddiben darparu golwg gwir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisiâu penodol a fabwysiadwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol berthnasol i'r cyfrifon.

Mae FReM yn awgrymu dadansoddi costau ac incwm i Weinyddiaeth a'r Rhaglen. Gan nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ei Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru ar y sail hon ni allwn ddilyn y fformat a awgrymir.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn mynnu bod rheolwyr yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar symiau'r asedau a rhwymedigaethau a adroddir, datgelu asedau a rhwymedigaethau amodol a'r swm incwm a gwariant a adroddir. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth am ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, tybiaethau ynghylch digwyddiadau'r gorffennol a rhagolygon o ddigwyddiadau a champau gweithredu yn y dyfodol.

Darperir manylion barnau arwyddocaol y mae rheolwyr wedi'u ffurfio yn y broses o gymhwyso polisiâu cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru isod. Pan fo'n briodol, mae'r nodiadau priodol i'r cyfrifon yn darparu manylion pellach am dechnegau amcangyfrif. Gallai'r canlyniadau go iawn amrywio o'r amcangyfrifon hyn.

- Cyfeirir amcangyfrifon ar gyfer darpariaethau (Nodyn 15) gan ganlyniad digwyddiadau blaenorol a pherthnasol megis achosion cyfreithiol.
- Rhwymedigaethau pensiwn (Nodyn 21) yw un o'r meysydd barn mwyaf arwyddocaol ac felly mae'r ffactorau penodol y tu ôl i'r barnau wedi'u hasesu gan actiwariad annibynnol a chymwysedig ac yn seiliedig ar ffactorau megis disgwyliad bywyd, oedran aelodau'r cynllun, cyfraddau llog a chwyddiant cyffredinol a rhagolygon o enillion ar arian a fuddsoddwyd.
- Mae incwm cronedig ac wedi'i ohirio (Nodyn 6.1 a Nodyn 14) wedi'i gynnwys ar gyfer balansau ffioedd a thaliadau lle mae gwarged neu ddiffyg. Mae'r rhain wedi'u cynnwys oherwydd y ffaith bod yn rhaid i gynlluniau taliadau adennill costau dros gyfnod amser rhesymol.
- Mae meysydd barn penodol eraill yn cynnwys pennu bywydau economaidd defnyddiol asedau sy'n ffurfio sail i gyfnodau y mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn dibrisio drostynt (Nodyn 7) ac y mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio drostynt (Nodyn 8). Yn ogystal â hyn defnyddir barn wrth bennu lleihad eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol a chategoreiddio asedau fel diriaethol neu waith cyfalaf y gwariwyd arno yn y flwyddyn (Nodyn 4).

## 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau, o dan y confensiwn costau hanesyddol, wedi'u haddasu i gymryd ailbriso eiddo, peiriannau a chyfarpar, ar wahân i gerbydau ac asedau anniriaethol, i ystyriaeth. Mae'r cyfrifon yn seiliedig ar yr egwyddor busnes gweithredol.

## 1.3 Incwm, costau a grantiau

### 1.3.1 Incwm a gwariant

Mae incwm a ddatgelwyd yn y cyfrifon yn cynrychioli refeniw, ac eithrio Treth ar Werth (TAW), wedi'i dderbyn ac i'w dderbyn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu mewn perthynas â'r swyddogaethau a gyflawnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r incwm o daliadau ar gyfer rheoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed hynny'n awyr, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau ar gyfer ceisiadau a chynhaliaeth barhaus. Daw incwm hefyd o werthu pren, gweithgareddau hamdden a rhoi trwyddedau i ganiatáu gweithgareddau megis pysgota mewn afonydd a reolir neu fordwyo cychod a badau eraill ar afonydd penodedig. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail croniadau ac mae'r symiau wedi'u cofnodi ar werth teg.

Mae costau a ddatgelir yn y cyfrifon yn cynrychioli gwariant, ac eithrio TAW, wedi'i dalu ac yn daladwy yn ystod y cyfnod cyfrifyddu mewn perthynas â'r swyddogaethau a gyflawnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

### 1.3.2 Cymorth Grant

Trinnir derbynebaw Cymorth Grant, p'un a ydynt yn refeniw neu gyfalaf eu natur, ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru fel arian a dderbynnir fel parti â rheolaeth, gan achosi buddiant ariannol gweddilliol. Yn unol â'r FReM, mae grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru'n cael eu trin yn yr un modd ag arian a dderbynnir gan barti â rheolaeth. Mae'r derbynebaw hyn wedi'u credydu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol.

### 1.3.3 Grantiau a chyfraniadau

Trinnir grantiau eraill sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf penodol gydag amodau ynghlwm wrth yr ased fel grantiau a chyfraniadau gohiriedig. Maen nhw'n cael eu credydu i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net dros y cyfnod pan fydd yr amod sy'n gysylltiedig â'r ased yn parhau mewn grym ac ni fydd y cyfnod hwn yn hwy na bywyd economaidd defnyddiol yr ased. Mae'r amodau penodol fel a ganlyn:

- i. Os darperir y grant ar yr amod y bydd ased yn cael ei adeiladu, mae'r grant yn ad-daladwy dim ond os nad adeiladir yr ased; felly mae'r incwm yn cael ei gydnabod dros gyfnod adeiladu'r ased.
- ii. Os darperir y grant ar yr amod y bydd yr ased yn cael ei adeiladu ac yn gosod amod ar gyflwr yr ased dros ei fywyd defnyddiol, mae'r incwm yn cael ei gydnabod dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased. Mae'r dull o ddosrannu'r amorteiddiad bob blwyddyn yn dibynnu ar delerau'r contract sy'n gysylltiedig â phob derbynneb grant.

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn unrhyw grantiau lle mae'r amodau hyn wedi'u pennu. Gan hynny, mae'r holl gyfraniadau grant a dderbyniwyd wedi'u cydnabod fel incwm o fewn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net.

## 1.4 Cyfalafu

£5,000 yw'r trothwy ar gyfer cyfalafu asedau. Codir asedau sy'n costio llai na £5,000 i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net yn y flwyddyn o'u prynu. Gellir grwpio cyfalafu eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 fel un ased pan gânt eu prynu gyda'i gilydd os yw'r cyfanswm cost yn fwy na £5,000 a bod yr asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Cyfalafir gwariant dilynol ar ased os bodlonir y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol, h.y. os yw'n debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i Gyfoeth Naturiol Cymru ac y gellir mesur cost y gwariant yn ddibynadwy.

## 1.5 Gwaith cyfalaf y gwariwyd arno yn y flwyddyn

Gwaith cyfalaf y gwariwyd arno yn y flwyddyn (CWEIY) yw gwariant sy'n gyfalaf ei natur nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw ei risgiau neu elw na medru amcangyfrif bywyd defnyddiol yr ased yn ddibynadwy. Mae hyn yn cynnwys eitemau megis asedau llifogydd a adeiledir ar dir nad yw'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, lle mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bwerau caniatáu, yn ogystal ag asedau lle nad yw'n bosib gwirio am leihad gan olygu ei fod yn fwy gochelgar i ddiddymu'r ased yn y flwyddyn, er enghraifft gwella argloddiau.

## 1.6 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae perchnogaeth gyfreithiol ar yr ystâd goedwigoedd wedi'i breinio â Llywodraeth Cymru. Mae perchnogaeth gyfreithiol ar bren, gan gynnwys coed heb eu torri, wedi'i breinio â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r holl asedau sefydlog diriaethol eraill wedi'u breinio â Chyfoeth Naturiol Cymru.

### 1.6.1 Yr ystâd goedwigoedd

Mae ardaloedd o goedwigoedd yn cynnwys tir (gan gynnwys gwelliannau tir) a thyfu pren. Mae elfennau tyfu pren yn dod o dan y diffiniad o asedau biolegol fel yr amlinellir yn y Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 41 (Amaeth) a manylion y polisi cyfrifyddu wedi'u hamlinellu isod. Un o ofynion IAS 41 yw prisiau tir a'r ased biolegol sy'n tyfu arno ar wahân. O ganlyniad i hyn, mae'r ystâd goedwigoedd yn cynnwys yr holl ardaloedd coetir a phren sydd y tu allan i'r diffiniad o ased biolegol. Mae elfennau o'r gwerthusiad ac felly y cyfrifyddu ar gyfer yr asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif a rhoddir manylion y rhain o dan Nodyn 1.20.

Dangosir tir yr ystâd goedwigoedd ar werth teg ac yn eithrio'r gwerth y gellir ei briodoli i unrhyw goed sy'n tyfu ar y tir hwnnw. Mae pryswyr proffesiynol allanol yn cyflawni prisiau proffesiynol allanol llawn o dir yr ystâd goedwigoedd bob pum mlynedd. Penodwyd Syrfewyr Siartredig Smiths Gore fel pryswyr ar gyfer y prisiau llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2013. Yn unol â Safonau Arfarnu a Phrisio'r Sefydliad Syrfewyr Siartredig Brenhinol (RICS) (y Llyfr Coch), mae tir yr ystâd goedwigoedd yn cael ei brisio o dan y modelau defnydd presennol neu werth teg presennol, yr ystyrir eu bod yn briodol o ran dod o hyd i werth teg. Yn y blynyddoedd rhwng prisiau proffesiynol, defnyddir mynegeion wedi'u teilwra i ailosod gwerthoedd tir. Darparwyd y mynegeion gan Smiths Gore. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i briswyr proffesiynol allanol wedi datblygu prosesau, gan gynnwys tybiaethau allweddol, sy'n cynhyrchu amcangyfrif rhesymol o brisiad sy'n cydymffurfio.

Dangosir coed sydd y tu allan i'r diffiniad o asedau biolegol ar werth teg. Mae pryswyr proffesiynol allanol yn cyflawni prisiau proffesiynol allanol bob pum mlynedd. Fel y manylir uchod, cyflawnir y prisiau gan Syrfewyr Siartredig Smiths Gore yn unol â Llyfr Coch RICS o dan y modelau defnydd presennol neu werth teg fel y bo'n briodol ar gyfer dod o hyd i werth teg. Yn y blynyddoedd rhwng prisiau proffesiynol, defnyddir mynegeion wedi'u teilwra i ailosod gwerthoedd.



### 1.6.2 Cynllun Coedwigo ar y Cyd Llyn Efyrynwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu cynllun coedwigo ar y cyd gyda Severn Trent Water (STW) yn ardal Llyn Efyrynwy ystâd y goedwig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli'r ardal hon o goedwig. Mae incwm yn cael ei dderbyn a chostau'n cael eu talu gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gwneir taliad blynyddol o 50% o'r gwarged gweithredu ar gyfer ystâd Llyn Efyrynwy i STW. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos gwerth o 50% o'r coed tyfu ar gyfer yr ardal hon o goedwig yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, wedi'i rannu rhwng ystâd y goedwig ac asedau biolegol. Nid yw gwerth y tir gwaelodol (sy'n parhau'n eiddo i STW) wedi'i gynnwys.

### 1.6.3 Tir ac adeiladau

Mae tir ac adeiladau (gan gynnwys aneddiadau) wedi'u prasio ar werth teg, ar sail gwerth ar y farchnad agored ar gyfer defnydd presennol ac maent yn destun ailbrizio proffesiynol annibynnol yn unol â safonau prasio RICS bob pum mlynedd.

Rhwng ailbrisiadau proffesiynol, mae gwerthoedd yn cael eu mynegeo'n flynyddol gan ddefnyddio mynegai priodol o dan y confensiwn costau hanesyddol diwygiedig. Eir ag addasiadau sy'n deillio o ailbrizio i'r gronfa ailbrizio wrth gefn nes bod y balans mewn perthynas â'r ased anghyfredol hwnnw wedi'i ddefnyddio, ac ar ôl hynny mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net. Mae'r datganiad yn cynnwys cyfrifyddu ar gyfer prydlesi cyllid.

### 1.6.4 Peiriannau a Pheirianwaith

Mae Peiriannau a Pheirianwaith wedi'u prasio ar werth teg ar sail gwerth ar y farchnad agored. Mae Peiriannau a Pheirianwaith ac eithrio cerbydau wedi'u mynegeo bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegai priodol o dan y confensiwn costau hanesyddol diwygiedig. Eir ag addasiadau sy'n deillio o ailbrizio i'r gronfa ailbrizio wrth gefn nes bod y balans mewn perthynas â'r ased anghyfredol hwnnw wedi'i ddefnyddio, ac ar ôl hynny mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net. Mae'r datganiad yn cynnwys cyfrifyddu ar gyfer prydlesi cyllid.

### 1.6.5 Technoleg Gwybodaeth

Mae cyfarpar technoleg gwybodaeth yn cael ei brizio ar werth teg ar sail gwerth ar y farchnad agored. Mae cyfarpar technoleg gwybodaeth yn cael ei fynegeo bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegai priodol o dan y confensiwn costau hanesyddol diwygiedig. Eir ag addasiadau sy'n deillio o ailbrizio i'r gronfa ailbrizio wrth gefn nes bod y balans mewn perthynas â'r ased anghyfredol hwnnw wedi'i ddefnyddio, ac ar ôl hynny mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net.

### 1.6.4 Strwythurau Gweithredol

Defnyddir strwythurau gweithredol wrth gyflwyno gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn benodol eu natur, lleoliad neu swyddogaeth. Nid yw'n bosib ailbrizio'r asedau hyn yn effeithiol gan ddefnyddio cymaryddion marchnad neu brisiadau proffesiynol. Delir yr asedau hyn yn y datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gost amnewid wedi'i dibrisio ac yn cael eu mynegeo bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegai priodol.

Yn gyffredinol mae'r asedau hyn yn cynnwys gwaith ar amddiffynfeydd rhag llifogydd megis rhwystrau, gorsafoedd pwmpio a thirddaliadau rheoli risg llifogydd, ac asedau adnoddau dŵr megis gorsafoedd telemetreg a dyfrdyllau.

### 1.6.7 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Mae'r holl asedau diriaethol anghyfredol sy'n cael eu hadeiladu nad ydynt yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u cyfalafu fel ased anghyfredol sy'n cael ei adeiladu. Maen nhw'n cael eu cario ar gost ac yn cael eu trosglwyddo i'r categori asedau anghyfredol priodol pan gânt eu cwblhau ac maent yn barod i'w defnyddio. Nid yw unrhyw ddibrisio'n cael ei gydnabod nes y dechreuir defnyddio'r ased anghyfredol.

### 1.6.8 Dibrisio

Nid yw tir yr ystâd goedwigoedd, ynghyd â gwerth y coed, yn cael ei ddibrisio.

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio, oni bai ei fod yn ffurfio rhan hanfodol o strwythur gweithredol sy'n newid ei natur yn sylweddol. Dim ond nifer bach o asedau tir sy'n dod o dan y categori hwn ac maent yn ymwneud yn bennaf â'n gwaith ar gynefinoedd. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio i werth net y gellir ei wireddu dros gyfnod strwythur gweithredol gan gynnwys y tir a ddefnyddir, gan na ellir gwahanu'r tir o weddill yr ased.

Nid yw tir treftadaeth, asedau anghyfredol sy'n cael eu hadeiladu ac asedau wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir ar gyfer gwerthu'n cael eu dibrisio.

Cyfrifir dibrisio er mwyn diddymu gwerth ased diriaethol anghyfredol ar sail linol dros fywyd economaidd defnyddiol disgwylidig yr ased dan sylw. Nid yw tâl dibrisio'n cael ei godi yn y mis gwaredu nac yn y mis prynu.

Dangosir peiriannau a pheirianwaith gyda chost hanesyddol ddiwygiedig ac maent yn cael eu dibrisio'n briodol. Mae cerbydau a ddangosir yn y categori peiriannau a pheirianwaith yn cael eu dibrisio ar sail balans gostyngol ar gyfradd o 21%.

Y bywydau economaidd pennaf a ddefnyddir at ddibenion dibrisio yw:

<b>Categori'r ased</b>	<b>Bywyd economaidd pennaf</b>
Strwythurau gweithredol	5 - 100 mlynedd
Adeiladau ac aneddiadau	10 - 60 mlynedd
Peiriannau a pheirianwaith	4 - 25 mlynedd
Technoleg gwybodaeth	3 - 10 mlynedd

Mae'r amrediadau yn y bywydau economaidd yn adlewyrchu'r ystod eang o gategoriâu o asedau o fewn y mathau o asedau. Parhaodd asedau a drosglwyddwyd i mewn â'r bywydau a aseiniwyd iddynt o fewn eu cyrff blaenorol, a allai amrywio o'r bywydau a ddangosir uchod. Codir y tâl dibrisio ar y SoCNE. Adolygir bywydau asedau'n flynyddol.

## 1.7 Asedau treftadaeth ac asedau biolegol

### 1.7.1 Asedau treftadaeth

Asedau sydd wedi'u dosbarthu'n asedau treftadaeth yw tir mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig ac fe'u delir i gefnogi un o'r nodau pennaf o gynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o amgylchedd naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a ddelir a'r diffyg gwerthoedd marchnad cymaradwy, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried y byddai dod o hyd i brisiadau allanol yn golygu mynd i gost anghymesur. Gan hynny, delir asedau treftadaeth ar gost. Gwneir caffaeliadau fel arfer trwy bryniadau neu roddion. Cofnodir pryniadau ar gost a chofnodir rhoddion ar brisiad cyfredol a geir gan un o asiantau tir Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cydnabyddir costau cadwraeth (gwariant y mae ei angen i gadw'r tir treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net pan gânt eu talu.

Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu hailbrisio neu eu dibrisio.

Mae mwy o wybodaeth am dir treftadaeth yn Nodyn 7.2.

### 1.7.2 Asedau Biolegol

O dan IAS 41 (Amaeth), mae'n rhaid dosbarthu coedwigoedd a ddelir yn bennaf at ddibenion economaidd (i gefnogi amcan Llywodraeth Cymru o wneud cyfraniad cadarnhaol at economi ffyniannus a chynaliadwy yng Nghymru) yn ased biolegol ac ardaloedd eraill yn 'eiddo, peiriannau a chyfarpar' (PPE). Delir ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd ac economaidd, ac felly mae'n rhaid gwneud asesiad bras o'r gyfran a ddelir yn bennaf at ddibenion economaidd. Rhaniad canrannol Ystâd Goedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yw 26% ar gyfer asedau biolegol a 74% ar gyfer PPE.

Mae asedau biolegol yn cynnwys coed safadwy ac yn cael eu mesur ar werth teg llai costau pwynt gwerthu a amcangyfrifir, ac eithrio pan na ellir mesur gwerth teg yn ddibynadwy. Mae priswyr proffesiynol allanol yn cyflawni prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd. Fel y manylir yn 1.6.1 uchod, cyflawnir y prisiad gan Syrffewyr Siartredig Smiths Gore yn unol â Llyfr Coch RICS o dan y modelau defnydd presennol neu werth teg fel y bo'n briodol ar gyfer dod o hyd i werth teg. Yn y blynyddoedd rhwng prisiadau proffesiynol, defnyddir mynegeion wedi'u teilwra i ailosod gwerthoedd Cydnabyddir elw a cholled ailbrisio yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net ym mlwyddyn yr ailbrisio.

## 1.8 Asedau Anniriaethol

Cofnodir asedau anniriaethol gyda gwerth sy'n fwy na £5,000 ar gost yn y lle cyntaf ac yna maent yn cael eu diwygio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion priodol i werth teg, gan adlewyrchu cost amnewid wedi'i dibrisio. Cyfrifir amorteiddio er mwyn diddymu gwerth asedau anniriaethol ar sail linol dros fywyd economaidd defnyddiol disgwylidig yr asedau dan sylw.

Y prif fywydau economaidd a ddefnyddir at ddibenion amorteiddio yw:

Categori'r ased	Bywyd economaidd pennaf
Trwyddedau meddalwedd	5 - 25 mlynedd
Meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol	3 - 10 mlynedd

### 1.8.1 Costau ymchwil a datblygu

Mae costau wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n perthyn i gamau ymchwil neu i gamau datblygu. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu ac fe'i ddiddymir i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net fel y mae'n codi, oherwydd yr ansicrwydd sylfaenol am y budd economaidd sy'n deillio ohono.

Mae gwariant ar ddatblygu'n cael ei gyfalafu a'i ddiddymu dros fywyd defnyddiol yr ased wrth gyflawni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 (Astedau Anniriaethol). Cydnabyddir asedau a gynhyrchir yn fewnol fel asedau sy'n cael eu hadeiladu ar gost a heb eu hailbrisio neu eu dibrisio nes y deuir â'r ased wedi'i gwblhau i mewn i wasanaeth.

## 1.9 Asedau anghyfredol a ddelir ar gyfer gwerthu

Dosberthir asedau anghyfredol fel rhai a ddelir ar gyfer gwerthu os bydd y swm wedi'i gario'n cael ei adennill yn bennaf trwy drafodyn gwerthu'n hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Daw dibrisio i ben ar unwaith wrth i'r asedau gael eu dosbarthu fel cael eu dal ar gyfer gwerthu. Maent yn cael eu datgan ar bwynt isaf eu swm cario a gwerth teg llai costau gwerthu. Fe'u cofnodir fel asedau cyfredol yn y datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Pennir asedau anghyfredol fel asedau a ddelir ar gyfer gwerthu dim ond os yw rheolwyr yn ymrwymedig i gynllun i werthu ac os yw'r ased yn cael ei farchnata'n weithredol yn ei gyflwr presennol ar bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i gyflwr cyfredol.

## 1.10 Cronfa ailbrisio wrth gefn

Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn dangos yr enillion a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol. Gostyngir y balans pan fydd asedau gydag enillion cronnus yn cael eu:

- Hailbrisio i lawr neu eu lleihau ac mae'r enillion yn cael eu colli.
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau ac mae'r enillion yn cael eu defnyddio trwy ddibrisio.
- Gwaredu ac mae'r enillion yn cael eu gwireddu.

Mae swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad a godir yr asedau wedi'u hailbrisio a'r hyn a fyddai wedi'i godi petai'r asedau'n cael eu dangos ar gost yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa gyffredinol.

### 1.11 Lleihad

Mae asedau anghyfredol yn destun adolygiadau lleihad blynyddol. Cydnabyddir lleihad pan fo swm adferadwy yr asedau anghyfredol yn cwmpo o dan ei swm cario, o ganlyniad i naill ai gwmp mewn gwerth oherwydd amodau marchnad neu golli budd economaidd.

Mae ailbrisiadau i lawr sy'n deillio o newidiadau mewn gwerth ar y farchnad yn arwain at leihad dim ond pan gaiff yr ased ei ailbriso o dan swm cario ei gost hanesyddol. Mae FReM yn mynnu bod effaith ailbriso i lawr yn cael ei gosod yn erbyn unrhyw falans cronus yn y gronfa ailbriso wrth gefn. Cydnabyddir unrhyw swm uwchben hyn fel amhariad trwy'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net.

Yn unol â'r FReM, cydnabyddir unrhyw golled o ran budd economaidd yn llawn yn erbyn gwariant. Trosglwyddir swm sydd yr un â gwerth y lleihad o'r gronfa ailbriso wrth gefn i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

### 1.12 Rhestr eiddo

Mae'r rhestr eiddo yn cynnwys stociau pren a dorrwyd ac yn cael ei phrisio ar bwynt isaf cost a gwerth net y gellir ei wireddu. Mae'r gwerth net y gellir ei wireddu'n seiliedig ar amcangyfrifon o brisiau gwerthu, llai costau pellach y disgwylir iddynt gael eu cronni wrth gwblhau a gwaredu.

### 1.13 Incwm cronedig a gohiriedig

Trinnir gwargedion a diffygion cronus mewn perthynas ag adnoddau dŵr a chynlluniau taliadau eraill fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig gan ddiwynnu p'un a oes diffyg neu warged ar y cynllun taliadau. Trinnir y balansau hyn fel incwm gohiriedig neu gronedig dim ond pan geir disgwyliad bod y balansau'n adferadwy dros gyfnod amser rhesymol. Ystyrir y balansau wrth bennu ffioedd a thaliadau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, i alluogi cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod amser rhesymol, sy'n cael ei ystyried fel tair blynedd ar hyn o bryd.

Mae incwm gohiriedig yn cynnwys taliadau unedol gwelliannau amgylcheddol a dderbynnir gan y sawl sy'n tynnu dŵr, i'w ddefnyddio i ariannu taliadau digolledu ar gyfer amrywio neu ddirymu trwyddedau tynnu dŵr. Mae'n ofynnol i'r newid hwn mewn amodau'r drwydded gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a defnyddir y newidiadau i leihau'r niwed amgylcheddol a achosir i gyrsiau dŵr o ganlyniad i dynnu gormod o ddŵr. Cedwir balansau ar gyfer cwmnïau dŵr a'r rhai nad ydynt yn gwmnïau dŵr. Codir taliadau dim ond pan asesir nad yw digollediad yn debygol o gael ei dalu yn y dyfodol. Codwyd tâl gwelliannau amgylcheddol unedol (EIUC) yn ychwanegol at y tâl unedol safonol (SUC)

Y balans adnoddau dŵr ar 31 Mawrth 2014 oedd:

<b>Balans SUC</b>	<b>Balans EIUC ar gyfer cwmnïau dŵr</b>	<b>Balans EIUC ar gyfer cwmnïau nad ydynt yn gwmnïau dŵr</b>	<b>Cyfanswm</b>
£m	£m	£m	£m
(2.2)	-	(1.3)	<b>(3.5)</b>

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio'r arian a godir o'r tâl hwn dim ond at ddiben gwneud taliadau digolledu er mwyn i unrhyw falans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn gael ei barhau i fodloni taliadau digolledu yn y dyfodol. Mae'r balansau'n codi gan fod yn rhaid i ni gasglu digon o arian i dalu'r digollediad cyn diddymu neu amrywio trwydded.

### 1.14 Prydlesi

Mae prydles ariannol yn un sy'n trosglwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yn sylweddol i'r prydlesai. Mae prydles weithredol yn brydles sy'n wahanol i brydles ariannol. Maent yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn IAS 17 (Prydlesi).

Mae penderfynu p'un a yw trefniad yn brydles, neu'n cynnwys prydles, yn seiliedig ar sylwedd y trefniad hwnnw. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ba un a yw'r trefniad yn dibynnu ar ddefnyddio ased penodol ac yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased hwnnw ai beidio. Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal yn sylweddol pob risg a gwobr perchen ar ased a brydlesir, trinnir y trefniad fel prydles ariannol.

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net ar sail linol dros gyfnod y brydles. Cydnabyddir ysgogiadau prydles (megis cyfnod di-rent) fel gostyngiad yn y gost o rentu dros gyfnod y brydles ar sail llinol. Amorteiddir premiymau'r brydles dros gyfnod y brydles.

Cyfalafir prydlesi ariannol ar ddechrau'r brydles ar bwynt isaf gwerth teg yr ased wedi'i brydlesu neu werth presennol isafswm taliadau'r brydles. Cofnodir dyled gyfatebol ar y prydlesai a gynrychiolir gan isafswm taliadau'r brydles dros gyfnod heb ddod i ben y brydles.

Pan nad yw'n bosib cofnodi'r gyfradd log sy'n rhan annatod o'r brydles, mae'r disgownt ar sail cyfraddau a gyfarwyddir gan Drysorlys EM.

Dibrisir asedau a ddelir o dan brydles ariannol dros y byrraf o fywyd defnyddio yr ased neu gyfnod y brydles.

Dyrennir pob taliad prydles rhwng y rhwymedigaeth a'r taliadau ariannol er mwyn cyflawni cyfradd gyson ar y balans ariannol sy'n weddill. Mae'r rhwymedigaethau rhent cyfatebol, net o daliadau ariannol, wedi'u cynnwys mewn eitemau taladwy eraill. Codir elfen llog y gost ariannol ar y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net dros gyfnod y brydles er mwyn cynhyrchu cyfradd log gyfnodol gyson ar falans sy'n weddill y rhwymedigaeth ar gyfer pob cyfnod.

### 1.15 Darpariaethau

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol pan fydd rhwymedigaeth bresennol ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae'n debygol y bydd gofyn i ni setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynnol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwneud pob darpariaeth briodol pan fo'r rhain yn cwrdd â'r diffiniad o fewn IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol). Pan fo'n faterol, cyfrifir disgownt ar gostau darpariaethau yn y dyfodol gan ddefnyddio'r cyfraddau a gyfarwyddir gan Drysorlys EM. Rhoddir manylion y cyfraddau a ddefnyddir yn Nodyn 15.

Dangosir darpariaeth yn y cyfrifon fel rhwymedigaeth ar gyfer hawliadau sy'n weddill o dan gynigion grant a wnaed i bartneriaid i gefnogi gwaith a gwblhawyd hyd at 31 Mawrth 2014. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar yr hawliau sydd i'w derbyn yn nhri mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd mewn perthynas â gwaith a wnaed yn y flwyddyn flaenorol, wedi'i addasu pan wyddys na chwblhawyd y gwaith ar 31 Mawrth 2014.

### 1.16 Rhwymedigaethau amodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n datgelu rhwymedigaethau posib sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol pan fo'r canlyniad yn seiliedig ar ddigwyddiadau ansicr y dyfodol. Gwneir datgeliad pan fydd ganddo rhwymedigaeth bresennol nad yw'n debygol neu na ellir ei mesur yn ddibynadwy.

### 1.17 Asedau amodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n datgelu asedau posib sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol y bydd eu presenoldeb yn cael ei ddatgelu dim ond gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn ei reolaeth. Nid oedd unrhyw asedau amodol ar 31 Mawrth 2014.

## 1.18 Offerynnau ariannol

### 1.18.1 Asedau a rhwymedigaethau ariannol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n dosbarthu benthyciadau, eitemau derbynadwy ac asedau sydd ar gael i'w gwerthu. Rhwymedigaethau ariannol yw unrhyw rwymedigaethau cytundebol i gyflwyno arian neu asedau ariannol i drydydd parti. Mae rheolwyr yn pennu dosbarthiad asedau a rhwymedigaethau ariannol ar y pryd y maent yn cael eu hadnabod yn gyntaf.

### 1.18.2 Benthyciadau a thaliadau i'w derbyn

Mae benthyciadau a thaliadau i'w derbyn yn asedau ariannol anneiliadol gyda thaliadau sefydlog neu derfynadwy nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad actif ac nad ydynt wedi'u dosbarthu fel eitemau ar werth. Cydnabyddir benthyciadau a thaliadau i'w derbyn ar werth teg yn y lle cyntaf ac fe'u delir wedyn am gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Gwerth teg yw swm yr anfoneb wreiddiol.

### 1.18.3 Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu

Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu yw asedau ariannol anneiliadol y dynodir eu bod ar gael i'w gwerthu. Fe'u cydnabyddir yn y lle cyntaf ar werth teg ac wedyn yn cael eu hailfesur i werth teg ar bob dyddiad Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Cydnabyddir unrhyw gynnydd o ganlyniad i newidiadau mewn gwerth teg mewn arian wrth gefn.

### 1.18.4 Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar werth teg yn y lle cyntaf ac fe'u delir wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dadadnabod pan fydd y rhwymedigaeth wedi dod i ben.

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru rwymedigaethau penodol ar ffurf offerynnau ariannol o ganlyniad i Gytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr gyda nifer o gwmnïau dŵr a ddechreuwyd wrth iddynt gael eu preifateiddio. Trinnir y rhwymedigaethau hyn fel bytholbarhad ac maent wedi'u cofnodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio. Mae'r taliadau blynyddol sy'n deillio o'r rhwymedigaethau hyn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu (RPI).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n agored i'r risg o newidiadau yn y gyfradd chwyddiant. Mae'r gyfradd RPI wedi amrywio'n sylweddol dros fywyd y rhwymedigaethau ariannol hyn. Y gyfradd gyfartalog dros y 26 mlynedd ers 1989 yw 3%, ond cafwyd amrediad rhwng 9% ac 1% yn y cyfnod hwn. Dyma risg macro-economaidd na all Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun ei rheoli mewn unrhyw ffordd. Er hynny, gall Cyfoeth Naturiol Cymru adennill cost gyfan cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr trwy'r taliadau y mae'n eu codi ar gyfer tynnu dŵr.

### 1.18.5 Deilliadau corfforedig

Mae rhai contractau cymysgryw'n cynnwys cydran ddeilliadol ac anneiliadol. Yn y cyfryw achosion, gelwir y gydran ddeilliadol yn ddeilliad corfforedig. Pan nad yw nodweddion a risgiau economaidd y deilliadau corfforedig yn gysylltiedig yn agos â'r rhai sy'n ymwneud â'r contract, ac nad yw'r contract lletyol ei hun wedi'i gario ar werth teg trwy elw neu golled, mae'r deilliad corfforedig yn cael ei wahanu a'i adrodd ar werth teg gydag elw a cholled yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflawni adolygiad o'i gontractau ac wedi penderfynu nad oedd ganddo, ar 31 Mawrth 2014, unrhyw drefniadau sy'n bodloni'r meini prawf am wneud gwahanu'n ofynnol.

### 1.18.6 Lleihad ar asedau ariannol

Ar bob dyddiad Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n asesu p'un a oes tystiolaeth wrthrychol y cafwyd lleihad mewn asedau ariannol o ganlyniad i un neu fwy o ddigwyddiadau colled a ddigwyddodd ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol o'r ased a chyn dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Mae'n ystyried hefyd p'un a yw unrhyw ddigwyddiad colled wedi cael effaith ar amcangyfrifon o lifoedd ariannol yr ased ariannol neu'r portffolio yn y dyfodol y gellir eu hamcangyfrif yn ddibynadwy.

## 1.19 Buddion cyflogeion

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Wasanaeth Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun agored ar gyfer staff blaenorol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ac ar gyfer aelodau staff newydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod caeedig o gronfa bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (cronfa bensiwn Llywodraeth Leol) o dan gytundeb derbyn cymuned ar gyfer staff blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

### 1.19.1 Pensiynau

Ar gyfer staff blaenorol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, mae cyfraniadau'r cyflogwyr yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar un o bedair cyfradd fel yr amlinellir isod, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

<b>Band Cyflog (£)</b>	<b>%</b>
21,500 a llai	16.7
21,501 i 44,500	18.8
44,501 i 74,500	21.8
74,501 ac yn uwch	24.3

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwneud cyfraniadau rheolaidd i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (sef Active Fund) ar gyfer staff blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ariannu rhwymedigaethau pensiwn cyfredol a blaenorol. Codir cyfraniadau ar y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net gan gymryd costau pensiwn disgwylidig dros fywydau gwasanaeth y cyflogeion i ystyriaeth ac maent wedi'u pennu ar lefel sy'n ddigon i sicrhau bod y cynllun wedi'i ariannu'n llawn yn dilyn prisiadau actiwaraid ffurfiol o'r gronfa.

### 1.19.2 Buddion eraill cyflogeion

Cydnabyddir rhwymedigaeth ar gyfer tâl gwyliau a buddion tymor byr eraill pan fydd y cyflogeion yn rhoi gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i dderbyn y buddion hyn. O ganlyniad i hyn mae cronid wedi'i wneud ar gyfer gwyliau a enillwyd nad ydynt wedi'u cymryd eto.

Cydnabyddir buddion terfynu fel rhwymedigaeth, pan fydd rhwymedigaeth bendant ar Gyfoeth Naturiol Cymru i derfynu cyflogaeth cyflogai neu grŵp o gyflogeion cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu o ganlyniad i gynnig i annog ymadael yn wirfoddol.

## 1.20 Technegau amcangyfrif

### 1.20.1 Barnau cyfrifo beirniadol a ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif allweddol

Wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru, mae angen ffurfio barn, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch symiau asedau a rhwymedigaethau sy'n cael eu cario nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gallai'r canlyniadau go iawn amrywio o'r amcangyfrifon hyn.

Adolygir yr amcangyfrifon a thybiaethau ar sail barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod pan ddiwygir yr amcangyfrif os yw'r diwygiad yn effeithio dim ond ar y cyfnod hwnnw neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau cyfredol ac yn y dyfodol.

### 1.20.2 Barnau beirniadol wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu

Y canlynol yw'r carnau ac amcangyfrifon beirniadol a wnaed yn y broses o gymhwyso polisïau cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru ac sydd â'r effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

### 1.20.3 Priso'r Ystâd Goedwigoedd ac asedau biolegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n credu na fyddai'n gost-effeithiol i gyflawni prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd sy'n cynnwys pob ardal o goetir, gan gynnwys y rhai sydd ag asedau biolegol. Yn dilyn cyngor gan briswyr â chymwysterau proffesiynol, ystyrir y gellir cyrraedd prisiad rhesymol trwy gyflawni gwerthusiadau ar y safle o hap-sampl o eiddo sy'n cynrychioli rhwng wyth a deg y cant o'r ystâd goedwigoedd ac allosod y rhain ar gyfer y cyfan.

Mewn ymgynghoriad â'r priswyr allanol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried bod prisiadau sy'n seiliedig ar grwpiau o ffactorau'n darparu prisiadau cadarn ac mai'r ffactorau mwyaf priodol i'w hystyried yw lleoliad, rhywogaeth, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd bod y dystiolaeth fwyaf priodol seiliedig ar farchnad o werth yn deillio o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd sydd ag arwynebedd o fwy na phum deg hectar. Hyd yn oed wedyn, cydnabyddir y gall fod lledaeniad helaeth o werthoedd ac y gall y rhain fod yn ddyfarniadau braidd yn oddrychol. Gan hynny, bydd unrhyw brisiad ar goedwig yn dibynnu i ryw raddau ar farn broffesiynol. Wedi hynny mae'r priswyr allanol yn rhoi gwerthoedd ar dir a phren, gan gynnwys asedau biolegol. Yn unol â gofynion IAS 41 (Amaeth) mae pris teg asedau biolegol wedi'i leihau gan amcangyfrifon o gostau i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir y costau hyn ar bump y cant o werthoedd pren ac maent yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu goedwig.

### 1.20.4 Asedau biolegol

Wrth gymhwyso IAS 41 (Amaeth) ystyriwyd y meini prawf manwl ar gyfer dosbarthu gweithgareddau coedwigaeth fel amaeth. Pennod hyn na ellid ystyried bod yr holl weithgarwch coedwigaeth a gyflawnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru'n amaeth o dan y safon, gan y delir a rheolir coetiroedd a choedwigoedd yn bennaf i gyflawni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a amlinellir yn 'Coetiroedd i Gymru'.

Cyflawnwyd dadansoddiad manwl o'r ystâd goedwigoedd gan ddefnyddio system sgorio i bennu'r rhannau hynny o'r ystâd goedwigoedd a ddaeth o fewn y pedwar amcan corfforaethol o gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, yn seiliedig ar ystod o feini prawf. Defnyddiwyd y ganran wedi'i nodi a briodolwyd i economaidd i bennu gwerth ymhlyg coed a ddsberthir fel ased biolegol. Os bydd tir yn cael ei gaffael neu ei waredu, gan greu cyfanswm newid mewn tirdaliad o ddeg y cant neu y byddai fel arall o bwys mewn perthynas â'r dadansoddiad, byddai adolygiad dros dro'n cael ei gynnal.

Nid oedd unrhyw newid yn y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

### 1.20.5 Croniad ar gyfer cost gwyliau nas cymerwyd.

Cafwyd yr amcangyfrif o gost gwyliau nas cymerwyd ar 31 Mawrth 2014 trwy gyfrifo gwerth gwyliau nas cymerwyd ar gyfer sampl o staff a grosio'r gwerth hwnnw i fyny o ffigur cyfwerth ag amser llawn y sampl i'r ffigur cyfwerth ac amser llawn ar gyfer yr holl staff a gyflogir ar 31 Mawrth 2014. Gwnaed hyn ar wahân ar gyfer staff a gyflogir o dan y tri o'r amodau a thelerau blaenorol a chydgrynhowyd y canlyniadau i roi ffigur ar gyfer holl staff Cyfoeth Naturiol Cymru.



## 1.21 Ardaloedd Draenio Mewnol

Mae un ar ddeg o Ardaloedd Draenio Mewnol (IDD) yng Ngogledd-orllewin Cymru. Ariennir y gwaith a wneir ym mhob IDD gan gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar ddeiliaid tir amaethyddol (e.e. ffermwyr) ac ardollau arbennig a delir gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â thir nad yw'n amaethyddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu fel y Bwrdd Draenio Mewnol ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Mae'n ofyniad ar Gyfoeth Naturiol Cymru (yn unol ag adran 40 Deddf Draenio Tir 1991) i bennu cyfraddau draenio, ac yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau'r Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 i gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Pennwyd y cyfraddau draenio, ardollau a phraeseptau arbennig ar gyfer 2013/14 gan Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Chwefror 2013. Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am hyn bellach. Yn 2013/14, y swm a godwyd trwy ardollau arbennig oedd £100k, a £52k o gyfraddau draenio.

Y cyfanswm gwariant a gafwyd ar yr IDD hyn yn 2013/14 oedd £148k, ac mae'r balans a ddygwyd ymlaen i 2014/15 yn warged o £17k.

## 1.22 Treth ar werth

Dosberthir Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff y mae adran 33 Deddf Treth ar Werth 1994 yn berthnasol iddo. Gan hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â busnes, ond mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig.

Ym mhob achos y codir treth allosod, neu mae treth fewnbwn yn adferadwy, datganir y symiau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifol hyn net o TAW.

## 1.23 Mabwysiadu dehongliadau IFRS neu FReM newydd a diwygiedig

### IFRS

Mae IAS 8 yn gofyn am ddatgeliadau mewn perthynas ag IFRS newydd, diwygiadau a dehongliadau sydd yn, neu a fydd yn, berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Mae nifer o IFRS, diwygiadau a dehongliadau sydd wedi'u cyhoeddi gan Fwrdd y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) sy'n effeithiol ar gyfer cyfnodau adrodd y dyfodol. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu unrhyw safonau IFRS yn gynnar.

### FReM

Bob blwyddyn mae Trysorlys EM yn cyhoeddi FReM newydd sy'n dehongli IFRS ar gyfer y sector cyhoeddus. Nid oes unrhyw newidiadau a fydd yn effeithio ar Gyfoeth Naturiol Cymru.

## 2. Dadansoddiad o wariant net fesul segment

	Gweithrediadau'r Gogledd	Gweithrediadau'r De	Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio	Gwasanaethau Cenedlaethol	Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl	Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol	Prif Weithredwr, Llywodraethu a Chyfathrebu	Trosglwyddo	Rheolir yn ganolog	ganolog Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddir fesul segment</b>										
Gwariant	23,898	33,175	28,794	48,046	7,752	32,390	4,229	3,018	17,647	198,949
Incwm	(3,172)	(1,152)	(2,004)	(19,958)	0	0	0	0	(42,416)	(68,702)
	20,726	32,023	26,790	28,088	7,752	32,390	4,229	3,018	(24,769)	130,247
Gwariant cyfalaf	551	101	1,588	1,380		2,599	0	6,721	0	12,940

### Ffactorau

Y ffactorau a ddefnyddir i adrodd am segmentau yw sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi blaenoriaethu ei benderfyniadau rheoli a chyllidebu. Priodolwyd yr incwm a gwariant a ddangosir uchod yn uniongyrchol i'r segmentau

### Disgrifiad o'r segmentau

Gweithrediadau'r Gogledd	Yn cyflwyno dibenion a dyheadau statudol, ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn saith sir Gogledd Cymru, Ceredigion ac ardaloedd Sir Drefaldwyn a Sir Faesyfed ym Mhowys.
Gweithrediadau'r De	Yn cyflwyno dibenion a dyheadau statudol, ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn siroedd De Cymru, Ceredigion ac ardal Frycheiniog ym Mhowys.
Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio	Yn rheoli swyddogaethau amgylcheddol, gofodol a chynllunio busnes Cyfoeth Naturiol Cymru.
Gwasanaethau Cenedlaethol	Yn cyflwyno ystod o wasanaethau ar gyfer Cymru gyfan. Maent yn cynnwys rheoli llyfogydd a risgiau arfordirol, rheoli rhaglenni cyfalaf, cynhaeafu coedwigaeth a'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid.
Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol	Yn darparu datblygu sefydliadol a rheoli adnoddau staff
Prif Weithredwr, Llywodraethu a Chyfathrebu	Yn darparu cefnogaeth ariannol a chaffael. Yn rheoli adeiladau a cherbydau Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyflwyno gwasanaethau 'busnes fel arfer' TG.
Trosglwyddo	Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd a fe sy'n gyfrifol yn bersonol am stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus o dan ei ofal, am weithrediadau a rheolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ddydd i ddydd. Mae Llywodraethu a Chyfathrebu'n darparu ac yn cyflwyno gwasanaethau cyfreithiol; cynllunio, perfformio ac adrodd; archwilio a risg, sicrwydd ac ysgrifenyddiaeth a llywodraethu gwybodaeth. Mae'r Tim Cyfathrebu'n darparu gwasanaeth cyfathrebu a marchnata integredig. Yn cyflwyno'r rhaglenni trawsnewidiol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn i ni fod yn hunangynhaliol.
Rheolir yn ganolog	Incwm a gwariant a reolir yn ganolog nad yw wedi'i ddyrannu i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys incwm o gynllun taliadau, dibrisio, llyfrwerth torri coed, cronïadau diwedd bliwyddyn ar gyfer darpariaethau ac incwm gohinedig, etc..

### 3. Nifer y staff a chostau cysylltiedig

#### 3.1 Costau staff

	2013/14		
	£'000	£'000	£'000
	Staff Parhaol	Staff Arall	Cyfanswm
Tâl a chyflogau	57,429	4,917	62,346
Costau nawdd cymdeithasol	4,380	397	4,777
Costau pensiwn eraill	8,582	1,150	9,732
<b>Cyfanswm cost cyflogau net</b>	<b>70,391</b>	<b>6,464</b>	<b>76,855</b>
<b>Gwariant arall ar staff</b>			
Costau pecynnau ymadael			5,138
Tâl gwasanaeth ychwanegol IAS 19 (Pensiynau)			5,955
Llai costau pensiwn ymddeol yn gynnar			(601)
Llai cyfraniadau pensiwn LGPS o fewn y flwyddyn			(4,832)
Trosglwyddo i ddarpariaeth ar gyfer Taliadau Digolledu			32
Costau Staff Eraill			39
Symudiad mewn Tâl Gwyliau Cronedig			(278)
<b>Cyfanswm gwariant arall ar staff</b>			<b>5,453</b>
Llai symiau a godir ar brosiectau cyfalaf			(2,058)
<b>Cyfanswm costau staff</b>			<b>80,250</b>

Gellir dod o hyd i fanylion trefniadau pensiwn Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodyn 21.

Mae manylion tâl cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd a Chyfarwyddwyr yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth.

#### 3.2 Nifer cyfartalog y bobl a gyflogir

Mae nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2013/14		
	Staff Parhaol	Staff Eraill	Cyfanswm
	Nifer	Nifer	Nifer
Cyflogaeth uniongyrchol	1,841	132	1,973
Staff a chontractwyr asiantaeth	0	37	37
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,841</b>	<b>169</b>	<b>2,010</b>

Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 58.

### 3.3 Cynlluniau digolledu - pecynnau ymadael

Band costau pecynnau ymadael	Diswyddiadau Gorfodol	Ymadawiadau cytunedig eraill	Cyfanswm pecynnau ymadael
	Nifer	Nifer	Nifer
Dan 10,000	0	5	5
£10,001 - £25,000	0	31	31
£25,001 - £50,000	0	51	51
£50,001 - £100,000	0	37	37
£100,001 - £150,000	0	2	2
Dros 150,000 oed	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>126</b>	<b>126</b>
<b>Cyfanswm cost adnoddau</b>			<b>5,138</b>

Mae'r costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu'n unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.

Cyfrifyddir ar gyfer costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn y cytunir arnynt.

Pan fydd cyrff blaenorol wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, cyfrifyddwyd am y costau'n llawn yn y flwyddyn y cytunwyd arnynt, a gwnaed darpariaeth ar gyfer ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir y Taliadau Digolledu Blyneddol a wnaed mewn perthynas â'r pecynnau ymadael hyn mewn blyneddol blaenorol yn Nodyn 15 (Darpariaethau).

Telir costau ymddeol oherwydd salwch gan y cynlluniau pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

### 3.4 Cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr ond, fel cyflogwyr eraill, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru adnabod ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau gwaelodol. Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r cynllun Ar 31 Mawrth 2007. Gallwch ddod o hyd i fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil ([www.civilservice.gov.uk/pensions](http://www.civilservice.gov.uk/pensions)).

Yn ystod y cyfnod, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £4,876k yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7% i 24.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, bob pedair blynedd fel arfer, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae cyfraddau cyfraniadau wedi'u pennu i dalu costau buddion sy'n cronni yn ystod 2013/14 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogwyr ddewis agor cynllun pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £22k i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau budd-ddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3% i 12.5% o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn darparu cyfraniadau cyfatebol hyd at 3% o dâl pensiynadwy. Yn ogystal â hynny, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £2k, 0.8% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen nac unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalau ar y dyddiad hwnnw.

### 3.5 Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), fel Corff Gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) trwy Capita, gweinyddwyr y cynllun pensiwn.

Mae LGPS yn gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus buddion diffiniedig statudol wedi'i ariannu. Mae Hymans Robertson, actiwari EAPF, yn cyflawni gwerthusiad teirblwydd o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa er mwyn sicrhau bod asedau LGPS yn cael eu hariannu'n briodol. Mae asedau'r Gronfa ar gyfer cwrdd â rhwymedigaethau pensiwn y dyfodol. Prif ddiben y gwerthusiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y Gronfa a phennu lefel cyfraniadau'r dyfodol ar gyfer cyflogwyr yn y Gronfa. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2013 ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2017.

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru Gytundeb Derbyn Cymunedol gydag EAPF er mwyn cymryd rhan yn LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd a drosglwyddodd i Gyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Trosglwyddodd rhwymedigaethau aelodau blaenorol a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â swyddogaethau Cymru (pensiynau sy'n cael eu talu ac aelodau gohiriedig) hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwarant gydag EAPF i'w hindemnio ar gyfer unrhyw rwymedigaethau sy'n deillio o gyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn EAPF. Rhedir y cynllun ar sail 'gaeedig' ac nid yw ar gael i staff sy'n ymuno â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Ar gyfer 2013/14 roedd cyfraniad y cyflogwr yn 13%. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £4,832k i LGPS.

## 4. Gwaith cyfalaf y gwariwyd arno yn y flwyddyn

Categoriâu	2013/14	31 Mawrth 2014
	Gwirioneddol £'000	Wedi ymrwymo £'000
Strategaethau rheoli risg llifogydd	8,462	808
Adfer ac adnewyddu	2,868	649
Argloddiau	2,961	1,068
Grantiau cyfalaf	2,424	1,390
Cwlferi a gwelliannau sianelau	216	34
Pyst sylfaen	166	8
Mapio llifogydd	155	27
Arall	1,742	111
<b>Cyfanswm</b>	<b>18,994</b>	<b>4,095</b>

### Disgrifiad o'r categori

#### Strategaethau rheoli risg llifogydd

Datblygir strategaethau i ddarparu opsiynau risg llifogydd hir dymor i gynnwys ardal fawr. Datblygir prosiectau risg llifogydd unigol o'r strategaethau hir dymor.

#### Adfer ac adnewyddu

Mae hyn yn ymwneud â gwneud gwaith i sicrhau bod amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei gynnal mewn cyflwr priodol a'u hadfer i'r cyflwr hwnnw fel y bo angen.

#### Argloddiau

Mae cyfran sylweddol o brosiectau'n ymwneud â chreu, gwella neu godi argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr i leihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc rhag sianel yr afon.

#### Grantiau cyfalaf

Grantiau yw'r rhain, i Awdurdodau Lleol yn bennaf, sy'n ariannu gwaith o natur gyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordirol Cymru, y Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy, a hefyd grantiau i helpu gyda phrynu tir. Roedd £896k o'r grantiau hyn yn grantiau cyfalaf yr UE.

#### Cwlferi a gwelliannau sianelau

Mae hyn yn ymwneud â gwaith ar atgyweirio neu newid cwlferi o dan dir, ffyrdd a chyrsiau dŵr a gwella sianelau sy'n cynorthwyo llif y dŵr.

#### Pyst sylfaen

Mae hyn yn ymwneud â gosod pyst sylfaen (dur fel arfer) ar hyd glannau afonydd i'w cryfhau a sicrhau'r tir cyfagos, ac atal tirlithriadau i'r afon, gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn o dan y ddaear yn bennaf. Ar ôl eu gosod nid oes unrhyw fudd parhaus ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### Mapio llifogydd

Mapio llifogydd yw cynhyrchu mapiau gyda haenau lluosog sy'n darparu gwybodaeth am llifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr yng Nghymru. Hefyd, mae mapiau llifogydd yn darparu gwybodaeth am amddiffynfeydd llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd llifogydd hyn.

#### Arall

Mae costau eraill yn cynnwys paratoi Cynlluniau Rheoli Lefelau Dŵr a Chynlluniau Rheoli Dalgylch Llifogydd, lociau a gwelliannau dyfrffordd eraill, amnewid cyfarpar telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod.

## 5. Gwariant arall

Mae gwariant arall yn cynnwys y categorïau cost a ganlyn.

hyd at 31 Mawrth 2014  
£'000

### Eitemau ariannol

Gwasanaethau a rennir	15,494
Grantiau a chytundebau partneriaeth	9,064
Amddiffyn planhigion, cynefinoedd a rhywogaethau	7,229
Cynaeafu, marchnata ac ailstocio pren	6,783
Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr	6,484
Costau adeiladu	4,867
Trafnidiaeth a pheiriannau	4,825
Prosiectau gweithredol	4,260
Technoleg gwybodaeth	3,947
Ffyrdd coedwig	2,787
Grantiau'r UE i drydydd partion	2,530
Rhent prydlesi gweithredol	2,329
Ynni Adnewyddadwy	2,061
Gweinyddu	1,859
Treuliau teithio a byw	1,737
Contractwyr	1,539
Monitro a chwain tystiolaeth	1,139
Ffioedd a chomisiynau	1,073
Cynnwys y cyhoedd	1,035
Nwyddau traul a deunyddiau	958
Hyfforddiant	777
Cyfleustodau	719
Costau eraill y rhaglen goedwigaeth	337
Archwiliadau statudol	159
Taliadau llog	116
Colledion a diddymiadau	10

**Isgyfanswm** 84,118

### Gwariant anariannol

Gwerth coed a dorrwyd	6,976
Dibrisio, amorteiddio a lleihad	6,931
Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyled	652
Symudiad mewn darpariaethau eraill	1,054
Eiwr wrth werthu asedau	(26)

**Isgyfanswm** 15,587

**Cyfanswm** 99,705

### 5.1 Tâl cydnabyddiaeth yr archwilydd

Y ffi ar gyfer archwiliad statudol cyfrifon 2013/14 yw £159k.

### 5.2 Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr

Mae gwariant o dan gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr yn cynnwys dwy gydran. Y gydran gyntaf a lleiaf yw ad-dalu costau net gweithredu cronfeydd penodol i gwmnïau dŵr, ar ôl didynnu unrhyw incwm a gynhyrchir o drydan dŵr. Mae'r ail elfen yn cynrychioli taliadau blynyddol a bennwyd ar adeg y cytundebau cysylltiedig (yn gyffredinol ym 1989 wrth i'r cwmnïau dŵr gael eu preifateiddio) fel digollediad ar gyfer elw ar asedau cronfa dŵr ac wedi'u mynegeo'n flynyddol gan RPI.

### 5.3 Colledion a thaliadau arbennig

O dan reolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol datgelu colledion a thaliadau arbennig fesul categori, math a gwerth pan fyddant yn fwy na chyfanswm o £300,000 ac ar gyfer unrhyw eitemau unigol uwchben £300,000. Roedd y cyfanswm colledion a thaliadau arbennig yn llai na £300,000 yn 2013/14.



## 6. Dadansoddiad o incwm

	<b>2013/14</b>
	<b>£'000</b>
Taliadau tynnu dŵr	19,379
Trwyddedau pysgota	1,566
Ansawdd dŵr EPR	7,015
Gosodiadau EPR	2,912
Gwastraff EPR	2,348
Gwastraff peryglus	1,013
Masnachu allyriadau ac ymrwymiad gostwng carbon	302
Rheoleiddio niwclear	568
Trwyddedu morol	412
Taliadau diogelu amgylcheddol eraill	220
<b>Incwm o ffioedd a thaliadau</b>	<b>35,734</b>
Incwm o bren	12,985
Incwm o ynni adnewyddadwy	4,750
Incwm o ystadau	2,173
Darparu gwybodaeth/gwasanaethau	1,205
Incwm grant	906
Praeseptau bwrdd draenio mewnol	348
Incwm o labordai	294
Costau cyfreithiol a adenillwyd	412
Incwm o'r Ddeddf Enillion Troseddau	54
Caniatâdau risg llifogydd	17
Mân incwm	60
<b>Incwm o weithgareddau</b>	<b>58,938</b>
Incwm o'r UE+	6,200
Incwm o'r UE ar ran trydydd partïon	3,426
Derbynebaw yswiriant	129
Llog a dderbyniwyd	9
<b>Incwm arall</b>	<b>9,764</b>
<b>Cyfanswm incwm</b>	<b>68,702</b>

EPR = Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

+ Gan gynnwys incwm a hawliwyd trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) neu o Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan Ewrop.

## 6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

	Incwm a godwyd	Gwariant	Gwarged/ (Diffyg)
	£'000	£'000	£'000
Taliadau tynnu dŵr	19,583	19,379	204
Trwyddedau pysgota	1,566	1,220	346
Ansawdd dŵr EPR	6,524	7,015	(491)
Gosodiadau EPR	2,556	2,912	(356)
Gwastraff EPR	2,583	2,348	235
Gwastraff peryglus	1,052	1,013	39
Masnachu allyriadau ac ymrwymiad gostwng carbon	299	302	(3)
Rheoleiddio niwclear	809	568	241
Trwyddedau Morol	412	545	(133)
Taliadau diogelu amgylcheddol eraill	812	220	592
<b>Cyfanswm</b>	<b>36,196</b>	<b>35,522</b>	<b>674</b>

Mae'r tabl isod yn ymwneud â'n hincwm ffioedd a thaliadau ac yn cael ei ddangos yn unol â'n polisi cyfrifyddu ar gyfer incwm gohiriedig a chonedig yn nodyn 1.13.

Mae costau a ariannwyd gan Gymorth Grant wedi'u heithrio o'r tabl uchod, ar wahân i drwyddedau pysgota lle mae'r gost net ar ôl taliadau wedi'i ariannu gan Gymorth Grant. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19 gan nad yw'r costau/buddion hyn yn cael eu trosglwyddo i'r sawl sy'n talu'r taliadau. Yr amcan ariannol ar gyfer y cynlluniau uchod yw adennill costau llawn gan gymryd un flwyddyn gyda'r llall, yn seiliedig ar yr holl gostau gan gynnwys dibrisio costau cyfredol a chyfradd adennill ar asedau perthnasol a chostau tybiannol eraill pan fo'n briodol.

Mae gweithgareddau allweddol pob maes wedi'u rhestru isod:

### Adnoddau Dŵr

- Taliadau tynnu dŵr - codi tâl ar gyfer busnesau sy'n tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear, mae'r incwm a adroddir yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.

### Yr Amgylchedd a busnes

- Trwyddedau pysgota - codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota
- Ansawdd dŵr EPR - codi tâl am ollyngiadau (CFD) o fusnesau i'r amgylchedd.
- Gosodiadau EPR - caniatâdau i reoli ac isafu llygredd o weithgareddau diwydiannol.
- Gwastraff EPR - caniatâdau ar gyfer rheoli gwastraff ac eithriadau.
- Gwastraff peryglus - trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Masnachu allyriadau ac ymrwymiad lleihau carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear - rheoleiddio safleoedd niwclear a'r rhai nad ydynt yn niwclear, ac adeiladu safleoedd
- Trwyddedau morol - codi tâl ar unigolion ar gyfer trwyddedau badau.
- Mesurau diogelu amgylcheddol eraill - trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludiad ar draws ffiniau ar longau, trwyddedu cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer Cyfarpar Electronig a Thrydanol Gwastraff (WEEE), cerbydau diwedd bywyd, deuffenylau polychlorinedig a rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau megis Rheoli Perygl Damweiniau Mawr (COMAH).

## 7. Asedau diriaethol anghyfredol

### 7.1 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar (PPE)

	Ystâd Goedwigoedd	Tir Arall	Adeiladau	Peiriannau a Pheirianwait h	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau Gweithredol	Asedau sy'n Cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>								
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	0	0	0	0	0	0	0	0
Trosglwyddo asedau	440,126	42,383	15,901	25,595	4,089	47,863	7,214	583,171
Addasiad i'r balans a drosglwyddwyd	0	(225)	(965)	(895)	0	0	0	(2,085)
Cysoni polisiau	0	0	0	(533)	(1,212)	(7)	0	(1,752)
Ychwanegiadau	75	0	25	416	1,010	118	9,369	11,013
Asedau a gomisiynwyd yn y flwyddyn	0	78	1,665	567	0	2,872	(5,182)	0
Gwarediadau	0	0	0	(2,085)	(525)	0	0	(2,610)
Aiddosbarthwyd fel Delir ar Werth	(12)	(64)	(403)	0	0	0	0	(479)
Torri Coed	(5,132)	0	0	0	0	0	0	(5,132)
Ailbriso i'r gwarged	60,055	(2,730)	2,674	177	5	2,013	0	62,194
Mynegeio (SoCNE)	0	0	0	0	(40)	0	0	(40)
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>495,112</b>	<b>39,442</b>	<b>18,897</b>	<b>23,242</b>	<b>3,327</b>	<b>52,859</b>	<b>11,401</b>	<b>644,280</b>
<b>Dibrisio</b>								
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	0	0	0	0	0	0	0	0
Trosglwyddo asedau	0	11	3,456	15,060	3,411	9,389	0	31,327
Addasiad i'r balans a drosglwyddwyd	0	(12)	(235)	(535)	0	0	0	(782)
Cysoni polisiau	0	0	0	(490)	(1,054)	0	0	(1,544)
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	0	0	729	2,664	441	2,224	0	6,058
Gwarediadau	0	0	0	(1,800)	(521)	0	0	(2,321)
Aiddosbarthwyd fel Delir ar Werth	0	0	(279)	0	0	0	0	(279)
Gwrthdroi Lleihad wrth Waredu	0	0	0	(115)	0	0	0	(115)
Ailbriso i'r gwarged	0	1	189	27	4	894	0	1,115
Mynegeio (SoCNE)	0	0	297	2	(24)	0	0	423
Lleihad	0	0	0	7	0	0	0	7
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>4,157</b>	<b>14,820</b>	<b>2,257</b>	<b>12,507</b>	<b>0</b>	<b>33,741</b>
<b>Swm cario ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Swm cario ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>495,112</b>	<b>39,442</b>	<b>14,740</b>	<b>8,422</b>	<b>1,070</b>	<b>40,352</b>	<b>11,401</b>	<b>610,539</b>
<b>Cyllido Asedau</b>								
Eiddo	495,112	39,442	14,740	7,190	1,070	40,352	11,401	609,307
Wedi'u prydlesu	0	0	0	1,232	0	0	0	1,232
<b>Swm cario ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>495,112</b>	<b>39,442</b>	<b>14,740</b>	<b>8,422</b>	<b>1,070</b>	<b>40,352</b>	<b>11,401</b>	<b>610,539</b>

## 7.2 Asedau treftadaeth

	£'000
<b>Cost</b>	
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	0
Trosglwyddo asedau	6,414
Ychwanegiadau	18
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	6,432
<b>Swm cario ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>
<b>Swm cario ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>6,432</b>
<b>Cyllido Asedau</b>	
Eiddo	6,432
<b>Swm cario ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>6,432</b>

Mae tir sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a ddelir i gefnogi cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o amgylchedd Naturiol Cymru wedi'i ddsbarthu'n asedau treftadaeth anweithredol. Delir y tir hwn ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cynaliadwy y cyhoedd. O dan y dehongliad FReM o IAS 16 (Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar), cyfalafwyr yr asedau hyn ar gost. Dangosir ein polisi cyfrifyddu ar asedau treftadaeth yn Nodyn 1.7.1

Ar 31 Mawrth 2014 mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru 76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) a 1 Warchodfa Naturiol Forol (MNR) wedi'u datgan o dan nifer o gategoriâu: Mae 41 NNR wedi'u rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru; rheolir 19 gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth; rheolir 16 pellach gan drydydd partion. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru 9 tirddaliad nad ydynt yn NNR hefyd (rhai sydd eto i'w datgan).

Yn 2013/14 Cyfoeth Naturiol Cymru oedd y corff cyfrifol am ddatgan NNR yng Nghymru. Gellir datgan NNR mewn tair ffordd (gallant oll fod yn berthnasol i unrhyw NNR penodol):

1. Gall tir sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru neu wedi'i brydlesu ganddo gael ei ddatgan o dan Adran 19 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad, 1949.
2. Trwy gytundeb gyda pherchennog, prydlesai neu ddeiliad y tir - Cytundeb Adran 16 neu Gytundeb Gwarchodfa Natur (NRA).
3. O dan Adran 35(1) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981 (fel y diwygiwyd, 1985) sy'n caniatáu i dir sy'n eiddo i gyrff cymeradwy eraill ac a reolir fel gwarchodfa natur ganddynt gael ei datgan yn NNR, heb yr angen am NRA.

**31 Mawrth 2014**  
**Hectarau**

GNC/GNM wedi'u datgan	
Eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru	10,416
Wedi'u prydlesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru	7,463
Cytundebau Adran 16	11,096
Cytundebau Adran 35	2,882
<b>Cyfanswm</b>	<b>31,857</b>

**Tirddaliadau/safleoedd nad ydynt yn NNR heb eu datgan:**

Eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru	491
Wedi'u prydlesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru	32
<b>Cyfanswm</b>	<b>523</b>

Yn ystod y flwyddyn prynwyd 1 hecтар o dir heb ei ddatgan am gost o £15k ynghyd â ffioedd. Ni ddatganwyd unrhyw dir heb ei ddatgan.

**Polisi Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer caffael, cadw, rheoli a gwaredu asedau treftadaeth.**

**Caffael**

Os a phryd y bydd darnau cyfan neu rannol o NNR wedi'u datgan ar gael i'w prynu, bydd bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried manteision prynu ac/neu yn annog partneriaid/cyrff cymeradwy eraill i wneud hynny, a gall gynnig cymorth ar ffurf grantiau.

**Cadw/rheoli**

Rheoli pob NNR yn unol â chynllun rheoli cymeradwy, sy'n cynnwys amcanion cadwraeth o'r holl nodweddion o ddiddordeb cydnabyddedig ac yn adnabod prosiectau a rhaglenni gwaith angenrheidiol. Adolygir y cynlluniau'n achlysurol ac adolygir gweithrediad angenrheidiol y gwaith a adnabuwyd mewn cynlluniau a adnabuwyd gan Dîm Cynllunio Safleoedd Dynodedig a Mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru trwy raglen dreigl o farnau/archwiliadau amgylcheddol.

**Gwaredu**

Cyflawnir adolygiad llawn o'r gyfres NNR yng Nghymru bob pum mlynedd o leiaf i sicrhau bod pob gwarchodfa'n parhau i wneud cyfraniad sylweddol at weledigaeth gorfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y gyfres NNR. Pan fyddant yn methu â gwneud hynny, bydd rhwymedïau angenrheidiol yn cael eu hadnabod a/neu bydd argymhelliad yn cael ei wneud i reolwyr bod NNR benodol yn cael ei dad-ddatgan.

**Mynediad**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar bolisi mynediad cytunedig ar gyfer NNR sy'n anelu at annog defnydd cyhoeddus cynaliadwy.

## Bydd y polisiau canlynol yn cael eu cymhwyso i'r holl NNR y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n eu rheoli:

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n datgan yr holl dir o dan berchnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a, phryd bynnag y bydd yn bosib, tir o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, fel tir 'penodedig' o dan y Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad (CRoW).

- Ym mhob achos bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymgynghori â chymunedau lleol a budd-ddeiliaid eraill cyn bwrw 'mlaen gyda gwneud tir yn benodedig.
- Ar gyfer tir o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft ar ffurf prydles neu gytundebau, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymgynghori â'r holl berchnogion a deiliaid ac yn ceisio eu cydsyniad llawn cyn bwrw 'mlaen gyda gwneud tir yn benodedig.
- Pryd bynnag y bydd angen, bydd cyfyngiadau ar fynediad yn cael eu cymhwyso i safleoedd, neu rannau o safleoedd, pan fydd y cyfryw gyfyngiadau'n hanfodol ar gyfer diogelu'r nodweddion cadwraeth.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n annog defnydd cyhoeddus cynaliadwy o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yng Nghymru cyhyd â bod y cyfryw ddefnydd:

- Yn gweddu i ddyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal a chadw neu adfer nodweddion cadwraeth natur a daearegol yn unol â Statws Cadwraeth Ffatriol
- Yn peidio â gadael ymwelwyr â staff, gan gynnwys contractwyr, yn agored i unrhyw beryglon sylweddol

Caniateir yr holl weithgareddau dilys a chyfreithlon cyhyd â bod y gweithgareddau hyn:

- Yn gweddu i ddyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal a chadw neu adfer nodweddion cadwraeth natur a daearegol yn unol â Statws Cadwraeth Ffatriol
- Yn peidio â gadael ymwelwyr â staff, gan gynnwys contractwyr, yn agored i unrhyw beryglon sylweddol
- Yn peidio â lleihau mwynhad ymwelwyr eraill â'r safle

### 7.3 Asedau Biolegol

Yr asedau biolegol anghyfredol yw pren.

Disgrifir polisi ailbrizio Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer asedau biolegol yn Nodyn 1.7 uchod. Cyflawnwyd dosraniad y coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau a chyfarpar gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio'r barnau a'r amcangyfrifon a amlinellwyd yn Nodyn 1.7.2.

Roedd y symudiadau yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

	<b>£'000</b>
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>
Trosglwyddo Asedau	79,589
Torri coed	(1,844)
Trosglwyddo i asedau anghyfredol a ddelir ar gyfer gwerthu	(2)
Enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau mewn gwerthoedd teg	22,308
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>100,051</b>

## 8. Asedau anniriaethol

	Trwydde dau Meddalwedd £'000	Trwyddedau Eraill £'000	Gwariant ar Ddatblygu Meddalwedd £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Cyfanswm £'000
<b>Cost neu brisiad</b>					
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	0	0	0	0	0
Trosglwyddo asedau	2,678	2,505	4,965	126	9,974
Addasiad i'r balans a drosglwyddwyd	9	0	0	0	9
Cysoni polisïau	(104)	(190)	0	0	(294)
Ychwanegiadau	89	33	0	1,787	1,909
Asedau a gomisiynwyd yn y flwyddyn	68	0	44	(112)	0
Gwarediadau	(53)	0	0	0	(53)
Mynegeio (SoCNE)	(48)	(3)	(3)	0	(54)
Cronfa ailbriso	(31)	0	(203)	0	(234)
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>2,608</b>	<b>2,045</b>	<b>4,803</b>	<b>1,801</b>	<b>11,257</b>
<b>Amorteiddio</b>					
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	0	0	0	0	0
Trosglwyddo asedau	1,922	0	1,981	0	3,903
Addasiad i'r balans a drosglwyddwyd	8	0	1	0	9
Cysoni polisïau	(103)	0	0	0	(103)
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	312	0	554	0	866
Gwarediadau	(53)	0	0	0	(53)
Mynegeio (SoCNE)	(25)	0	0	0	(25)
Cronfa ailbriso	(23)	0	(44)	0	(67)
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>2,038</b>	<b>0</b>	<b>2,492</b>	<b>0</b>	<b>4,530</b>
<b>Swm Cario ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Swm Cario ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>570</b>	<b>2,045</b>	<b>2,311</b>	<b>1,801</b>	<b>6,727</b>
<b>Cyllido Asedau</b>					
Eiddo	570	2,045	2,311	1,801	6,727
<b>Swm Cario ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>570</b>	<b>2,045</b>	<b>2,311</b>	<b>1,801</b>	<b>6,727</b>

## 9. Asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau

### 9.1 Asedau ariannol ar-gael-i'w-gwerthu

	£'000
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>
Trosglwyddo asedau	260
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>260</b>

Yr asedau ariannol ar-gael-i'w-gwerthu yw cyfran 20% CNC o werth yr asedau eiddo a ddelir gan Forest Holidays LLP ar gyfer Gwersyllfa Beddgelert yn Eryri.

### 9.2 Rhwymedigaeth ariannol

#### 9.2.1 Prydles weithredol.

Creïr rhwymedigaeth ariannol pan fydd taliadau a wneir o dan brydles weithredol yn cael eu haddasu i sail linol dros gyfnod y brydles.

	£'000
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>
Trosglwyddo rhwymedigaeth ariannol	68
Rhwymedigaeth ariannol ychwanegol yn ystod 2013/14	30
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>98</b>

#### 9.2.2 Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr

Ym 1989 ymgymerodd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol â nifer o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gyda cwmnïau dŵr, o dan adran 126 Deddf Dŵr 1989, wedi'i haildeddfu gan adran 20 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys 2 gydran ariannol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â thalu'r cwmnïau dŵr am gostau gweithredu'r cronfeydd dŵr, net o incwm a gynhyrchwyd ganddynt gan y cwmnïau, megis ar ffurf trydan dŵr. Roedd yr ail ar gyfer taliadau sefydlog, wedi'u mynegeio i fyny bob blwyddyn yn seiliedig ar y mynegai pris manwerthu, sy'n daladwy yn fytholbarhaus. Cyd-drafodwyd telerau'r cytundebau hyn rhwng Llywodraeth EM a'r cwmnïau dŵr ac fe'u gwnaed er mwyn i breifateiddio ddigwydd.

Ym 1996 trosglwyddwyd y rhwymedigaethau o dan y cytundebau hyn i Asiantaeth yr Amgylchedd, ac ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd rhwymedigaethau Dŵr Cymru Welsh Water i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfrifir am y gydran sefydlog sy'n daladwy i Ddŵr Cymru Welsh Water fel rhwymedigaeth ariannol. Mae'r rhwymedigaeth ariannol yn cynrychioli rhwymedigaeth gytundebol Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cwmni dŵr. Mae cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, gan gynnwys yr elfennau sy'n achosi'r rhwymedigaethau ariannol hyn, yn adferadwy o dan ddeddfwriaeth trwy drwyddedau tynnu adnoddau dŵr. Mae Dŵr Cymru Welsh Water, sy'n derbyn taliadau am weithredu cronfeydd dŵr, yn talu'r rhan fwyaf o'r taliadau ar gyfer dŵr hefyd

	£'000
<b>Ar 19 Gorffennaf 2012</b>	<b>0</b>
Trosglwyddo rhwymedigaeth ariannol	39,844
<b>Ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>39,844</b>

Talwyd £5,072k i Ddŵr Cymru Welsh Water yn ystod 2013/14.

Mae'r rhwymedigaethau wedi'u mesur fel bytholbarhad ar werth telerau go iawn yn ôl y cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gwaelodol. Mae'r disgownt a gymhwyswyd yn adlewyrchu'r gost cyfle i'r trethdalwr o ymgymryd â'r cytundeb a rhwymedigaeth o'i gymharu â chyfleoedd buddsoddi eraill.

Gan i'r rhwymedigaethau gael eu cyfrifo ar sail costau wedi'u hamorteiddio ac fel bytholbarhad, ni fyddant yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio yn yr achos annhebygol y bydd cytundeb yn dod i ben. Daw'r cytundebau, a'r rhwymedigaethau i dalu, i ben dim ond os bydd Dŵr Cymru Welsh Water yn ymatal rhag gweithredu fel yr endid sy'n rheoli'r cronfeydd dŵr.



Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu risg hylifedd, credyd neu gyfraddau llog ar yr offerynnau ariannol hyn.

### **9.3 Offerynnau Ariannol**

Oherwydd natur ei weithgareddau sy'n anfasnachol yn bennaf a'r ffordd y mae cyrff Llywodraeth Cymru'n cael eu hariannu, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored i risg ariannol ar yr un raddfa a wynebir gan lawer o endidau busnes.

#### **Natur a maint y risgiau**

##### **Risg Gredyd**

Y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus. Mae rhai o gwsmeriaid a chymheiriaid Cyfoeth Naturiol Cymru yn fudiadau sector cyhoeddus eraill. Nid oes unrhyw risg gredyd gan y mudiadau hyn. O ran y cwsmeriaid a chymheiriaid hynny nad ydynt yn fudiadau sector cyhoeddus, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau y cedwir y risg gredyd mor fach â phosib.

##### **Risg Hylifedd**

Y posibilrwydd na fydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yr arian ar gael i fodloni ei rwymedigaethau. Bodlonir gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru yn bennaf gan adnoddau y pleidleisir drostynt bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Cytunir ar ofyniad adnoddau wedi'i broffilio gyda Llywodraeth Cymru bob blwyddyn a'i adolygu'n fisol, fel nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

##### **Risg Farchnad**

Nid oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru bwerau i fenthyg neu fuddsoddi gwargedion. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac nid ydynt yn cael eu dal i reoli'r risgiau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

##### **Risg cytundebau hir dymor**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgymryd â chytundebau hir dymor gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chyda'r Undeb Ewropeaidd i gyflwyno prosiectau a ariennir gan yr UE. O dan y cytundebau hyn ni allai Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn atebol i ad-dalu ariannu cytunedig os nad yw Archwilwyr Ewropeaidd yn fodlon ar sut mae'r ariannu wedi'i ddefnyddio. Mae hyn yn berthnasol i waith a gyflawnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a hefyd gan ein partneriaid trydydd sector. Mae systemau a chontractau wedi'u rhoi ar waith fel rhan o broses asesu barhaus i sicrhau bod y risg hon yn cael ei hisafu. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei reoli ac ni ystyrir ei fod yn berthnasol.

##### **Risgiau arian tramor**

Dyma'r risg y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dioddef colledion ariannol oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â nifer bach o drafodion arian tramor ac nid yw'n agored i risgiau cyfnewid sylweddol.

##### **Risg cyfraddau llog**

Dyma'r risg y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dioddef colledion ariannol oherwydd ansefydlogrwydd mewn cyfraddau llog. Mae'r cyfraddau llog sy'n gysylltiedig ag asedau a rhwymedigaethau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru'n sero neu'n sefydlog, felly nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol.

##### **Gwerthoedd teg**

Tybir bod y gwerth cario llai darpariaeth lleihau asedau masnachol i'w derbyn ac i'w talu'n cyfateb yn fras i'w gwerth teg.

## 10. Asedau a ddelir ar gyfer gwerthu

	31 Mawrth 2014 £'000
Tir	77
Adeiladau	124
Asedau biolegol	3
	<b>204</b>

Cyflwynwyd yr asedau uchod, sy'n gysylltiedig ag eiddo dros ben, wedi'u cyflwyno fel rhai a ddelir ar gyfer gwerthu'n dilyn cymeradwyaeth i werthu gan reolwyr CNC. Disgwylir i'r dyddiadau cwblhau gwerthu fod o fewn y deuddeg mis cyn 31 Mawrth 2015.

## 11. Rhestri eiddo

	31 Mawrth 2014 £'000
Stoc pren	411
<b>Cyfanswm</b>	<b>411</b>

## 12. Masnachu ac arian arall a dderbynnir

	31 Mawrth 2014 £'000
<b>O fewn blwyddyn</b>	
Taliadau masnachol	6,082
TAW dderbyniadwy	5,523
Darpariaeth ar gyfer dyledion	(782)
Rhagdaliadau ac incwm	4,461
Incwm	3,112
Adnau	140
Taliadau eraill i'w derbyn	654
<b>Cyfanswm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>	<b>19,190</b>
<b>Mwy na blwyddyn</b>	
Taliadau eraill i'w derbyn	135
<b>Cyfanswm</b>	<b>19,325</b>
<b>Dadansoddiad o daliadau derbyniadwy</b>	
Cyrff Llywodraeth Ganolog	7,694
Awdurdodau Lleol	32
Cyrff y tu allan i Lywodraeth	11,599
<b>Cyfanswm</b>	<b>19,325</b>

### 13. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

	31 Mawrth 2014
	£'000
Balans agoriadol	0
Arian a drosglwyddwyd	10,314
Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	4,797
<b>Balans Cau</b>	<b>15,111</b>
Dalwyd y balansau a ganlyn ar 31 Mawrth	
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	14,520
Banc Barclays	589
Arian mewn llaw	2
<b>Balans Cau</b>	<b>15,111</b>

### 14. Masnachu ac arian arall sy'n daladwy

	31 Mawrth 2014
	£'000
<b>O fewn blwyddyn</b>	
Treth a nawdd cymdeithasol	15
Arian masnachu sy'n daladwy	2,049
Arian masnachu taladwy cronedig	4,378
Incwm gohiriedig	5,298
Incwm UE Gohiriedig	10
Tâl gwyliau	1,683
Prydlesi cyllidol	244
Arian arall sy'n daladwy	892
Adneuon a derbynebaw ymlaen llawn cwsmeriaid	285
<b>Cyfanswm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>	<b>14,854</b>
<b>Mwy na blwyddyn</b>	
Prydlesi cyllidol	935
Masnachu ac arian arall sy'n daladwy	1,923
<b>Cyfanswm sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn</b>	<b>2,858</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,712</b>
<b>Dadansoddiad o arian sy'n daladwy</b>	
Cyrff Llywodraeth Ganolog	3,269
Awdurdodau Lleol	72
Cyrff y tu allan i Lywodraeth	14,371
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,712</b>

## 15. Darpariaethau

31 Mawrth 2014

	Costau Ymadael yn Gynnar £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Balans a drosglwyddwyd i mewn	836	549	1,385
Darpariaeth ychwanegol yn y flwyddyn	13	1,054	1,067
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(243)	(134)	(377)
Cynnydd yn y ddarpariaeth oherwydd cyfradd	5	0	5
Datod y disgownt	14	0	14
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>625</b>	<b>1,469</b>	<b>2,094</b>

	Costau Ymadael yn Gynnar £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
<b>Brasamcan o amseru llifoedd arian disgownt</b>			
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	214	1,469	1,683
Yn ddyledus o fewn un flwyddyn a phum	411	0	411
Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>625</b>	<b>1,469</b>	<b>2,094</b>

Mae darpariaeth ar gyfer taliadau ymadael yn gynnar yn cynnwys taliadau digolledu blynyddol i staff blaenorol a adawodd o dan raglenni ymdddeol yn gynnar cyrff blaenorol. Mae'r taliadau hyn wedi'u mynegeoio gan y mynegai pris defnyddwyr (CPI) ac yn parhau nes bod pob unigol yn cyrraedd oedran pensïnadwy (60). Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gost i Gyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio cyfradd fynegeoio o 2.7%, ac wedi'i disgowntio gan gyfradd ddisgownt Trysorlys EM o 1.8%.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys £972k o gynigion grant i ariannu gwaith i'w gyflawni hyd at 31 Mawrth 2014 na chaiff ei hawlio tan fis Mehefin 2014, £80k ar gyfer dadfeiliadau ar adeiladau amrywiol a ryddheir o dan Strategaeth Llwyth CNC a £237k ar gyfer hawliadau eraill. Disgwylir y caiff y rhain i gyd eu talu o fewn y deuddeg mis nesaf.

Adroddir am gost darpariaeth ychwanegol a newidiadau yn y disgownt ar gyfer y ddarpariaeth costau ymadael yn gynnar yn Nodyn 3.1. Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn Nodyn 5. Mae cyfanswm y darpariaethau yr adroddir amdanynt isod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan rwymedigaethau.

Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer drwgddyledion, a ddangosir hefyd yn Nodyn 5, wedi'i chynnwys yn y cyfanswm darpariaeth ar gyfer drwgddyled yn Nodyn 12 ac wedi'i dangos yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan arian derbyniadwy.

## 16. Ymrwymadau cyfalaf

31 Mawrth 2014

	£'000
<b>Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar</b>	
Peiriannau a pheirianwaith	30
Cyfarpar cludiant	20
Strwythurau gweithredol	480
<b>Cyfanswm</b>	<b>530</b>

<b>Asedau anniriaethol</b>	
Technoleg gwybodaeth - trwyddedau	105
Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd	900
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,005</b>

## 17. Ymrwymïadau o dan brydlesi

### 17.1 Prydlesi gweithredol

Rhoddir y cyfanswm taliadau prydles lleiaf ar gyfer y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau a ganlyn.

	31 Mawrth 2014			
Y rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
Ddim yn hwyrach na blwyddyn	104	1,761	1,215	3,080
Yn hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na phum	342	5,964	1,875	8,181
Yn hwyrach na phum mlynedd	1,665	2,065	0	3,730
<b>Cyfanswm gwerth y rhwymedigaethau</b>	<b>2,111</b>	<b>9,790</b>	<b>3,090</b>	<b>14,991</b>

### 17.2 Prydlesi cyllidol

	31 Mawrth 2014		
Y rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidol yw:	Tir £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
Ddim yn hwyrach na blwyddyn	13	232	245
Yn hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na phum	38	688	726
Yn hwyrach na phum mlynedd	209	0	209
<b>Cyfanswm gwerth y rhwymedigaethau</b>	<b>260</b>	<b>920</b>	<b>1,180</b>

## 18. Ymrwymïadau ariannol eraill

Mae CNC wedi ymgymryd â chytundebau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi na chytundebau Menter Cyllid Cyhoeddus (PFI)) ar gyfer y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru, grantiau, pwrnasiadau, a chytundebau rheoli. Y cyfanswm taliadau y mae CNC yn ymrwymedig iddynt ar 31 Mawrth 2014 yw:

	31 Mawrth 2014 £'000
Ddim yn hwyrach na blwyddyn	35,769
Yn hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na phum	5,940
Yn hwyrach na phum mlynedd	833
<b>Cyfanswm</b>	<b>42,542</b>

## 19. Rhwymedigaethau amodol

Mae gan CNC y rhwymedigaethau amodol a ganlyn:

	31 Mawrth 2014 £'000
Atebolrwydd cyhoeddus	66
Hawliadau contractwyr	970
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,036</b>

## 20. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i adrodd amdanynt ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

## 21. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod o ddau gynllun pensiwn, Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

### Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae PCSPS yn agored i gyflogeion newydd a'r rhai sy'n dod o dan LGPS (gan ddiwyddo ar amodau penodol).

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil berthyn i un o bedwar cynllun buddiant diffiniedig; naill ai gynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfaf cyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a thelir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o fos Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn budd-ddeiliad 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5% a 3.9% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5% a 5.9% ar gyfer premium, classic plus a nuvos. Bydd cyfraniadau cyflogeion yn cynyddu o 1 Ebrill 2013. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiynau yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o fod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn budd-ddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddiwyddo ar oedran yr aelod) i bensiwn budd-ddeiliad a ddewisir gan y cyflogwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogwr gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae CNC hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Mae'r pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl; iddo wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os ydynt eisoes ar yr oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus a 65 ar gyfer aelodau nuvos.

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan [www.civilservice.gov.uk/pensions](http://www.civilservice.gov.uk/pensions)

### Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddodd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW) i Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Chynllun Trosglwyddo'r Corff Adnoddau Naturiol Cymru o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Erys cyflogeion Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn gyflogeion EAW yn aelodau o Gynllun Pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff a dderbynnir.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig statudol a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008. Mae wedi'i gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae manylion pellach y gronfa pensiwn gan gynnwys ei hadroddiad a chyfrifon blynyddol, ar wefan EAPF, [www.eapf.org.uk](http://www.eapf.org.uk).

Y cyfanswm tâl pensiwn ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru oedd £6.0 miliwn. Aseswyd y tâl pensiwn sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn unol â chyngor gan actiwari cymwysedig annibynnol gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig o brisio i gyfrifo'r costau gwasanaeth.

Cafwyd prisiad actiwaraidd teirblwydd diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2013. Y tybiaethau a effeithiodd fwyaf ar y prisiad diwethaf o'r rhwymedigaethau oedd y rhain yn ymwneud â'r gyfradd ddychwelyd ar fuddsoddiadau yn y dyfodol a chyfradd y cynnydd mewn cyflogau a phensiynau. Tybiwyd y byddai'r dychweliad ar y buddsoddiad yn y dyfodol yn 4.6% y flwyddyn. Er mwyn bod yn ochelgar ac osgoi'r risg o dan-ddatgan y rhwymedigaeth, tybiwyd y byddai cynnydd cyfartalog o 3.5% y flwyddyn mewn cyflogau (gan gydweddu â'r gyfradd RPI hir dymor plws 0.5%). Nid yw'r tybiaethau actiwaraidd gochelgar yn cynrychioli barn ar yr hyn y gallai symudiadau tâl fod yn y dyfodol. Tybiwyd y bydd pensiynau cyfredol ac yn y dyfodol yn cynyddu ar gyfradd o 2.2% y flwyddyn.

Ar ddyddiad y prisiad actiwaraidd teirblwydd diwethaf, roedd gwerth marchnad yr asedau'n ddigon i gynnwys 90% o werth y rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion gwasanaeth aelodau a oedd wedi cronni yn y gorffennol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol.

Y cyfraniad amcangyfrifedig sy'n daladwy gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac eithrio unrhyw daliadau cyfandaliad dewisol, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 fydd oddeutu £6.0 miliwn.

Mae'r nodiadau isod amlinellu gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â Chronfa Weithredol Asiantaeth yr Amgylchedd. Gwnaed yr holl gyfrifiadau gan actiwari cymwysedig annibynnol ac maent yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd diweddaraf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2013 wedi'i ddiweddarau i 31 Mawrth 2014. Defnyddir y tybiaethau sy'n sail i gyfrifo rhwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2014 at ddibenion cyfrifyddu'n unig yn unol â gofynion IAS 19. Nid oes unrhyw ofyniad i'r rhwymedigaeth net a adroddir gan ei thalu fel cyfandaliad. Bydd cyfraniadau ariannol a dalwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu pennu trwy gyfeirio i dybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd teirblwydd o'r cynllun.

## 21.1 Tybiaethau ariannol a hirhoedledd

	31 Mawrth 2014	01 Ebrill 2013
Cyfradd y cynnydd mewn chwyddiant a phensiynau	2.5	2.5
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau *	3.8	3.8
Cyfradd ddisgownt	4.3	4.5

\*Ar 31 Mawrth 2014 y dybiaeth ar gynydd hir dymor mewn tâl yw RPI plws 0.5% y.f.

### 31 Mawrth 2014

Disgwyliad bywyd cyfartalog y dyfodol yn 65 oed	Dynion	Menywod (blynyddoedd)
Pensiynwyr Cyfredol	22.6	24.5
Pensiynwyr y dyfodol (pobl sy'n 65 oed mewn 20	24.7	27.0

## 21.2 Gwerth Teg Asedau yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

Categori'r Ased	Dyfnbrisiau ar y farchnad weithredol	Dyfnbrisiau ar y farchnad anweithredol	Cyfanswm £m	%
Sicrwydd Ecwiti:				
Defnyddiwr	26.4	-	26.4	12%
Cynhyrchu	11.4	-	11.4	5%
Ynni a Chyfleustodau	17.5	-	17.5	8%
Sefydliadau Ariannol	15.4	-	15.4	7%
Iechyd a Gofal	10.8	-	10.8	5%
Technoleg gwybodaeth	10.7	-	10.7	5%
Sicrwydd Dyled:				
Bondiau Corfforaethol (gradd buddsoddi)	20.3	-	20.3	9%
Llywodraeth y DU	19.9	-	19.9	9%
Ecwiti Preifat:				
Popeth	-	8.1	8.1	3%
Eiddo				
Diriaethol:	-	8.6	8.6	4%
Popeth				
Ecwitiâu	42.5	-	42.5	19%
Bondiau	26.1	-	26.1	12%
Arian parod a chyfwerth ag				
Popeth	4.9	-	4.9	2%
<b>Cyfansymiau</b>	<b>205.9</b>	<b>16.7</b>	<b>222.6</b>	<b>100%</b>

## 21.3 Newid mewn gwerth teg asedau'r cynllun, rhwymedigaeth buddion diffiniedig a rhwymedigaeth net

Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014	Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr		Rhwymedigaethau Budd-dal Diffiniedig a Ariannwyd		(Rhwymedigaeth) net/ased	
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
<b>Trosglwyddo rhwymedigaeth Ar 1 Ebrill 2013</b>		<b>203.9</b>		<b>(246.7)</b>		<b>(42.8)</b>
Buddion pensiwn a gronnydd gan aelodau yn ystod y flwyddyn* Newid yng nghost pensiynau o wasanaeth blynnyddoedd blaenorol	-		(5.4)		(5.4)	
	-		(0.6)		(0.6)	
		-		<b>(6.0)</b>		<b>(6.0)</b>
<b>Cyfanswm cost y gwasanaeth (wedi'i gydnabod mewn gwariant net)</b>	9.2		-		9.2	
Incwm a enillwyd ar asedau'r cynllun Cost Ilog ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	-		(11.1)		(11.1)	
		<b>9.2</b>		<b>(11.1)</b>		<b>(1.9)</b>
<b>Cyfanswm Ilog net (wedi'i gydnabod mewn gwariant net)</b>	2.0		(2.0)		-	
Cyfraniadau cyflogwyr	5.4		-		5.4	
Buddion a dalwyd	(5.8)		5.8		-	
<b>Cyfanswm llifoedd arian Sefyllfa ddisgwyliedig ar y diwedd</b>		<b>1.6</b>		<b>3.8</b>		<b>5.4</b>
Newid mewn tybiaethau demograffig		<b>214.7</b>		<b>(260.0)</b>		<b>(45.3)</b>
Newid mewn tybiaethau ariannol	-		-		-	
Newidiadau eraill megis y gyfradd	-		(11.6)		(11.6)	
	-		(0.2)		(0.2)	
	7.9		-		7.9	
		<b>7.9</b>		<b>(11.8)</b>		<b>(3.9)</b>
		<b>222.6</b>		<b>(271.8)</b>		<b>(49.2)</b>

\*Yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu o of 0.4% o gostau cyflogres. Nid oes unrhyw rhwymedigaethau heb eu hariannu ar hyn o bryd.

Mae'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cynnwys oddeutu £148.1 miliwn, £37.1 miliwn ac £86.6 miliwn mewn perthynas â chyflogeion sy'n aelodau, pensiynwyr gohiriedig a phensiynwyr yn ôl ei drefn ar 31 Mawrth 2014.

## 21.4 Dadansoddiad sensitifrwydd

Amlinellir y sensitifrwydd o ran y tybiaethau pennaf a ddefnyddir i fesur rhwymedigaethau'r cynllun isod:

	Brasamcan o'r newid % yn rhwymedigaeth y cyflogwr	Brasamcan o'r swm ariannol
	%	£m
Gostyngiad 0.5% yn y gyfradd ddisgownt go iawn	12	31.3
Cynnydd un flwyddyn mewn disgwyliad bywyd aelodau	3	8.2
Cynnydd 0.5% yng nghyfradd gynnydd cyflogau	4	11.9
cynnydd 0.5% yng nghyfradd gynnydd pensiynau	7	18.9



## 22. Partion cysylltiedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael trafodion materol cysylltiedig gyda Llywodraeth Cymru yn nhrefn arferol ei fusnes (adroddir am y Cymorth Grant a'r grantiau a dderbyniwyd gan LIC yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr) a chydag endidau yr ystyrir y mae Llywodraeth Cymru'n adran riant iddynt, sef Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael amryw drafodion materol gydag adrannau llywodraeth eraill a chyrrff llywodraeth ganolog eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Asiantaeth yr Amgylchedd, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd ac Acwafeithrin, y Comisiwn Coedwigaeth, Cyllid a Thollau EM a Natural England.

Yn ystod y flwyddyn, yn nhrefn arferol ei fusnes mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgymryd â'r trafodion materol a ganlyn gyda'r mudiadau a ganlyn y mae gan y bwrdd a'r cyfarwyddwyr neu bartion cysylltiedig eraill fuddiant ynddynt. Nid oes gan aelodau bwrdd a chyfarwyddwyr unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros y trafodion hyn.

Mudiad	Aelod	Cyfanswm y taliadau £'000	Cyfanswm incwm £'000	Dyled CNC ar 31 Mawrth 2014 £'000	Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2014 £'000
Prifysgol Aberystwyth	Emyr Roberts	98	7	0	0
Partneriaeth Cymru Gyfan Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru	Ruth Hall	38	28	0	0
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	Hywel Davies	0	7	0	0
Prifysgol Caerdydd	Ruth Hall Priod Paul Williams	86	12	10	0
Defra (Cyfraniad JNCC)	Morgan Parry Lynda Warren Peter Matthews	752	0	0	0
Natural England	Nigel Reader	95	2	0	0
Swyddfa Archwilio Cymru	Mike Brooker	170	0	166	0
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru	Lynda Warren a'i phriod	71	0	0	0
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru	Lynda Warren	426	0	0	0
Sefydliad Gwy a Wysg	Harry Legge-Bourke	41	17	0	0

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, yn unol â Pharagraff 23 yr Atodlen i'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newid mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiâu cyfrifyddu a osodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y caiff ei esbonio'n fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol, yn unol â Pharagraff 23 yr Atodlen i'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a'r cyfarwyddiadau a roddir ynddi. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl cydnabyddiaeth sydd i gael ei harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn galw arnaf i gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth ddigonol o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad materol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu:

- a yw'r polisiâu cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol gan Cyfoeth Naturiol Cymru; a
- chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, mae galw arnaf i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yr wyf hefyd yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r wybodaeth nad yw'n ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol amlwg, yr wyf yn ystyried goblygiadau'r rhain i fy adroddiad.

### Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy mam i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2014 ac o'i gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifoedd arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Pharagraff 23 yr Atodlen i'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy mam i, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob agwedd faterol, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- paratowyd yn gywir y rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i gael ei harchwilio yn unol â Pharagraff 23 yr Atodlen i'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Strategol a'r Sylwadaeth Rheoli sy'n gynwysedig yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt os yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ynglŷn â'r tâl cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau gofynnol ar gyfer fy archwiliad.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Cathedral Road  
Caerdydd  
CF11 9LJ

24 Gorffennaf 2014

# Atodiad 1. Cyflwyniad i'r Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

## Cyflwyniad

Diben ein corff yw sicrhau bod adnoddau Naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud yr ymrwymiad y bydd datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein holl benderfyniadau busnes. Dros y blynyddoedd i ddod, rydym am ddatblygu ein hunain fel corff sy'n enghraifft ddisglair mewn perthynas â chynnaladwyedd a rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru, yn enwedig wrth i ni reoli a defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir.

Ein ffocws yn ystod y flwyddyn gyntaf hon oedd sefydlu ein gwaelodlin, er mwyn mesur perfformiad y dyfodol a phennu targedu heriol i'n hunain ar gyfer lleihau ein heffaith amgylcheddol. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynnaladwyedd amgylcheddol (yn unigryw i gamau gweithredu neu ganlyniadau cynnaladwyedd ehangach). Gellir dod o hyd i adrodd cysylltiedig ehangach ar gynnaladwyedd trwy gydol ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

## Crynodeb o Berfformiad

Rydym wedi cyrraedd ardystiad ISO4001 ar gyfer ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) newydd, yn dilyn archwiliadau a chadarnhad allanol. Cyflawnodd ein EMS<sup>1</sup> ardystiad ISO14001 yn dilyn archwiliadau a chadarnhad allanol gan LRQA ym mis Mawrth 2014. Mae meddu ar EMS cydnabyddedig yn galluogi i ni ddangos ein hymrwymiad i gyflawni'r safonau amgylcheddol uchaf posib fel sefydliad.

Rydym wedi cadw ardystiad coetiroedd hefyd (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) ar gyfer Ystâd Goetiroedd Llywodraeth Cymru yr ydym yn ei rheoli, yn dilyn archwiliad gwylidwriaeth trwy SGS ym mis Tachwedd. Mae hyn yn ein galluogi i gynhyrchu pren<sup>2</sup> ardystiedig FSC/PEFC o'r Ystâd Goetiroedd Llywodraeth Cymru yr ydym yn ei rheoli.

Rydym wedi sefydlu gwaelodlinau ar gyfer effaith amgylcheddol ein corff newydd hefyd (fel y dangosir isod ac o fewn yr adroddiad hwn). Mae'r gwaelodlinau bellach yn ffurfio sail ar gyfer asesu ein perfformiad yn y dyfodol.

**Tabl 1: Tabl crynodeb Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol**

Maes	Unedau	Gwirioneddol (2013/14 - Blwyddyn llawn)
Allyriadau nwyon tŷ gwydr <sup>3</sup>	Treuliant (tCO <sub>2</sub> e)	7,342
	Gwariant (£k)	3,323
Ynni ystadau	Treuliant (miliwn kWh)	7.6
	Gwariant (£k)	570
Gwastraff ystadau	Treuliant (tunelli)	635
	Gwariant (£k)	147
Dŵr ystadau	Treuliant (m <sup>3</sup> )	87,918
	Gwariant (£k)	35

<sup>1</sup> Mae ein EMS yn berthnasol i: "Weithgareddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheolaeth gynaliadwy amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru, ac eithrio gweithrediadau coedwig, sydd wedi'u hardystio ar wahân o dan UKWAS"

<sup>2</sup> Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC). Rhaglen ar gyfer Cadarnhau Ardystiadau Coedwig (PEFC). Fel y cefnogir gan ein hachrediad safon Sicrwydd Coetiroedd y DU (UKWAS) <<http://ukwas.org.uk/>> <<http://ukwas.org.uk/>>

<sup>3</sup> (Cwmpasau 1, 2 a 3 gan gynnwys teithio awyr/rheilffordd ac allyriadau y hwnt i'r cwmpasau)

## Crynodeb o Strategaeth y Dyfodol

Dros y tair blynedd nesaf bwriadwn ganolbwyntio ar:

- Sicrhau rheolaeth gynaliadwy y tir a dŵr a reolwn gan gynnwys: Ystâd Goedwigoedd Llywodraeth Cymru; Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol rydym yn berchen arnynt/eu rheoli'n uniongyrchol; asedau hanesyddol; gweithfeydd ac asedau amddiffyn rhag llifogydd; cadwraeth Afon Gwy
- Deall ein cyfraniad at liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd gan ddefnyddio'r tir a'r dŵr a reolwn a'n hasedau eraill, ac anelu at fod yn enghraifft ddisglair o ran rheoli carbon
- Cynnal achrediad ISO14001 ar gyfer ein rheolaeth amgylcheddol a bod yn enghraifft ddisglair mewn meysydd megis y defnydd o garbon, gwastraff a dŵr

## Y flwyddyn nesaf

- Rydym am leihau ein hól troed carbon - a'n bod wedi pennu targed ar gyfer lleihau ein hól troed carbon mewn perthynas â theithio ac adeiladau (a defnydd adeiladau o ynni) 5% o'i gymharu â'n gwaelodlin
- Rydym am ymgorffori ein EMS o fewn diwylliant ein corff - fel rhan o hyn byddwn yn sefydlu pwyllgorau EMS rhanbarthol i adrodd am berfformiad yn chwarterol, gan gyflwyno gweithdai arweinyddiaeth ar gyfer pob cyfarwyddiaeth a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth EMS i staff.
- Rydym am Integreiddio ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ein gweithgareddau caffael - byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi strategaeth gaffael gynaliadwy, cymhwyso offeryn asesu risg cynaladwyedd (SRA) i gontractau newydd dros £25k a chydymffurfio â'n polisi caffael pren newydd
- Rydym am fod yn fudiad ymgysylltiol a thryloyw ar gyfer ein budd-ddeiliaid EMS - byddwn yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid ac yn cyhoeddi adroddiad cynaladwyedd blynyddol a'n dogfennaeth EMS graidd.

Byddwn yn gweithio i wella ein hadroddiadau cynaladwyedd hefyd - gan adlewyrchu gofynion tebyg Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol sydd ar ddod trwy weithio tuag at adrodd Integredig.

## Allryiadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae ein hallyriadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u hamlinellu isod.

**Tabl 1: Gwaelodlin ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr**

Allryiadau nwyon tŷ gwydr <sup>4</sup>	2013/14 Blwyddyn llawn
Cwmpas 1: Allyriadau NTG uniongyrchol (tCO <sub>2e</sub> )	3,089
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO <sub>2e</sub> )	1,993
Cwmpas 3: Allyriadau NTG anuniongyrchol eraill (tCO <sub>2e</sub> )	2,260
<b>Cyfanswm allyriadau NTG crynswth (tCO<sub>2e</sub>)</b>	<b>7,342</b>
<i>Y tu allan i'r cwmpasau (h.y. biomass)</i>	357
<i>Dwysedd carbon (tCO<sub>2e</sub> fesul £m o wariant)</i>	41.5

Rydym yn gweithio i wella'n hadrodd mewn perthynas ag allyriadau cwmpas 1 o beiriannau/peirianwaith. Byddwn yn gwella ein hadrodd ar allyriadau cwmpas <sup>3</sup> yn 2014/15, a'r prif feysydd rydym am eu gwella yn 2014/15 yw gweithgareddau wedi'u contractio allan ac allyriadau wedi'u hymgorffori.

## Isafu a Rheoli Gwastraff

Rydym yn ymrwymedig i isafu maint y gwastraff a gynhyrchwn. Cydnabyddwn fod angen i ni wella'n hadrodd yn y maes hwn, ac rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau cysondeb yn y data gwastraff yr adroddwn amdano yn ystod y flwyddyn hon. Anelwn at fedru adrodd yn llawnach ar y maes hwn yn 2014/15.

<sup>4</sup> Mae dadansoddiad manylach o ffynonellau allyriadau o fewn cwmpasau 1-3 ar gael ar ein gwefan

**Tabl2: Gwaelodlin ar gyfer Gwastraff a Gynhyrchir**

Gwastraff a gynhyrchir	Unedau	2013/14 (blwyddyn llawn)
Wedi'i dirlenwi	Treulant (tunelli)	88
	Gwariant (£k)	90
Wedi'i ailgylchu / aildddefnyddio (gan gynnwys WEEE)	Treulant (tunelli)	448
	Gwariant (£k)	57
Wedi'i adael yn anghyfreithlon	Treulant (tunelli)	75
	Gwariant (£k)	Heb fod ar gael <sup>5</sup>
Wedi'i losgi	Treulant (tunelli)	24
	Gwariant (£k)	Heb fod ar gael <sup>7</sup>
<b>Cyfanswm gwastraff</b>	Treulant (tunelli)	635
	Gwariant (£k)	147

## Adnoddau

Rydym wedi adrodd ar ddefnydd dŵr ac ynni ein hystadau isod. Mae'r cerrig/agreg a ddefnyddir mewn prosiectau adeiladu'n un o'n meysydd defnyddio adnoddau sylweddol hefyd, ac adroddir amdano yn adran Adeiladu Cynaliadwy yr adroddiad hwn.

**Dŵr:** Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio mwy o ddŵr na'r cyfartaledd mewn swyddfeydd<sup>6</sup> fesul Call ar draws ein swyddfeydd, ac yn ymchwilio i ble y gallwn wella.

**Tabl 3: Treulant Dŵr Gwaelodlin**

Defnydd o adnoddau - Dŵr ar ein hystadau	Unedau	2013/14 (blwyddyn llawn)
Dŵr a gyflenwyd: Defnydd swyddfa	Treulant (m <sup>3</sup> )	9,636
Dŵr a gyflenwyd: Defnydd nad yw mewn swyddfeydd: - Prif gyflenwad - Tynnu dŵr - Dŵr glaw	Treulant (m <sup>3</sup> )	4,468
	Treulant (m <sup>3</sup> )	73,428
	Treulant (m <sup>3</sup> )	34
Dwysedd defnydd dŵr (defnydd swyddfeydd)	m <sup>3</sup> fesul Call	5.0
Dŵr a gyflenwyd:	Treulant (m <sup>3</sup> )	87,566
	Gwariant (£k)	35
	Treulant (m <sup>3</sup> )	30

Ein hangen tynnu dŵr mwyaf eleni yw cynnal y cynefinoedd gwlypdir yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdiroedd Casnewydd (SoDdGA dynodedig, ac yn rhan o SPA, RAMSAR a SAC Moryd Hafren) (62,591m<sup>3</sup> yn ystod y flwyddyn). Mae gan y gwlypdiroedd anghenion tynnu dŵr sy'n amrywio'n fawr<sup>7</sup>. Hefyd, rydym yn tynnu dŵr ar gyfer safleoedd ein deorfeydd pysgod, ac mewn safleoedd anghysbell (lle nad yw'r prif gyflenwad dŵr ar gael).

**Ynni:** Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynhyrchu 1.4% o'n defnydd ynni ein hunain trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy ar safleoedd (trwy ynni gwynt, ynni dŵr ac ynni'r haul).

Cynhyrchodd ein gosodiad ynni adnewyddadwy mwyaf (paneli ffotofoltaidd ar swyddfa Maes Y Ffynnon ym Mangor) 26,059kwh yn ystod y flwyddyn.

5 Nid ydym yn cofnodi'r data ariannol hwn ar hyn o bryd, a byddwn yn gweithio i ddod o hyd i hwn yn ystod 2014/15

6 Cyfartaledd = 4m<sup>3</sup> fesul Call (Ffynhonnell: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Dŵr a meincnodau ar gyfer swyddfeydd a gwestai. C657 CIRIA [www.ciria.org](http://www.ciria.org) <<http://www.ciria.org/>>)

7 Defnyddir dŵr wedi'i dynnu mewn tywydd sych a phoeth i gynnal lefelau dŵr a halwynedd Lagwnau Halwynog Gwlypdiroedd Casnewydd, sy'n hanfodol ar gyfer rhywogaethau niferus yr adar dŵr sy'n dibynnu arnynt. Tynnir dŵr yn yr Hydref hefyd i sicrhau bod glaswelltiroedd tir isel gwlyb y warchodfa'n cael eu cadw yn y cyflwr iawn i gynnal adar sy'n gaeafu.

**Tabl 4: Gwaelodlin Defnydd Ynni**

Defnydd o adnoddau - Ynni ar ein hystadau	Unedau	2013/14 (blwyddyn llawn)
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd a ddefnyddir	Treuliant (kwh)	6,679,347
	Treuliant (tCO <sub>2</sub> e)	2,329
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd nas defnyddir	Treuliant (kwh)	930,846
	Treuliant (tCO <sub>2</sub> e)	415
Ynni Adnewyddadwy: Hunangynhyrchwyd	Cynhyrchiad (kwh)	89,625
	Treuliant (% o ynni a ddefnyddiwyd)	1.4
Ynni a ddefnyddiwyd: Cyfanswm	Treuliant (kwh)	7,610,193
	Treuliant (tCO <sub>2</sub> e)	2,744
	Gwariant (£k)	570
Ynni Adnewyddadwy: Gosodwyd gan eraill <sup>8</sup>	Treuliant (MW)	59

Cynhyrchir ynni ar raddfa fawr ar yr ystâd ehangach a reolwn (Ystâd Goedwigoedd Llywodraeth Cymru) trwy fferm wynt Cefn Croes, sydd â capasiti gosodedig o 59MW. Mae Cynllun Cyflwyno Ynni wedi'i ddrafftio (yn cwmpasu gwynt, ynni dŵr, ynni'r haul, biomas, glo, olew a nwy), a byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu prosiectau ynni artraeth pellach ar yr ystâd a reolir, neu drwyddi, fel rhan o'n cynllun. Dros y pum mlynedd nesaf rydym eisoes yn rhagweld y bydd swm yr ynni a gynhyrchir ar yr ystadau a reolwn yn cynyddu'n sylweddol (y tu hwnt i 700MW o gapasiti ychwanegol wedi'i ddarparu trwy ynni adnewyddadwy, digon i bweru ~400,000 o dai).

## Caffael Cynaliadwy

Rydym wedi bod yn defnyddio gweithdrefnau a systemau'r cyrff blaenorol mewn perthynas â chaffael cynaliadwy yn ystod ein blwyddyn gyntaf, ond mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu ein polisi a strategaeth gaffael gynaliadwy newydd. Mae ein hymagwedd newydd yn debygol o fod yn seiliedig ar risg, a bydd yn cefnogi'r egwyddorion polisi a fanylir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru. Trwy ein penderfyniadau caffael, a'r targedau y byddwn yn eu pennu yn 2014/17 fel rhan o'n strategaeth gyffredinol, byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn cyflwyno'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mwyaf priodol ar gyfer Cymru.

## Teithio

Mae ein hanghenion teithio'n cynnwys: gweithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, ymdrin â llifogydd, cyfarfodydd safle, etc. Eleni rydym wedi teithio ~11 miliwn milltir wrth wneud ein gwaith.

**Tabl 5: Manylion teithio gwaelodlin**

Teithio mewn cerbydau	Unedau	2013/14 (blwyddyn llawn)
Cerbydau sy'n eiddo	Milltiroedd a deithiwyd	6,562,934
	Gwariant (£k)	1,101
Cerbydau wedi'u lesio	Milltiroedd a deithiwyd	2,154,755
	Gwariant (£k)	223
Cerbydau llwyd <sup>9</sup>	Milltiroedd a deithiwyd	673,345
	Gwariant (£k)	74
Hurio	Milltiroedd a deithiwyd	326,810
	Gwariant (£k)	14
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	1,405,603
	Gwariant (£k)	342
Awyr	Milltiroedd a deithiwyd	27,997
	Gwariant (£k)	8
Bieic	Milltiroedd a deithiwyd	4,812
	Gwariant (£k)	0
<b>Cyfanswm teithio mewn cerbydau</b>	Milltiroedd a deithiwyd	11,156,255
	Gwariant (£k)	1,762

Fel rhan o'n gwaith i leihau ein heffaith amgylcheddol mewn perthynas â theithio, rydym wedi rhoi hierarchaeth deithio ar waith. Mae'r hierarchaeth deithio'n gosod allan yr opsiynau o orau i waethaf ar gyfer teithio (gan nodi, er enghraifft, bod y defnydd o gludiant cyhoeddus yn well na ffurfiau eraill ar ddefnyddio cerbydau). Rydym yn gweithredu 'polisi dim hedfan' yng Nghymru a Lloegr hefyd, gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl geisiadau am deithio gael eu cyfiawnhau'n llwyr a'u cymeradwyo ar lefel y Tîm Gweithredol.

## Digwyddiadau amgylcheddol

Cafwyd 33 digwyddiad amgylcheddol o ganlyniad i'n gwaith ni (neu waith ein contractwyr) a 3 achos sydd bron wedi digwydd. Dosbarthwyd un o'r digwyddiadau hyn yn ddifrifol (categori 2) yn ôl y cynllun dosbarthu digwyddiadau amgylcheddol rydym yn ei gymhwyso i ddigwyddiadau amgylcheddol. Pan geir digwyddiadau fel rhan o'n gwaith ni (neu waith ein contractwyr), rydym yn adolygu'r hyn a ddigwyddodd, ac yn cymryd camau i ymdrin ag achos craidd y digwyddiad.

## Adeiladu Cynaliadwy

Mae llawer o'n gweithgareddau adeiladu wedi'u contractio allan, ac nid ymdrinnir â pheth o'r gweithgarwch hwn gan y ffigurau isod. Rydym am ehangu maint ein gwaith adeiladu a gontractir allan sydd wedi'i gynnwys gan fonitro yn ystod blynyddoedd 11 y dyfodol. Mae ein prosiectau'n defnyddio cynlluniau rheoli gwastraff safleoedd, i helpu cynllunio, a lleihau gwastraff sy'n deillio ohonynt

8 Cynlluniau ar yr ystadau a reolwn sy'n ymwneud â datblygwyr yn lesio tir gennym ni i leoli gosodiadau ynni adnewyddadwy (e.e. ffermydd gwynt, cynlluniau ynni dŵr). Mae'r ffigurau a roddir yn adlewyrchu capasiti gosodedig gosodiadau, yn hytrach nag ynni go iawn a gynhyrchir

9 Cerbydau llwyd yw cerbydau preifat staff



**Cerrig/agreg:** Anelwn at ddefnyddio agregau ffynhonnell eilaidd ble bynnag y mae'n gwneud synnwyr i'w wneud ac maent ar gael yn lleol, gan adael echdynnu unrhyw agreg gynradd yn ddiangen. Eleni, mae 75% o'r agreg a ddefnyddiwn wedi dod o ffynhonnell eilaidd.

**Tabl 6: Defnydd o gerrig/agreg**

Defnydd o adnoddau - Cerrig/agreg	Unedau	2013/14 (blwyddyn llawn)
Cerrig/agreg - ffynhonnell gynradd	Treuliant (tunelli)	63,923
	Gwariant (£k)	526
	Treuliant (tCO <sub>2</sub> e)	703
Cerrig/agreg - ffynhonnell eilaidd	Treuliant (tunelli)	190,623
	Gwariant (£k)	10
	Treuliant (tCO <sub>2</sub> e)	381
Defnydd ffynhonnell eilaidd	(% fesul cyfanswm pwysau)	75

**Pren:** Anelwn at sicrhau bod yr holl bren a ddefnyddiwn yn dod o ffynonellau cynaliadwy, ac rydym yn cynhyrchu pren FSC/PEFC12 ardystiedig o Ystâd Goedwigoedd Llywodraeth Cymru a reolir gennym. Rydym yn cyflwyno polisi caffael pren newydd yn gynnar ym mis Ebrill 2014 ac yn hyfforddi staff allweddol ar y gofynion o ran gwneud hyn.

## Cyfuno safleoedd

Gwnaethom etifeddu swm mawr o lety (e.e. depos neu swyddfeydd) gan ein cyrff blaenorol, yr oedd rhai ohonynt yn cyflawni swyddogaeth debygol ar safleoedd tebyg. Cyflawnwyd rhai 'canlyniadau cyflym' yn 2013/14 trwy symud staff o rai o'r safleoedd hyn i rai eraill a danddefnyddiwyd. Mae hyn hefyd yn ein galluogi ni i werthu ein safleoedd dros ben, a gostwng ein costau llety, a'n hól troed carbon sy'n gysylltiedig â llety. Byddwn yn parhau i gyfuno ein safleoedd dros y blynyddoedd i ddod.

## Llywodraethu ac Adrodd

Adroddwyd am gynnydd yn erbyn y mesur Panel Rheoli Corfforaethol hwn i'r Bwrdd gan y Tîm Gweithredol (mewn sesiwn gyhoeddus agored) tair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn casglu'r data a ddefnyddiwyd o fewn yr adroddiad cynladwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesurydd (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. prynu ar gardiau tanwydd) a data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trên), gan ddefnyddio'r ffynonellau data mwyaf cywir sydd gennym. Mae'r data'n cael ei wirio gan staff sy'n gyfrifol am y setiau data hyn ac a adroddir yn fewnol ar gyfer adolygiadau.

Rydym wedi bod yn gweithio i wella cysondeb adrodd yn ystod y flwyddyn hon, gan yr oedd gan ein corffau blaenorol ymagweddau gwahanol at ddata yn aml (e.e. pa safleoedd sy'n cofnodi pa ddata gwastraff a sut). Er bod y data yr adroddwn amdano'n ddibynadwy, mae angen sicrhau bod cysondeb y data a gesglir ac yr adroddir amdano'n cael ei wella ymhellach yn ein hail flwyddyn.

# Atodiad 2. Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru o 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014

## Rheoli pobl

Rydym yn rheoli ein niferoedd staff

Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant mandadol

Rydym yn rheoli lefelau absenoldeb

*Rydym yn gostwng nifer yr achosion o golli amser oherwydd iechyd, diogelwch a lles*

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	1,850 Call (Mawrth 2015)	1,953.8 Call (March 2014)
	Cynigir hyfforddiant i 100% o staff ar gyfer anghenion mandadol	Cynigir hyfforddiant i 90% o staff ar gyfer anghenion mandadol
	7 niwrnod wedi'u colli fesul gweithiwr ar gyfartaledd (3.1%)	6 niwrnod wedi'u colli fesul gweithiwr ar gyfartaledd (3%)
	< 84 o achosion o golli amser	6 o achosion o golli amser

## Rheolaeth Ariannol

Rydym yn cynnal lefel isel o ddyled

Rydym yn cyflwyno gwerth am arian wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau

[R] Mae ein telerau talu'n cyflawni meincnodau Llywodraeth Cymru

Mae ein gwariant ar y trywydd iawn

Mae ein hincwm ar y trywydd iawn

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	<= 1.5% o incwm taliadau wedi'i filio (erbyn mis Mawrth)	1.42% (£436,901) o incwm wedi'i filio (erbyn mis Mawrth)
	£500,000 mewn mesurau effeithlonrwydd (erbyn mis Mawrth)	£565,000 mewn mesurau effeithlonrwydd (erbyn mis Mawrth)
	>= 95% o anfonebau wedi'u talu o fewn 30 niwrnod	98% o anfonebau wedi'u talu o fewn 30 niwrnod
	+/- 1% o wariant wedi'i broffilio ar ddiwedd y flwyddyn	Gwariant o fewn 1% o'r rhagolwg diwedd blwyddyn
	-2% neu well o incwm wedi'i broffilio ar ddiwedd y flwyddyn	0% (£0.1m ar y blaen) o incwm ar ffurf elw ar ddiwedd y flwyddyn

## Safonau gwasanaeth

Mae mwy o'n staff yn siarad Cymraeg

[R] Rydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth ar amser

[R] Rydym yn dysgu gwersi o adborth gan gwsmeriaid (ac yn derbyn llai o gwynion)

[R] Rydym yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ar-lein i'n cwsmeriaid

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	Lefelau dysgu Cymraeg wedi'u cynnal yn erbyn y waelodlin	Lefelau dysgu Cymraeg wedi'u cynnal yn erbyn y waelodlin
	80% o'r holl ymholiadau wedi'u datrys o fewn CNC	87% o'r holl ymholiadau wedi'u datrys o fewn CNC
	60% wedi'u datrys yn y cam anffurfiol	67% resolved at informal stage
	Wedi'n graddio yn y 1/3 uchaf o Wefannau Llywodraeth Ganolog	Wedi'n graddio yn y 1/3 uchaf o Wefannau Llywodraeth Ganolog

## Ansawdd Amgylcheddol

[R] Mae llai o ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol

*Rydym yn datrys materion ar safleoedd "o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd"*

Rydym yn cyflwyno trwyddedu morol a rhywogaethau gwarchoddedig

Rydym yn cyhoeddi trwyddedau ar amser

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	Sicrheir presenoldeb ar amser mewn 100% o ddigwyddiadau difrifol	Cafwyd presenoldeb ar amser mewn 85% o ddigwyddiadau difrifol (142 o 167)
	Cynlluniau DMC ar waith mewn pryd	Cynlluniau ar waith ar bob safle
	95% o drwyddedau wedi'u pennu ar amser	95% o drwyddedau wedi'u pennu ar amser
	95% o drwyddedau wedi'u pennu ar amser	95% o drwyddedau wedi'u pennu ar amser

## Gwydnwch Amgylcheddol

Rydym yn darparu tystiolaeth amgylcheddol ac yn galluogi datblygu cynaliadwy mewn prosiectau ynni

Rydym yn darparu tystiolaeth i ymholiadau cynllunio ac yn symud datblygiadau cynlluniedig ymlaen

Rydym yn diweddarau Cynlluniau Rheoli Craidd Natur 2000

Rydym yn cynnal ardystiad coetiroedd ar gyfer Ystâd Goetiroedd Llywodraeth Cymru

Rydym yn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio statudol ar amser

Rydym yn rhoi cyngor arbenigol ar y Gyfarwydddeb Cynefinoedd

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	Tystiolaeth wedi'i darparu ar amser (100%)	Tystiolaeth wedi'i darparu ar amser
	Safleoedd critigol wedi'u paratoi ar gyfer gwaith ynni gwynt (erbyn mis Chwefror)	Safleoedd critigol wedi'u paratoi ar gyfer gwaith ynni gwynt
	Cynlluniau diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar amser	Cynlluniau diwygiedig heb eu cyhoeddi
	100% o gamau gweithredu archwilio wedi'u datrys	97% o gamau gweithredu archwilio wedi'u datrys
	90% o ymatebion integredig i ACLI ar amser	69% o ymatebion integredig i ACLI ar amser (Hydref i Fawrth)
	Arweiniad ysgrifenedig wedi'i gydgrynhoi ar amser	Arweiniad ysgrifenedig heb ei gydgrynhoi ar amser

## Swyddi a Mentrau seiliedig ar Adnoddau Naturiol

**Rydym yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'n safleoedd allweddol**

**Rydym yn helpu i gyflwyno camau gweithredu yng Nghymru a Mynediad Arfordir Cymru**

Cynigir pren i'r farchnad

Mae mwy o ystadau coetir yn cael eu lleihau

Mae cynlluniau rheoli'n bodoli ar gyfer Pysgodfeydd Cocos Gwy a Thywyn

Rydym yn datblygu ein galluoedd menter ymhellach

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	50,000 o ymwelwyr ychwanegol	51,490 o ymwelwyr ychwanegol (erbyn mis Rhagfyr)
	Cyhoeddi adroddiad ar Lwybr Arfordirol Cymru	Cyhoeddwyd adroddiad ar Lwybr Arfordirol Cymru
	860,000m3 o Bren (erbyn mis Chwefror)	860,000m3 o Bren (erbyn mis Mawrth)
	2,500 hectar o goetir (erbyn mis Mawrth)	2,500 hectar o goetir (erbyn mis Mawrth)
	Cyflwynir cynlluniau drafft i Lywodraeth Cymru	Cyflwynwyd cynlluniau drafft i Lywodraeth Cymru
	Strategaeth a rhagamcaniad referniw wedi'u cwblhau	Strategaeth fenter wedi'i chymeradwyo

## Risg o Lifogydd a Rheoli Digwyddiadau

Rydym yn rheoli achosion o bla a chlefydau sy'n peryglu iechyd planhigion

**Rydym yn cyflwyno datrysiadau rheoli risg llifogydd arloesol**

Rydym yn gwella amddiffyniad mwy o eiddo f'rag llifogydd

Rydym yn amddiffyn mwy o bobl rhag llifogydd mewn lleoliadau lle mae'r risg yn uchel

Rydym yn ehangu'r ardaloedd a rybuddir am lifogydd mewn cymunedau lle mae'r risg yn uchel

Rydym yn helpu rheoli'r risg o lifogydd oherwydd ymchwydd yn y llaw

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	95% o SHPN wedi'u cyflwyno ar amser	95% o SHPN wedi'u cyflwyno ar amser, 82% yn cydymffurfio â nhw
	Cynhyrchu cynllun gweithredu	Cynhyrchwyd cynllun gweithredu
	500 yn fwy o aelwydydd a busnesau	1,205 yn fwy o aelwydydd a busnesau
	Ased mewn cyflwr targed (99% ar gyfer risg uchel)	Ased mewn cyflwr targed (97.1% ar gyfer risg uchel)
	58.2% o bobl wedi cofrestru	58.2% o bobl wedi cofrestru
	Tystiolaeth wedi'i darparu	Tystiolaeth wedi'i darparu

## Iechyd, Lles a Chynnwys y Gymuned

**Rydym yn adnabod camau gweithredu penodol i wella amgylchedd trefol Cymru**

[P] **Rydym yn helpu i gyflwyno'r Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy**

[P] **Rydym yn cwblhau'r prosiect amgylcheddol iTree a chynlluniau plannu coed partneriaeth peilot**

[P] **Rydym yn helpu i gyflwyno'r Prosiect Allan â Ni!**

Rydym yn annog mwy o bobl i baratoi ar gyfer llifogydd

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	Drafftio strategaeth ar gyfer is-grŵp y Bwrdd erbyn mis Mawrth	Paratoad y strategaeth bron wedi'i gwblhau
	Gwerthusiad allan y PHT wedi'i gwblhau	Gwerthusiad allan y PHT wedi'i gwblhau
	Adroddiad Terfynol ar gyfer y prosiect amgylcheddol iTree (erbyn mis Chwefror)	Adroddiad technegol wedi'i gwblhau
	Gweithdai Cam 2 wedi'u rhoi ar waith	Gweithdai Cam 2 wedi'u rhoi ar waith
	16,000 yn fwy o bobl yn fwy ymwybodol	16,000 yn fwy o bobl yn fwy ymwybodol

## Ansawdd Amgylcheddol

Rydym yn darparu tystiolaeth ac yn rhoi cyngor ar yr amgylchedd Morol

Rydym yn deall, ac yn rheoli, ein heffaith ein hunain ar yr amgylchedd

Statws Terfynol	Targed	Cyflawniadau 2013/14
	Cynhyrchir tystiolaeth ar amser	Paratowyd adroddiad y AGA Morol
	CNC wedi'i gofrestru fel ISO14001	CNC wedi'i gofrestru fel ISO14001

**Allwedd:****colofnau statws:**

Mae hyn yn dangos nad ydym ni ble y dylem ni fod



Mae hyn yn dangos ein bod ni bron wedi cyrraedd y targed (o fewn 10%)



Mae hyn yn dangos ein bod ni wedi cyrraedd y targed

**arddulliau ffont:**

Blaenoriaeth Weinidogol

**Tanlinellu**  
**bras**

Yn ymwneud â maes o Risg Gorfforaethol

*Italig***tagiau:**

Mesurau sy'n gysylltiedig ag enw da

[R]

Mesurau sy'n gysylltiedig â gwaith partneriaeth

[P]

[~]

**Nodiadau:**

- Mae'r Panel Rheoli Corfforaethol yn dangos y sefyllfa berfformiad ar gyfer mesurau pennawd
- Mae'r Panel Rheoli Corfforaethol wedi'i gefnogi gan adroddiadau cynnydd i Dîm y Cyfarwyddwyr Gweithredol
- Mae'r Panel Rheoli Corfforaethol wedi'i gefnogi gan adroddiadau crynodeb i'r Bwrdd hefyd

## Atodiad 3. Presenoldeb y Bwrdd

Aelod Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd Posib -11	Presennol	Pwyllgor Archwilio a Risg Posib - 7	Presennol	Pwyllgor Tâl Cynabyddiaeth Posib - 9	Presennol	Pwyllgor Safleoedd Gwarchoddedig Posib	Presennol
	<b>07/11/2012 - 12/02/2014</b>		<b>13/02/2013 - 14/03/2014</b>		<b>25/03/2013 - 14/03/2014</b>			
Mike Brooker	11	11	dd/b	dd/b	9	9	1	1
Hywel Davies	11	10	dd/b	dd/b	9	5	dd/b	dd/b
Ruth Hall	11	10	7	7	9	9	1	1
Madelaine Havard	11	11	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b
Harry Legge-Bourke	11	9	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	1	1
Peter Matthews (Cadeirydd)	11	11	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b
Andy Middleton	11	11	7	5	dd/b	dd/b	1	1
Morgan Parry <sup>1</sup>	11	9	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b
Nigel Reader (Cadeirydd ARAC)	11	9	7	7	9	6	dd/b	dd/b
Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	11	11	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b
Lynda Warren	11	11	dd/b	dd/b	dd/b	dd/b	1	1
Paul Williams Cadeirydd (RemComr)	11	10	dd/b	dd/b	9	9	dd/b	dd/b

<sup>1</sup> Yn drist bu farw Morgan Parry ar 4 Ionawr 2014.